

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

PC58: Trawsnewid trefi isadeiledd gwyrdd

**Cynllun i'w archwilio
gan y cyhoedd**

Rhagfyr 2022



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar [wefan y Cyngor](#). Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partiön; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.




Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod

Conwy County, the right environment to live, work and discover

Contents

Rhagarweiniad	7
1.0 Adolygiad Sylfaenol	9
2.0 Bae Cinmel	17
2.1 Ardal Astudiaeth	18
2.2 Dadansoddiad Safle	20
2.3 Cyfleoedd a Heriau.....	24
2.4 Meysydd Blaenoriaeth	30
2.5 Dyluniad Cysyniad.....	32
3.0 Towyn.....	38
3.1 Ardal Astudiaeth	39
3.2 Dadansoddiad Safle	41
3.3 Cyfleoedd a Heriau.....	45
3.4 Meysydd Blaenoriaeth.....	50
3.5 Dyluniad Cysyniad.....	52
4.0 Abergele.....	61
4.1 Ardal Astudiaeth	62
4.2 Dadansoddiad Safle	64
4.3 Cefndir.....	68
4.4 Cyfleoedd a Heriau.....	72
4.5 Meysydd Blaenoriaeth	79
4.6 Dyluniad Cysyniad.....	81
5.0 Pensarn	88
5.1 Ardal Astudiaeth	89
5.2 Dadansoddiad Safle	91
5.3 Cefndir.....	95
5.4 Cyfleoedd a Heriau	97
5.5 Meysydd Blaenoriaeth.....	102
5.6 Dyluniad Cysyniad.....	106
6.0 Bae Colwyn.....	111
6.1 Ardal Astudiaeth	112
6.2 Dadansoddiad Safle	114
6.3 Cefndir.....	118
6.4 Cyfleoedd a Heriau.....	120
6.5 Meysydd Blaenoriaeth.....	126
6.6 Dyluniad Cysyniad.....	131
7.0 Llanrwst	138
7.1 Ardal Astudiaeth	139
7.2 Dadansoddiad Safle	141
7.3 Cyfleoedd a Heriau.....	145

7.4 Meysydd Blaenoriaeth.....	153
7.5 Dyluniad Cysyniad.....	157
8.0 Llandudno.....	162
8.1 Ardal Astudiaeth.....	163
8.2 Dadansoddiad Safle.....	165
8.3 Cefndir.....	169
8.4 Cyfleoedd a Heriau.....	171
8.5 Meysydd Blaenoriaeth.....	177
8.6 Dyluniadau Cysyniad.....	181
9.0 Conwy.....	189
9.1 Ardal yr Astudiaeth.....	190
9.2 Dadansoddiad Safle.....	192
9.3 Cefndir.....	196
9.4 Cyfleoedd a Heriau.....	199
9.5 Meysydd Blaenoriaeth.....	206
9.6 Dyluniadau Cysyniad.....	209
10.0 Penmaenmawr.....	213
10.1 Ardal yr Astudiaeth.....	214
10.2 Dadansoddiad Safle.....	216
10.3 Cyfleoedd a Heriau.....	220
10.4 Meysydd Blaenoriaeth.....	226
10.5 Dyluniadau Cysyniad.....	230
11.0 Llanfairfechan.....	235
11.1 Ardal yr Astudiaeth.....	236
11.2 Dadansoddiad Safle.....	238
11.3 Cyfleoedd a Heriau.....	242
11.4 Meysydd Blaenoriaeth.....	248
11.5 Dyluniadau Cysyniad.....	252
12.0 Cynllun Cyflawni.....	259



Asesiad Ymyraethau Isadeiledd Gwyrdd Canol Trefi Sir Conwy

Adroddiad Dylunio

RHAGFYR 2022
IN9250.012A

CYNLLUNIO | DYLUNIO | YR AMGYLCHEDD



Rhagarweiniad



Rhagarweiniad

Gwybodaeth Gefndir a Briff y Prosiect

Comisiynodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) The Environment Partnership (TEP) Limited i gyflawni Asesiad Ymyraethau Isadeiledd Gwyrdd yn wyth o brif drefi yn y sir, sef:

- Llandudno
- Bae Colwyn
- Abergele a Phensarn
- Towyn a Bae Cinnel
- Conwy
- Llanrwst
- Penmaenmawr
- Llanfairfechan

Mae'r adroddiad hwn yn darparu Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer canol trefi gyda gwaith cynllunio lleoedd lefel uchel ar gyfer meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys dyluniadau cysyniad Cam 2 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA).

Mae ardaloedd astudiaeth canol trefi yn seiliedig ar Prif Barthau Siopa ac Ardaloedd Siopa Cynllun Datblygu Lleol 2017 - 2022.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd CBSC 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn ystyried Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer y sir gyfan. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd er mwyn canfod lle gall fuddsoddiad mewn Isadeiledd Gwyrdd amlwrpas gael y buddion mwyaf ar gyfer cymdeithas a natur er mwyn bodloni anghenion lleol yn effeithiol a chefnogi amcanion ys Asesiad Isadeiledd Gwyrdd.

Gweithiodd TEP yn agos gyda thîm prosiect CBSC

drwy gyfres o weithdai, gan gipio eu gwybodaeth a phrofiad lleol i ddatblygu cynigion addas. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion o adrannau Polisi Cynllunio, Prifffyrdd, Teithio Llesol, Twristiaeth Busnes ac Adfywio, Mannau Agored a Manwerthu, Ecoleg, Coed a Chadwraeth.

Gweledigaeth ar gyfer Trefi Blaenoriaeth Conwy

Mae ardaloedd mawr o drefi arfordirol Conwy sydd yn absennol ar hyn o bryd o Isadeiledd Gwyrdd neu lle nad yw Isadeiledd Gwyrdd yn perfformio llawer o swyddogaethau. Gall wella asedau Isadeiledd Gwyrdd presennol a chreu mannau gwyrdd amlwrpas newydd ddarparu ystod o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn 8 o drefi blaenoriaeth Conwy. Yn ogystal â hynny, bydd gwella llwybrau Teithio Llesol a gwella parth cyhoeddus mewn canol trefi yn darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd ynghyd â buddion economaidd a chymdeithasol a fydd yn cynorthwyo i gefnogi adferiad ar ôl y pandemig.

Amcanion yr astudiaeth

Nod yr Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd yw asesu a mapio pob un o'r 8 canol tref blaenoriaeth yn fanwl er mwyn canfod lle mae'r galw, pa fath o isadeiledd gwyrdd sydd ei angen a lle ddylai cynigion gael eu targedu. Mae Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer pob tref yn ystyried canllawiau a meincnodau cenedlaethol a lleol, gwybodaeth budd-ddeiliaid a mapiau amlwrpas Isadeiledd Gwyrdd a ddangosir yn Adran 3.0 yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd.

Mae pob Archwiliad Isadeiledd Gwyrdd yn ystyried yn fanwl lle dylai Isadeiledd Gwyrdd gael ei ddiogelu, ei wella ac ardaloedd posibl ar gyfer creu Isadeiledd Gwyrdd newydd fel y manylir yn yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd.

Mae hyn hefyd yn ystyried cyfleoedd mannau agored, Teithio Llesol a pharth cyhoeddus o fewn pob canol tref er mwyn sicrhau fod anghenion mannau agored, mynediad a chreu lleoedd yn cael eu hystyried. Mae pob archwiliad yn adeiladu ar hyn er mwyn canfod a mapio cyfleoedd lefel uchel ar gyfer gwelliannau parth cyhoeddus, Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd ymhob canol tref. Mae'r canlyniad yn gyfres o ymyraethau go iawn o fewn yr 8 tref.

Trwy gytundeb gyda'r tîm prosiect, mae gwaith cynllunio lleoedd lefel uchel wedi cael ei gyflawni ar gyfer yr ymyraethau blaenoriaeth uchaf gyda chyfres o ddyluniadau cysyniad tirlun a pharth cyhoeddus wedi'u cynhyrchu i Gam 2 RIBA. Mae pob dyluniad cysyniad yn darparu dewisiadau ymarferol ar gyfer gwella Isadeiledd Gwyrdd, llwybrau Teithio Llesol a pharth cyhoeddus rhwng y cymunedau a chyrchfannau allweddol megis canol dref, cyflogaeth, cyfleusterau iechyd a lles, addysg, mannau agored a glan y môr a chefn gwlad amgylchynol.

Bydd hyn yn sicrhau fod gan drigolion, ymwelwyr a chymunedau gyfle i gael mynediad at isadeiledd gwyrdd diogel o ansawdd dda tra'n gwella profiad i ymwelwyr ac ymddangosiad pob canol tref, gan wella buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Beth yw Isadeiledd Gwyrdd?

Diffiniad:
'Isadeiledd Gwyrdd yw rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sydd ar wasgar rhwng lleoedd ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt' (PCC 10, 2018)

Mae'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn disgrifio Isadeiledd Gwyrdd fel *"isadeiledd hanfodol ar gyfer iechyd trigolion a bywyd gwyllt Conwy. Isadeiledd Gwyrdd yw'r rhwydwaith o fannau glas a gwyrdd amlwrpas sy'n darparu ecosystemau hanfodol er mwyn i bobl a natur ffynnu."*

"Mae Isadeiledd Gwyrdd sy'n cyfrannu tuag at rwydweithiau yn eang, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i, barciau a gerddi, arfordir a thraethau, coetir, llynnoedd, coed stryd, toeau a waliau gwyrdd, mynwentydd a rhandiroedd. Yn unigol, mae'r nodweddion hyn yn asedau Isadeiledd Gwyrdd, er eu bod oll yn chwarae un neu nifer o rolau yn y rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd ehangach, sef swyddogaethau Isadeiledd Gwyrdd."

Mae Isadeiledd Gwyrdd yn aml-raddfa, yn gweithredu ar raddfa tirlun yn cynnwys ecosystemau cyfan neu nodweddion amgylcheddol eang megis mynyddoedd, i'r raddfa lleol lle mae Isadeiledd Gwyrdd yn cynnwys parciau, cyrsiau dwr a rhandai. Mae lefel stryd, coed, gwrychoedd a lleiniau ochr ffordd hefyd yn cyfrannu tuag at y rhwydwaith Isadeiledd Gwyrdd ehangach. Mae gwaith i wella ansawdd ac aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd yr un mor bwysig ar holl raddfeydd ar gyfer rhwydwaith cadarn a chysylltiedig o Isadeiledd Gwyrdd ar draws y fwrdeistref."

¹ Datganiad Sefyllfa Isadeiledd Gwyrdd Sefydliad Tirweddau (2013)

1 Adolygiad Sylfaenol



1.0 Adolygiad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar gyfer cyhoeddus i gyflawni datblygiad cynaliadwy, sy'n gofyn am welliant yn narpariaeth y pedwar agwedd o les: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant y bwriedir iddynt siapia gwaith yr holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru:

- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus

Well-being Goals



Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Cymru'r Dyfodol: Cyhoeddwyd y Cynllun Cenedlaethol 2040 ym mis Chwefror 2021 ac mae'n ffurfio'r fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru hyd 2040.

Mae'n ddogfen gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi bywiog; datgarboneiddio ac atal newidiadau yn yr hinsawdd; datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Mae gan y polisiâu canlynol berthnasedd ag Asesiad Ymyraethau Isadeiledd Gwyrdd CBS Conwy:

- Polisi 2 Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol
- Polisi 9 Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd
- Polisi 19 Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol
- Polisi 21 Ardal Dwf Ranbarthol – Anheddau Arfordirol Gogledd Cymru

Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin

Yn 2020, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y fersiwn gyntaf o'u Datganiadau Ardal sy'n cynnwys saith rhan gwahanol, amrywiol o Gymru. Mae'r Datganiadau Ardal yn nodi'r heriau a chyfleoedd allweddol i gryfhau rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystem ar raddfa leol. Maent yn canfod yr ardaloedd lle gall gymryd camau ar y raddfa iawn gynyddu buddion. Bydd meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodir yn y Datganiadau Ardal yn ystyriaeth cynllunio materol.

Yn sgîl ei ystod a'i ddylanwad, nododd budd-ddeiliaid yr argyfwng hinsawdd a'r amgylchedd fel y thema pwysicaf a throsfwaol ar gyfer Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin. Mae themâu eraill yn cynnwys:

- Annog economi cynaliadwy: canfod dulliau cynaliadwy ar gyfer cyfleoedd economaidd sy'n gwella adnoddau naturiol unigryw i'r Gogledd Orllewin;
- Ailgyssylltu pobl gyda natur: galluogi cymunedau i ailgyssylltu, deall, ymgysylltu a dylanwadu ar ddefnydd creadigol yr amgylchedd naturiol lleol;
- Cyfleoedd ar gyfer ecosystemau cadarn: gweithio i ddadwneud y dirywiad, a gweithredu i gyfoethogi bioamrywiaeth; a
- Chefnogi rheolaeth tir cynaliadwy: gweithio gyda rheolwyr awyr, tir a dŵr ar draws Gogledd Orllewin Cymru i ddatblygu rheolaeth adnoddau cynaliadwy

Bydd y Datganiad Ardal yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a'i wella o un flwyddyn i'r llall, a bydd y cyfleoedd a ganfyddir yn yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn cael eu diweddarau drwy gydol cyfnod y CDLIN (2033) er mwyn sicrhau dull cyfunol i oresgyn yr heriau cymhleth a wynebwr gan yr amgylchedd naturiol.

1.0 Adolygiad

Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd 2007-2022

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol presennol Conwy 2007 – 2022 ym mis Hydref 2013. Mae CBSC bellach yn cyflawni adolygiad llawn o'r Cynllun. Mae'r adran hon yn cynnwys polisiâu a materion allweddol mewn perthynas â'r prosiect hwn.

Mae Adran 1.11 y Cynllun Lleol yn nodi'r materion blaenoriaeth yng Nghonwy. Mae'r materion sy'n berthnasol i'r prosiect wedi'u nodi isod:

- *Mynd i'r Afael ag Ardaloedd Amddifad:* Mae Bae Colwyn wedi profi dirywiad sylweddol yn y diwydiant twristiaeth. Mae angen hyrwyddo adferiad a dadeni cynhwysfawr Bae Colwyn.
- *Diogelu Canol Trefi a Rhanbarthol:* Mae canolfa rhanbarthol Llandudno a Chanol trefi pwysig eraill o fewn Ardal y Cynllun yn profi pwysau o ddefnydd heblaw am fanwerthu. Mae angen cynnal a, lle bo'n briodol, gwella Llandudno fel canolfan manwerthu ar gyfer y rhanbarth, hyrwyddo adferiad Bae Colwyn, yn ogystal â chanolfannau manwerthu eraill, a lle bynnag bosibl, gwella bywiogrwydd, edrychiad a hyfywedd y canolfannau drwy brofiad siopa mwy amrywiol.
- *Annog Cludiant Cynaliadwy:* Mae angen gwell defnydd o gludiant cynaliadwy ac isadeiledd cludiant yng Nghonwy drwy ddatblygu system gludiant integredig, hygyrchedd cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig, darpariaeth cludiant cyhoeddus, cyfnewidfeydd moddol, mwy o gyfleusterau beicio a cherdded a'r gofyniad am gynlluniau teithio i leihau dibyniaeth ar geir.

- *Hyrwyddo Dyluniad o Ansawdd Uchel* Mae angen mynnu dyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel er mwyn cynnal a gwella cymeriad Conwy yn ogystal â darparu dyluniad mwy arloesol i annog y boblogaeth iau i aros a dychwelyd i'r ardal.
- *Defnydd Effeithlon o Adnoddau Naturiol:* Mae Conwy yn agored i effeithiau Newid Hinsawdd, yn arbennig, i lefelau môr cynyddol a stormydd glaw trwm sydyn gan arwain at berygl cynyddol o lifogydd. Mae angen defnyddio adnoddau naturiol yn fwy effeithlon a gwneud y mwyaf o gynhyrchiant ynni adnewyddadwy drwy osod capasiti creu trydan.
- *Diogelu Treftadaeth Diwylliannol Conwy:* Mae angen i ddatblygiadau ystyried yr amgylchedd adeiledig hanesyddol, a sicrhau y bydd dyluniad ac ansawdd adeiladu yn helpu i ddiogelu, cynnal a, lle bynnag bosibl, gwella ar yr ansawdd hwn yng Nghonwy.
- *Diogelu a Gwella Amgylchedd Naturiol Conwy:* Mae pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) yn sgil datblygiadau. Lle bo'n briodol dylai holl ddatblygiadau newydd helpu i wella'r adnoddau bioamrywiaeth o fewn Ardal y Cynllun a diogelu'r dynodiadau amgylcheddol naturiol a rennir gydag awdurdodau cyfagos.
- *Diogelu a Gwella Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol:* Mae ardaloedd trefol a gwledig presennol yn Ardal y Cynllun yn profi diffyg mannau agored ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys rhandai a hamdden. Mae angen diogelu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol er mwyn sicrhau diogelwch a hyrwyddo cymunedau cynaliadwy.

Mae **Polisi DP/1 (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy)** yn datgan fod rhaid i ddatblygiadau:

- Gyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol.
- Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o dir, adeiladau ac isadeiledd.
- Cynnal neu wella ansawdd yr adeiladau, safleoedd a llefydd o bwysigrwydd archeolegol neu bensaernïol hanesyddol.
- Cynnal neu wella ansawdd bioamrywiaeth a chynefinoedd bywyd gwyllt a diogelu rhywogaethau a warchodir.
- Ystyried a mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd a llygredd drwy swm, goleuadau, dirgryniad, aroglau, allyriadau neu lwch.
- Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau drwy ddefnyddio technegau adeiladu cynaliadwy, ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr ac ynni, a lle bynnag bosibl, y defnydd o ynni adnewyddadwy.

Mae hefyd yn datgan y dylai datblygiadau:

- Ddarparu mynediad diogel a chyfleus drwy gludiant cyhoeddus, beic ac ar droes gan leihau'r angen i deithi gyda char.
- Cynnwys mesurau i reoli traffig a lleihau tagfeydd a all ddigwydd.
- Cael eu dylunio i safon uchel, yn ddeniadol, addasadwy, hygyrch a diogel.
- Cynnal neu wella ansawdd y mannau agored, cymeriad ac ansawdd tirluniau lleol a chefn gwlad ehangach.
- Ystyried a mynd i'r afael ag effeithiau posibl newid hinsawdd.

- *Diogelu ansawdd yr adnoddau naturiol gan gynnwys dŵr, aer a phriddoedd.*
- *Lleihau gwastraff a rheoli ailgylchu gwastraff.*

Mae **Polisi DP/3 (Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd)** yn dweud bod angen i ddatblygiadau newydd fod o 'safon uchel, yn ddyluniad cynaliadwy sy'n darparu mannau defnyddiol, diogel, parhaol ac addasadwy, ac yn amddiffyn cymeriad a hynodwydd lleol yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol Ardal y Cynllun'. Mae'n dweud fod rhaid i ddatblygiad:

- *Fod yn briodol i'r ardal leol a'i gwella o ran ffurf, maint, crynswth, manylion y waliau a'r defnydd o ddeunyddiau.*
- *Bodloni safonau cytunedig y Cyngor o ddarpariaeth man agored a pharcio.*
- *Bodloni'r safonau gofynnol o hygyrchedd, gan roi ystyriaeth addas i anghenion pobl o bob oed a gallu wrth lunio'r cynnig.*
- *Ystyried effaith ar eiddo gerllaw ac ardaloedd a chynefinoedd sy'n cefnogi rhywogaethau gwarchodedig.*
- *Ystyried cyfeiriadedd priodol, effeithlonrwydd ynni a'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn dyluniad, cynllun, deunyddiau a thechnoleg.*
- *Darparu systemau draenio trefol cynaliadwy er mwyn cyfyngu ar wastraff dŵr a llygredd dŵr a lleihau perygl o lifogydd.*

1.0 Adolygiad

Mae'r polisi hefyd yn datgan y dylai datblygiadau:

- Wella cymeriad lleol adeiladau, treftadaeth a mannau agored.
- Darparu cyfuniad o ddefnydd, yn arbennig yng nghanol trefi a phentrefi.
- Cynnwys tirlunio o fewn ac o amgylch y datblygiad sy'n briodol i raddfa ac effaith y datblygiad.
- Integreiddio gyda llwybrau presennol er mwyn darparu mannau cysylltiedig er mwyn cysylltu â'r ardal ehangach, yn arbennig cyfleusterau cyhoeddus a llwybrau cludiant gwyrdd.
- Darparu datblygiadau sy'n cynnig dewisiadau cludiant amgen a hyrwyddo cerdded, beicio a'r defnydd o gludiant cyhoeddus.
- Creu mannau diogel drwy fabwysiadu egwyddorion 'dylunio trosedd allan' er mwyn darparu gwyliadwriaeth naturiol, gwelededd ac amgylcheddau wedi'u goleuo'n dda ac ardaloedd symudiad cyhoeddus.
- Diogelu cynnal a gwella nodweddion bioamrywiaeth.
- Cynnwys ardaloedd a chyfleusterau ar gyfer rheoli gwastraff, casglu/storio dŵr glaw, aildddefnyddio dŵr llwyd ac ailgylchu.
- Rhoi ystyriaeth i ganllawiau Mabwysiadu Ffyrdd yr Awdurdod mewn perthynas â dylunio ffordd.

Mae **Polisi DP/4 (Meini Prawf Datblygu)** yn nodi y dylai cynigion ddarparu:

- Mynediad diogel o'r rhwydwaith priffyrdd, a gwella'r isadeiledd cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded.
- Parcio.

- Lle diogel i barcio beiciau.
- Man Agored.
- Mynediad diogel a chyfleus i holl adeiladau a mannau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai â symudedd cyfyngedig neu rai ag amhariadau eraill megis golwg neu glyw.
- Dyluniad a gosodiad sy'n lleihau'r cyfleoedd i drosedd.

Mae hefyd yn datgan na fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi os oes effaith negyddol ar:

- Amwynder preswyl.
- Cynhyrchu traffig.
- Buddiannau archeolegol a'r ffurf adeileddig.
- Yr iaith Gymraeg.
- Amodau amgylcheddol yn deillio o swm, golau, dirgryniad, arogl, allyriadau gwenwynig neu lwch.
- Buddiannau ecolegol a bywyd gwyllt a chymeriad y dirwedd.
- Llifogydd a'r perygl o lifogydd.
- Tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-dddefnydd.
- Ansawdd dŵr daear neu ddŵr wyneb.
- Cyfleusterau cymunedol hanfodol.

Mae polisi **DP/6 (Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol)** yn dweud bod rhaid i gynigion datblygu 'gydymffurfio â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.'

Mae **Polisi DP/8 (Prif Gynllun Adfywio Trefol Bae Colwyn)** yn datgan rhai rhesymau dros gefnogi cynigion. Mae hyn yn cynnwys cynigion sy'n:

- Creu amodau ar gyfer buddsoddiad a thwf economaidd a gwell gweithgarwch cymdeithasol.
- Cynyddu cysylltedd â glan y môr, cysylltiadau o'r dwyrain-gogledd rhwng canol trefi, Dwyrain Colwyn a Pharc Eiriad ac ar hyd Ffordd Abergele.
- Cyfrannu tuag at adeiladau a strwythurau gyda phwysigrwydd treftadaeth lleol neu genedlaethol drwy gynigion gwella a chadw sympathetig.
- Creu canolbwynt newydd ar gyfer canol y dref.
- Gwella symudiad cerbydau a mynediad cludiant cyhoeddus i ac o fewn y dref, gan gynnwys canolfan gludiant integredig newydd yn Sgwâr yr Orsaf ac ail-alinio priffyrdd a pharth cyhoeddus newydd.

Mae **Polisi TOU/1 (Twristiaeth Cynaliadwy)** yn datgan fod y cyngor yn ceisio gwella cysylltedd 'drwy gefnogi darpariaeth o gysylltiadau gwell yn Harbwr y Foryd, gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru a drwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'.

Mae **Polisi CFS/3 (Prif Ardaloedd Siopa)** yn datgan fod 'Prif Ardaloedd Siopa wedi'u dynodi yn Llandudno a Bae Colwyn'.

Mae **Polisi CFS/4 (Parthau Siopa)** yn nodi fod 'Parthau Siopa wedi'u dynodi yn Llandudno, Bae Colwyn, Abergele, Conwy, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst a Phenmaenmawr'.

Mae **Polisi NTE/1 (Yr Amgylchedd Naturiol)** yn datgan y bydd y Cyngor yn ceisio 'cadw a, lle bynnag bosibl, gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir Ardal y Cynllun' drwy:

- Ddiogelu bioamrywiaeth, daeareg, cynefinoedd, hanes a thirlun Ardal y Cynllun trwy warchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, gwella ansawdd tirluniau statudol ac anstatudol ac ardaloedd o werth bioamrywiaeth a effeithir trwy ddatblygiad, drwy gytundebau rheoli, cysylltu cynefinoedd, gwella plannu a manylebau cynnal a chadw tirluniau.
- Gweithio gyda datblygwyr i ddiogelu rhywogaethau a warchodir a gwella eu cynefinoedd.
- Parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig unigol.
- Diogelu Parthau Arfordirol.
- Atal, lleihau neu gywiro holl ffurfiau o lygredd gan gynnwys aer, golau, swm, pridd a dŵr.

1.0 Adolygiad

Mae **Polisi NTE/3 (Bioamrywiaeth)** yn datgan y dylai datblygiad newydd gadw a gwella bioamrywiaeth lle bynnag bosibl, drwy:

- Gynllun a dyluniad sensitif sy'n osgoi effeithiau neu liniaru drwy raglen gytunedig ar gyfer unrhyw effaith andwyol ar fioamrywiaeth.
- Creu, gwella a rheol cynefinoedd bywyd gwyllt a thirluniau naturiol gan gynnwys cysylltedd.
- Integreiddio mesurau bioamrywiaeth i'r amgylchedd adeiledig.
- Cyfrannu tuag at gyflawni targedau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy.

Mae **Polisi NTE/6 (Effeithlonrwydd Ynni a Thechnolegau Adnewyddadwy mewn Datblygiadau Newydd)** yn datgan y dylai datblygiadau newydd 'gynnwys egwyddorion dylunio cynaliadwy megis: cynllun priodol, crynswth, cyfeiriadedd, defnydd o ddeunyddiau, casglu dŵr glaw, effeithlonrwydd ynni, draenio cynaliadwy ac ardaloedd/storio ailgylchu gwastraff.'

Mae **Polisi NTE/10 (Cadwraeth Dŵr)** yn datgan y dylai 'datblygiad gynnwys mesurau cadwraeth dŵr lle bo'n ymarferol a chydymffurfio â safonau BREEAM gan hyrwyddo cadwraeth dŵr, Mesurau effeithlonrwydd a'r defnydd o dechnegau Systemau Draenio Cynaliadwy'.

Mae **Polisi CTH/1 (Treftadaeth Ddiwylliannol)** yn datgan fod y cyngor 'wedi ymrwymo i ddiogelu, a lle bo'n briodol, gwella ei asedau diwylliannol a threftadaeth.' Gwneir hyn drwy:

- Gydhabod a pharchu gwerth a chymeriad ein hasedau treftadaeth yn Ardal y Cynllun a chyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol i lywio cynigion datblygu.
- Ceisio cadw a, lle bo'n briodol, gwella ardaloedd cadwraeth, Safle Treftadaeth y Byd Conwy, tirluniau hanesyddol, parciau a gerddi, adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol.
- Diogelu adeiladau a strwythurau o bwysigrwydd lleol.
- Gwella asedau treftadaeth drwy fentrau treftadaeth ac adfywio.
- Sicrhau fod datblygiad yn cyd-fynd â hyfywedd hirdymor y Gymraeg.

Mae **Polisi CTH/3 (Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol)** yn datgan y bydd 'cynigion sy'n effeithio ar adeiladau a strwythurau sy'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a diddordeb yr ardal leol ond yn cael eu cymeradwyo lle na fyddai ymddangosiad nodedig, uniondeb pensaernïol na lleoliad yr adeilad yn cael ei effeithio'n sylweddol.'

Mae **Polisi Strategol STR/1 (Cludiant Cynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd) yn datgan:**

- Dylai mynediad cyfleus trwy lwybrau cerdded, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus fod yn bresennol neu gael eu darparu lle bo'n briodol.
- Bydd y cyngor yn hyrwyddo cerdded a beicio ar draws Ardal y Cynllun fel rhan o ddull cynaliadwy o gludiant.
- Bydd dylunio ac adeiladu cyfleusterau ac isadeiledd cerdded a beicio yn cael ei wella er mwyn gwneud cerdded a beicio yn fwy deniadol, uniongyrchol a diogel.
- Bydd ansawdd a chyfleustra croesfannau i gerddwyd yn cael eu hyrwyddo er mwyn lletya symudiad diogel ac uniongyrchol ar draws fyfyrdd prysur.
- Bydd cynlluniau cludiant a arweinir at welliannau hygyrchedd yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

Mae **Polisi STR/2 (Safonau Parcio)** yn datgan:

- Dylai darpariaeth parcio ceir fod yn unol â uchafswm safonau'r Cyngor, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gar ac i hyrwyddo dulliau mewn cynaliadwy o gludiant.
- Mewn lleoliadau gyda hygyrchedd dda i gyfleusterau a gwasanaethau, sy'n cael eu gwasanaethau gan gludiant cyhoeddus o safon uchel, bydd y Cyngor yn ceisio lleihau'r swm o leoliadau parcio ceir ar gael, yn unol â Safonau Parcio Conwy.
- Dylid darparu storfa beiciau diogel yn unol â safonau'r Cyngor.

Mae **Polisi STR/5 (System Cludiant Cynaliadwy Integredig)** yn cynnwys y cynlluniau canlynol o fewn yr ardaloedd astudiaeth a gaiff eu diogelu a'u hannog:

- Gorsaf Reilffordd Llandudno - darparu cyfleuster cyfnewidfa cludiant cynaliadwy o ansawdd uchel.
- Harbwr y Foryd - Hyrwyddo Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 Sustrans a phont gysylltu newydd i feicwyr/cerddwyr yn Harbwr y Foryd ym Mae Cinnel.
- Rhaglen Wella Llwybr Arfordir Cymru a Chynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy - i wella hygyrchedd i'r arfordir a chefn gwlad ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr.
- Bae Colwyn - mynediad gwell rhwng y dref a glan y môr fel rhan o Uwchgynllun Bae Colwyn a'r prosiect amddiffynfeydd arfordirol.

Gellir dod o hyd i fapiau polisïau unigol ar gyfer pob dref yn y penodau perthnasol.

1.0 Adolygiad

Canllawiau Cynllunio Atodol CDLI

CDLI14: Ardaloedd Cadwraeth (Mabwysiadwyd Gorffennaf 2015)

Mae'r ddogfen hon yn datgan fod 'y *strydlun ymhob Ardal Cadwraeth yn chwarae rôl bwysig i nodi ei gymeriad*'. Dylid rhoi sylw trylwyr i'r meysydd canlynol yn benodol:

- *deunyddiau arwynebu a gorffeniadau*
- *celfi stryd*
- *nodweddion pensaernïol*
- *ffiniau*

Dylai'r parth cyhoeddus fod o ansawdd uchel a'i ysbrydoli gan 'y *cynseiliau a nodir o fewn ffabrig y strydlun presennol*'.

Pafin

Mae'r ddogfen yn awgrymu fod deunyddiau pafin hanesyddol yn ychwanegu ansawdd unigryw i'r parth cyhoeddus. Dylai deunyddiau traddodiadol yn yr ardal gynnwys slabiau cerrig a chobls. Ym Mhenmaenmawr, gellir dod o hyd i deils patrwm geometrig mewn rhai llefydd hefyd. Dylid cadw, atgyweirio neu ail-greu deunydd pafin hanesyddol. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn datgan y byddai '*palet cyfoes ond cyfyngedig o ddeunyddiau yn briodol mewn ardaloedd newydd nad oes ganddynt gynseiliau hanesyddol*'.

Arwyddion

Mae arwyddion o fewn yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys:

- *Arwydd Enw'r Stryd*
- *Dangos y ffordd i gerddwyr*
- *Arwyddion Rheoli Traffig*

Mae blerwch ar y stryd mewn nifer o fannau ac mae arwyddion enw'r stryd, dangos y ffordd i gerddwyr ac arwyddion rheoli traffig oll yn cyfrannu tuag at hyn.

Mae arwyddion enw'r stryd yn unigryw i ardaloedd lleol. Er enghraifft, yn Llandudno, '*mae traddodiad i arwyddion stryd enamel ar waliau adeiladau, gan adael y pafin yn glir o unrhyw arwyddion*'.

Nid oes dull unedig presennol ar gyfer arwyddion dangos y ffordd i gerddwyr o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth ac mae'r rhain yn cyfrannu tuag at flerwch ar y stryd ac yn achosi ansicrwydd i gerddwyr. Dylai dulliau newydd leihau blerwch ar y stryd. Dylai arwyddion hanesyddol gan gynnwys arwyddion pwyntio bys hanesyddol, gael eu cadw a'u hail-greu. Ffêfir arwyddion pwyntio bys treftadaeth i'r arwyddion twristiaid brown.

Dylai arwyddion enwau stryd a dangos y ffordd i gerddwyr ddefnyddio'r Gymraeg lle mae'n addas.

Dylid ystyried lleoliad arwyddion traffig er mwyn lleihau blerwch ar y stryd. Mae'r ddogfen hefyd yn awgrymu mewn nifer o achosion '*gellir osgoi'r angen am arwyddion rheoli traffig drwy ddefnyddio deunyddiau arwynebu gwahanol a newidiadau o fewn y strydlun ei hun*'.

Celfi Stryd

Mae'r ddogfen yn datgan fod '*diffyg cysondeb yn nyluniad*' eitemau megis seddi, bolardiau, biniau sbwriel, potiau planhigion a chelf cyhoeddus. Dylai'r rhain fod yn briodol i'w lleoliad a dyluniad.

Golau

Dylid cadw neu ail-greu goleuadau traddodiadol lle roeddent yn flaenorol. Awgrymir goleuadau anymwithiol ar strydoedd cerdded er mwyn annog y defnydd o ardaloedd yn y nos a gwella symudiad yn ystod y nos drwy'r ardaloedd.

Ffiniau

Dylai gerddi blaen preifat, waliau ffiniol a thirlunio gael eu cadw lle bynnag bosibl.

Priffyrdd/Cludiant

Mae'r ddogfen yn nodi '*ni ddylai ansawdd strydoedd a gofodau gael ei aberthu i fodloni anghenion traffig neu barcio*' a gall gynlluniau stryd hanesyddol ac arwynebau traddodiadol fod yn ddatrysiadau rheoli a thawelu traffig defnyddiol.

Tirwedd a Mannau Agored

'*Dylai coed presennol gael eu cadw*' ac anogir y coed o fewn Ardaloedd Cadwraeth, yn arbennig y rhai a blannwyd i'r tir lle bynnag bosibl. Fodd bynnag, rhaid ystyried arddangosfeydd planhigion a blodau yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i'r lleoliad hanesyddol. Croesawir mannau gwyrdd newydd a gwell o fewn yr ardaloedd.

Cynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth

Mae gan y trefi canlynol Gynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth a gellir dod o hyd i wybodaeth ar y rhain yn y penodau perthnasol:

- *Bae Colwyn*
- *Llandudno*
- *Conwy*

1.0 Adolygiad

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Mae CBSC bellach yn cyflawni adolygiad llawn o'r Cynllun Lleol. Ar adeg yr adroddiad hwn roedd CBSC ar Gam 5 - Strategaeth a Ffeirir o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Mae'r adran ganlynol yn amlinellu rhannau perthnasol o'r dystiolaeth yn y papurau cefndir a'r papurau testun oedd yn llywio'r CDLIN.

BP47 Asesiad Isadeiledd Gwyrdd (2020)

Gweledigaeth
'Erbyn 2033, bydd Conwy yn lle hyd yn oed mwy gwyrdd a ffyniannus i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo. Bydd isadeiledd gwyrdd yn creu buddion o ran iechyd a lles, yn cefnogi twf cynaliadwy yn yr economi, yn tanategu ymateb y sir i newid hinsawdd ac yn darparu rhwydweithiau ecolegol cysylltiedig a chydnerth.'

Mae Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn darparu sail dystiolaeth allweddol i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033. Mae'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd wedi'i osod yng nghyd-destun deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol, yn benodol â'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019. Yna mae'n gosod y gwaelodlin ar gyfer isadeiledd gwyrdd yn y sir, gan nodi pob mathau o Isadeiledd Gwyrdd.

Mae'r adolygiad polisi ac ymgynghoriad budd-ddeiliaid yn sefydlu pum nod allweddol:

- 1. Rhwydwaith Bioamrywiaeth a Bywyd Gwyllt Cydnerth
- 2. Amgylchedd Glas sy'n Ffynnu

- 3. Twf Cynaliadwy a Datblygiad Economaidd
- 4. Lles a Ffordd o Fyw Iach
- 5. Gwella Cysylltedd

Mae'r Asesiad Isadeiledd gwyrdd yn sefydlu aml-swyddogaeth yr adnodd Isadeiledd Gwyrdd ar draws yr ardal astudiaeth, a gyflawnwyd drwy ddadansoddi systemau gwybodaeth daearyddol. Ystyriwyd 20 o swyddogaethau ac roedd y rhain yn cynnwys: hamdden cyhoeddus, llwybrau teithio gwyrdd, oeri anweddol, cynefin ar gyfer bywyd gwyllt, storio carbon ac ailgyfeirio dŵr. Mae'r map 'gwres' yn amlygu'r ardaloedd gyda'r swyddogaethau mwyaf. Mae ardaloedd coediog yn sgorio'n uchel ar yr asesiad swyddogaeth oherwydd gall goed gyfrannu i fwyafriif y swyddogaethau.

Ar ôl sefydlu'r sefyllfa gwaelodlin, mae'r astudiaeth yn canfod os yw'r angen am Isadeiledd Gwyrdd yn cael ei fodloni ai peidio ar hyn o bryd o dan y pum nod a sefydlwyd yn ystod yr adolygiad polisi ac ymgynghoriaeth. Mae cyfres o gynlluniau systemau gwybodaeth daearyddol ar draws yr awdurdod cynllunio yn nodi:

- *Ardaloedd Isadeiledd Gwyrdd i'w diogelu (ardaloedd o angen gydag Isadeiledd Gwyrdd yn bresennol ac yn weithredol)*
- *Ardaloedd Isadeiledd Gwyrdd i'w gwella (ardaloedd o angen gydag Isadeiledd Gwyrdd yn bresennol ond nid yn bodloni'r angen yn llawn)*
- *Ardaloedd gyda photensial i greu Isadeiledd Gwyrdd (ardaloedd o angen gydag ychydig iawn neu ddim adnoddau Isadeiledd Gwyrdd)*

Mae'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn darparu argymhellion polisi cynllunio i gynorthwyo gyda'r CDLIN. Mae hyn yn cynnwys polisi Isadeiledd Gwyrdd strategol a pholisïau ar gyfer meysydd blaenoriaeth, y safleoedd strategol a datblygiad yng Nghonwy.

Teithio Llesol

Teithio llesol yw'r term i ddisgrifio cerdded a beicio ar gyfer siwrneiau pwrpasol i gyrchfan, neu mewn cyfuniad â chludiant cyhoeddus. Er bod cerdded a beicio ynddynt eu hunain yn weithgareddau iach, y dylid eu hannog, pan fônt yn disodli siwrneiau car maent yn rhoi buddion pwysig o ran iechyd a lles Cymru. Mae cyflawni newid moddol drwy ddisodli siwrneiau car preifat gyda cherdded a beicio a chludiant cyhoeddus wrth galon Llwybr newydd, Strategaeth Cludiant Cymru.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Cafodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ei basio gyda'r diben o alluogi pobl i gyflawni teithio llesol ar gyfer siwrneiau byr. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo siwrneiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig. Dylai awdurdodau lleol weithio tuag at ddatblygu llwybrau sy'n gydlynol, uniongyrchol, diogel, deniadol a chyfforddus.

Dylai Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol gael eu cynhyrchu yn dangos y llwybrau teithio llesol presennol ac yn y dyfodol. Mae CBS Conwy wedi cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol arfaethedig ac wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar llwybrau presennol ac yn y dyfodol yn yr 8 tref astudiaeth. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y llwybrau hyn yn yr adrannau perthnasol.

Canllawiau Deddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021)

Rhaid i'r canllawiau dylunio diwygiedig hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gael eu hystyried wrth gynllunio, dylunio a chynnal llwybrau

teithio llesol yng Nghymru. Mae'n cynnwys canllawiau, enghreifftiau o arfer orau a chynghor technegol ar y Ddeddf Teithio Llesol a dyluniad llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig.

Llwybrau Cerdded Pellter Hir

Mae nifer o llwybrau cerdded pellter hir sy'n pasio drwy Sir Conwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Llwybr Gogledd Cymru:**Llwybr 60 milltir/97 cilomedr o Brestatyn i Fangor
- **Llwybr Arfordir Cymru:**Llwybr 879 milltir/1400 cilomedr o amgylch arfordir Cymru o Queensferry i Gas-gwent ac yn gorgyffwrdd â Llwybr Gogledd Cymru mewn sawl lle.
- **Taith Cambria:**Llwybr 293 milltir/455 cilomedr o arfordir i arfordir o Gaerdydd i Gonwy.

Llwybrau Beicio Pellter Hir

Mae Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Sutrans yn lwybr pellter hir o Reading i Ogledd Cymru sy'n pasio drwy fwyafriif ardaloedd yr astudiaeth tref.

Mae Llwybr 5 o Brestatyn yn bennaf yn lwybr heb unrhyw draffig ar lan y môr i Abergele. Mae gan y rhan o Abergele i Lanfairfechan nifer o rannau heb draffig. Mae'r llwybr arfordirol heb draffig yn pasio drwy Fae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos ac yn parhau i Gonwy drwy ran ar y ffordd cyn dychwelyd i'r llwybr lan y môr hwb draffig. Mae darn hirach, yn bennaf heb draffig yn parhau i Gonwy trwy Landudno.

1.0 Adolygiad

Gorchudd Coed Trefol ym Mwrdeistref Sirol Conwy (2016)

Mae'r astudiaeth hon yn ffurfio rhan o 'Orchudd Coed yng Nghymru' ehangach gan CNC, sy'n asesu gorchudd canopi coed trefol ar draws y wald gan ddefnyddio data o 2013. Nod y gwaith yw rhoi gwaelodlin o wybodaeth sydd ei angen ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn cynllunio a rheoli adnoddau coed trefol yn strategol. Mae'n canolbwyntio ar orchudd canopi coed yn hytrach na chyfri nifer y coed unigol gan mai drwy ymlediad eu brigdyfiant yn bennaf mae coed yn darparu manteision.

Amcangyfrifwyd cymedr gorchudd canopi ar gyfer ardaloedd trefol ym Mwrdeistref Sirol Conwy fel 13.8% ar gyfer 2013 fel canran o'r ôl-troed trefol, i lawr o 14.6% yn 2009.

Mae'r astudiaeth yn cymharu gorchudd canopi ar gyfer yr 11 ardal trefol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, gyda'r gorchudd canopi uchaf yn: Llanfairfechan (23.7%), Penmaenmawr (22.6%) a Chonwy (22.2%). Canfu'r gorchudd canopi isaf yn: Nhowyn/Bae Cinmel (6.4%), Llandudno (7.7%) a Thywyn/Deganwy/Cyffordd Llandudno (11.3%).

Mae'r astudiaeth yn ystyried fod mabwysiadu targedau gorchudd canopi yn helpu i hybu rheolaeth coed trefol a darparu meincnod defnyddiol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

Mae'r astudiaeth yn amlygu'r lefelau isel o orchudd coed yn Nhowyn/Bae Cinmel a Llandudno a'r potensial ar gyfer dull cynlluniedig i wella darpariaeth canopi ar gyfer lles economaidd-gymdeithasol cymunedau lleol yn y dyfodol, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion ansawdd aer a llifogydd.

Mae'r dadansoddiad ar lefel ward yn ein helpu i ddeall yn well pa ardaloedd o bosibl y mae angen eu targedu ar gyfer gwaith plannu coed.

2 Bae Cinmel



2.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Mae Bae Cinnel yn dref arfordirol fechan yng ngogledd ddwyrain Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae ystod eang o eiddo preswyl mewn ardal sy'n gweithredu'n bennaf fel ardal twristiaeth glan y môr ac ardal ymddeol boblogaidd.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn disgrifio'r absenoldeb cyffredinol o Isadeiledd Gwyrdd mewn rhannau o Fae Cinnel, ac yn benodol y diffyg gorchudd coed. Mae CBSC yn cynnig gwelliannau parth cyhoeddus wedi'u ffocysu, gan gynnwys ychwanegu mwy o wrddni i'r strydlun a gwella blaenoriaeth i gerddwyr a theithio llesol.

Mae'r ardal astudiaeth yn canolbwyntio ar y brif gyffordd A548 Ffordd y Foryd a St Asaph Avenue a'r parth siopa, yn ymestyn o Lôn Trwyn Horton yn y dwyrain i Rodfa Cilcoed yn y gorllewin, i'r maes parcio yng Ngwarchodfa Natur Twyni Bae Cinnel yn y gogledd. Mae'r ardal yn cynnwys parc oddi ar Charlesville Road.

Mae'r strydoedd a mannau o fewn yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. A548 Ffordd y Foryd
2. St Asaph Avenue
3. Parc Charlesville Road



2.1 Ardal Astudiaeth



Ffordd y Foryd



Cyffordd Ffordd y Foryd, St Asaph Avenue



Llun erial o ran gorllewinol yr A548 Ffordd y Foryd (delwedd gan Gyngor Tref Towyn a Bae Cinnel)



St Asaph Avenue
(gogledd)



St Asaph Avenue (de)




Maes Parcïo'r Promenâd



Parc Charlesville Road

2.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Man Agored

Mae mwyafrif y mannau agored ym Mae Cinnel yn cynnwys glaswellt amwynder yn gysylltiedig ag isadeiledd ffordd, ag eithrio'r parc bach ar hyd Charlesville Road.

Mae mannau agored i'r ardaloedd preswyl i'r de o'r ardal astudiaeth yn brin, gyda man agored digwyddol bach, eto yn gysylltiedig yn gyffredinol gydag isadeiledd ffordd. I'r gogledd mae'r asedau yn cynnwys Gwarchodfa Natur Twyni Cinnel a thraeth Bae Cinnel.



Gorchudd Canopi Coed

Yn gyffredinol mae gorchudd canopi coed isel ym Mae Cinnel. O fewn yr ardal astudiaeth mae coed ar leiniau ffyrdd ac ar tynedfa Parc Charlesville Road, fodd bynnag mae diffyg nodedig o blannu coed o fewn y parc ei hun oni bai am y lawnt fowlio. Mae plannu coed ar raddfa fach wedi digwydd ar hyd lleiniau ar Ffordd y Foryd, fodd bynnag mae'r rhain yn stoc bychain yn gyffredinol ac mae rhai wedi'u difrodi neu wedi marw.


2.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun gwn yn dangos aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd, ac yn ystyried agweddau megis hamdden, cynefinoedd bywyd gwyllt a chysgod.


Yn gyffredinol mae gan yr ardal astudiaeth aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd isel, gyda phocedi o Isadeiledd Gwyrdd mwy gweithredol lle mae gorchudd coed stryd.



Dynodiadau

Nid oes dynodiadau yn ardal astudiaeth Bae Cinnel. Ychydig y tu allan i'r ardal astudiaeth i'r gogledd mae Gwarchodfa Natur Leol Twyni Cinnel.

2.2 Dadansoddiad Safle




Cludiant a Mynediad

Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn pasio i'r gogledd ar hyd yr arfordir.

Mae llwybrau Teithio Llesol presennol yn cynnwys St Asaph Avenue (beicio i'r gogledd a cherdded i'r de) a rhan gorllewinol o Ffordd y Foryd (cerdded). Mae Ffordd y Foryd wedi'i gynnig fel Llwybr Teithio Llesol yn y dyfodol ar gyfer cerdded a beicio.


Mae maes parcio cyhoeddus i ben gogleddol yr ardal astudiaeth yn gysylltiedig â Gwarchodfa Natur Leol Twyni Cinnel a'r traeth, maes parcio mawr ar gyfer yr archfarchnad ac ardaloedd parcio llai yn gysylltiedig â'r parth siopa ar gyffordd Ffordd y Foryd/St Asaph Avenue.



Hierarchaeth Stryd

Mae A548 Ffordd y Foryd yn brif ffordd arfordir drwy Fae Cinnel sy'n cysylltu â Phensarn a'r Rhyl, ac yn parhau i'r dwyrain i Lannau Dyfrdwy. Mae'n ffordd drwodd brysur sy'n cysylltu strydoedd lleol gyda'r gyffordd ganolog â St Asaph Avenue sy'n ffurfio'r ganolfan siopa.

2.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae Bae Cinnel yn cynnwys ardaloedd preswyl yn bennaf yn cynnwys byngalos gyda rhai aneddiadau deulawr.

Mae parth siopa'r dref wedi'i leoli o amgylch cyffordd eang Ffordd y Foryd a St Asaph Avenue gydag amwynderau lleol, siopau cyfleustra a busnesau. Mae'r ganolfan adnoddau cymunedol, neuadd y dref, llyfrgell a'r canolfan feddygol hefyd wedi'u lleoli yma.

Mae gan y dref ffurf trefol gwael yn sgil nifer fawr o fyngalos a phrif isadeiledd priffordd A548 Ffordd y Foryd.

Cyrchfannau Allweddol

Mae lleoliad Bae Cinnel yn agos at y Rhyl a Thowyn yn ei wneud yn gyrchfan i dwristiaid, gyda nifer o barciau carafanau gerllaw a mynediad at y traeth a Gwarchodfa Natur Leol Twyni Cinnel.

Mae'r parth siopa lleol a chyfleusterau cymunedol yng nghyffordd Ffordd y Foryd a St Asaph Avenue yn gyrchfannau allweddol, ynghyd â'r archfarchnad ar St Asaph Avenue.

2.3 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Sandy Cove (Traeth Bae Cinnel)
- Gwarchodfa Natur Leol Twyni Cinnel
- Llwybr yr Arfordir a Llwybr 5 Beicio Cenedlaethol ar hyd y promenâd
- Llwybr troed a llwybr beicio a rennir ar Ffordd y Foryd a St Asaph Avenue
- Lleiniau tirlunio mawr yn Ffordd y Foryd
- Amwynderau lleol wedi'u lleol yn agos at ei gilydd
- Cysylltiad clir i lan y môr

Cyfleoedd

- Diffinio porth canol y dref
- Creu craidd cryf drwy barth cyhoeddus ac isadeiledd gwyrdd gwell
- Gwella amgylchedd i gerddwyr a beicwyr drwy alibwrpasu'r briffordd
- Gwella lleiniau ochr ffordd drwy goes, gwrychoedd, gardd law a phlannu dolydd er mwyn amrywio'r glaswellt amwynder.
- Plannu coed a gwelliannau i Systemau Draenio Cynaliadwy i fannau gwyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar fannau nodol allweddol (cyffordd St Asaph Avenue, Ffordd y Foryd)
- Creu Cysylltiadau Gwyrdd i Sandy Cove drwy ychwanegu coed a chynwysyddion blodau ar hyd St Asaph Avenue (gogledd).
- Gwella amgylchedd i gerddwyr/beicwyr ar St Asaph Avenue (gogledd) gan gynnwys rhyngwyneb gydag archfarchnad Asda. Ystyried tynnu cynwysyddion blodau uchel a'u hamnewid gydag Isadeiledd Gwyrdd hygyrch
- Ystyried gwelliannau beicio trwy lwybr beicio dynodedig ar hyd Ffordd y Foryd a St Asaph Avenue (gogledd)
- Ail-gydbwysu'r parth cyhoeddus er mwyn blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr
- Gwella bioamrywiaeth drwy hadu dolydd, plannu coed a gwrychoedd ym Mharc Charlesville Road a gwella'r ardal chwarae


Gwendidau

- Amgylchedd wedi'i ddominyddu gan gerbydau gyda chyffordd a phriffordd llydan
- Mae'r A548 Ffordd y Foryd yn rhannu'r dref ac yn ffurfio rhwystr i symud
- Craidd canol tref gwan
- Parth cyhoeddus o ansawdd gwael i amwynderau lleol gyda mannau cyfarfod/cyhoeddus cyfyngedig
- Prin o groesfannau i gerddwyr
- Gorchudd canopi coed isaf yn y Fwrdeistref Sirol
- Prin o fannau agored y gellir eu defnyddio
- Aml-swyddogaeth isel yr Isadeiledd Gwyrdd presennol
- Bioamrywiaeth gwael i ffordd o Warchodfa Natur Lleol Twyni Cinnel
- Amgylchedd o ansawdd gwael yn cysylltu i Sandy Cove
- Mae anheddau unllawr yn bennaf yn darparu diffyg amgaaeu neu graddfa

Bygythiadau

- Ymyraethau ar y briffordd mabwysiedig
- Mae'r A548 yn ffordd drwedd prysur ar gyfer pobl leol a thwristiaid
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau
- Gofod cyfyngedig ar gyfer ymyraethau ar St Asaph Avenue (de)
- Cystadleuaeth gyda pharcio ceir yn ne a gogledd St Asaph Avenue

2.3 Cyfleoedd a Heriau



2.3 Cyfleoedd a Heriau

1. Cysylltiad Ffordd y Foryd

- Culhau'r ffordd a lledu'r llwybrau cerdded, ac ystyried y cwmpas i greu llwybr beicio pwrpasol.
- Plannu rhodfa o goed, gwrych a chreu Systemau Draenio Cynaliadwy ar ffurf gardd law o fewn y lleiniau glaswellt presennol
- Creu llain canol ffordd i gulhau'r briffordd yn weledol, a phlannu coed yno os yw hynny'n ymarferol




Stribed canol a phlannu coed ar Stryd Fawr Northwood Hills, Llundain. Ffynhonnell delwedd: GreenBlue Urban



Plannu gardd law Ffynhonnell delwedd: knollgardens.co.uk



2.3 Cyfleoedd a Heriau



Llun Jaktgatan: AJ Landskap Landzine



Plannu coed a gwrychoedd Ffynhonnell: PlantPartner

2. Cyffordd Ffordd y Foryd / St Asaph Avenue

- Dyma nodwedd allweddol sydd â man gwyrdd nad yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial
- Ar y glaswellt sydd yno'n barod gellir plannu mwy o goed, perthi a chreu gardd law

2.3 Cyfleoedd a Heriau

3. Cysylltiad Sandy Cove (Gogledd St Asaph Avenue)


- Gellir creu cysylltiad gwyrdd â glan y môr, llwybr yr arfordir a'r warchodfa natur leol
- Gellir hefyd plannu coed a llwyni arfordirol yn y cynwysyddion uchel ar bob ochr i'r ffordd, yn dibynnu ar bwy sy'n berchen ar y tir.
- Cyflwyno mesurau tawelu traffig i greu gwell synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr
- Gwella arwyddion
- Ystyried ymyraethau mwy ar gyfer y ffin gydag Asda, gan symud y cynwysyddion blodau uchel a chreu parth cyhoeddus ymarferol a llwybr cerdded a beicio gwyrdd i'r twyni tywod a glan y môr.



Sauchiehall Street © GreenBlue Urban



Greener Grange Town © GreenBlue Urban



2.3 Cyfleoedd a Heriau



Riverside Lünen © Claudia Dreyße Delwedd o Landezine

4. Parc Charlesville Road

- Yma fe ellir plannu mwy o goed a gwrychoedd ar y ffiniau, creu gardd law/Systemau Draenio Cynaliadwy ac amrywio'r glaswellt amwynder gan greu dól blodau gwyllt a phlannu bylbiau
- Gellir hefyd gwella'r cysylltiad cerdded a beicio drwy'r man agored




Dolydd yn Hampton Common

2.4 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn yr astudiaeth gwaelodlin, gwerthusiad safle a chanfod materion a chyfluoedd mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda'r tîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parh cyhoeddus, Teithio Llesol, Isadeiledd Gwyrdd pellach a fydd yn cael yr effaith mwyaf ar Fae Cinnel. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Gorllewin Ffordd y Foryd
- Dwyrain Ffordd y Foryd



2.4 Meysydd Blaenoriaeth



Gorllewin Ffordd y Foryd



Cyffordd Ffordd y Foryd / St Asaph Avenue



Ardal Siopa / Arcêd Gorllewin Ffordd y Foryd



Dwyrain Ffordd y Foryd

Ffordd y Foryd

Mae Ffordd y Foryd yn rhan o ffordd arfordir yr A548 ac yn ffordd drwodd brysur gydag amwynderau lleol a manwerthu wedi'u lleoli ar ei hyd.

Cyflwr Presennol:

- Llwybr troed a beics a rennir ar hyd Ffordd y Foryd.
- Diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr. Mae rhai ynysoedd croesi.
- Ffordd gerbydau llydan (oddeutu 8.99m - 9.91m) a ffordd wedi'i ddominyddu gan gerbydau.
- Traffig dwy ffordd.
- Nifer o fynedfeydd preifat a busnes ar Ffordd y Foryd.
- Nifer o safleoedd bysiau ar bob ochr y ffordd.
- Mae rhai ardaloedd o fannau agored cyhoeddus a lleiniau glaswellt amwynder wedi'u lleoli ar hyd y ffordd ond â gorchudd canopi coed gwael, cynefin ac ychydig iawn o fan agored y gellir ei ddefnyddio.
- Parth cyhoeddus o ansawdd gwael.

Cyfleoedd:

- Culhau'r ffordd gerbydau ac ail-ddosbarthu'r gofod i wella Isadeiledd Gwyrdd a darpariaeth beicio.
- Gwellu'r amgylchedd i gerddwyr a darpariaeth croesi i gerddwyr.
- Gwellu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd ac ardaloedd gyda mannau agored presennol drwy wella bioamrywiaeth a chynefin.
- Gwellu'r parth cyhoeddus.

2.5 Dyluniad Cysyniad

Dyluniad Cysyniad Bae Cinnel

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer meysydd blaenoriaeth ym Mae Cinnel, gan gynnwys A548 Ffordd y Foryd.


Mae'r dyluniad cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio prif stryd a man agored cyhoeddus Bae Cinnel.

Prif nod y dyluniad cysyniad yw gwneud prif goridor Ffordd y Foryd yn fwy gwyrdd a chreu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr drwy blannu nifer o goed a phlanhigion, cyflwyno mesurau tawelu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi.

Mae'r dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu creu heb wybodaeth dopograffig, cyngor cludiant nac arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.



2.5 Dyluniad Cysyniad



Mewnodiad 1 - Gorrlewin Ffordd y Foryd

Gorrlewin Ffordd y Foryd


Mae rhan y de orllewin o A548 Ffordd y Foryd yn ffurfio'r prif ddynesa at y dref o Dowyn ac Abergele. Mae lleiniau glaswellt amwynder presennol yn rhoi cyfle i greu stryd gwyrdd gan blannu coedd lle bynnag bosibl, plannu dŵl blodau gwyllt a phlannu gwrychoedd i ochr breswyl y ffordd. Bydd hyn yn darparu mwy o strwythur i goridau y ffordd, gwella'r amgylchedd i gerddwyr a darparu gofod cadarn ar gyfer anheddau.

Nod y cynigion yw gwireddu'r cyfleoedd a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, trwy roi pwynt nodwedd ar fynedfa'r dref. Cyflawnir hyn drwy gulhau a rhannu'r ffordd gerbydau ar y pwynt lleihau terfyn cyflymder, mae'r cynllun yn cynnig lleihau'r ffordd gerbydau presennol sydd oddeutu 9m i ddwy lôn drafftig 3m o led.

Mae'r cynigion yn darparu ymyraethau pellach ar bwyntiau nodwedd allweddol eraill, megis siopau ac amwynderau lleol, lle bydd gweddill y ffordd gerbydau tua 3m o led yn cael ei ail-bwrpasu ar gyfer plannu coed a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy lle bo'n addas a chyflwyno stribed canolog, sianeli a pwyntiau croesi uchel mewn deunyddiau sy'n cyferbynnu er mwyn creu gwell blaenoriaeth i gerddwyr a chyfleoedd ar gyfer gwell parth cyhoeddus.

Cynhelir llwybrau troed bob ochr i'r ffordd sydd o leiaf 3m o led, sy'n addas ar gyfer eu defnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Ar gyfer beicwyr mwy hyderus ar feiciau ffordd, cynnig blaenoriaeth ar bwyntiau nodwedd gyda Lonydd Beicio DE304 tu allan i'r ardaloedd hyn.

2.5 Dyluniad Cysyniad




Manylion Ffordd y Foryd / Ffordd Cinnel / Rhodfa Moelwyn y Gorllewin
Asaph Avenue



Manylion Cyffwrdd Fforydd y Foryd / St

2.5 Dyluniad Cysyniad



Mewnosodiad 1 - Dwyrain Ffordd y Foryd

Dwyrain Ffordd y Foryd

Mae Dwyrain Ffordd y Foryd yn parhau gyda g ymyraethau tebyg i'r rhan gorllewinol megis pwyntiau nodwedd a lonydd beicio cyngorol DE304 ar y tu allan i'r pwyntiau nodwedd, gan alluogi llefydd pasio ar gyfer cerbydau.


Mae nodau wedi'u lleoli ar fynedfa/allanfa Bae Cinnel yn y Dwyrain ac yn agos at gyffordd Rhodfa Moelwyn y Dwyrain a'r Gogledd.

Mae gwelliannau hefyd wedi cael eu cynnig ar gyffordd Ffordd y Foryd a St Asaph Avenue, gan gynnwys plannu coed newydd a dŵl blodau gwyllt ym mynedfa Parc Charlesville Road. Plannu coed, dolydd blodau gwyllt a gwrych yn y maes parcio yn y Sgwâr ac ardaloedd agored cyhoeddus ger y ganolfan siopa.

2.5 Dyluniad Cysyniad




Manylion Cyffordd Ffordd y Foryd/Rhodfa Moelwyn Horton




Manylion Cyffordd Ffordd y Foryd/Lôn Trwyn

2.5 Dyluniad Cysyniad

Dyluniad Cydsyniad Rhan Ddwyreiniol



Dyluniad Cydsyniad Rhan Orllewinol



3 Towyn



3.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Mae Towyn yn dref arfordirol fechan yng ngogledd ddwyrain Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n gweithredu fel cyrchfan twristiaeth glan y môr ac mae ardaloedd eang yn lletya parciau carafanau.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Mae'r Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn disgrifio absenoldeb cyffredinol Isadeiledd Gwyrdd yn rhannau o Dowyn a dylai Parc Towyn gael ei wneud yn fwy hygyrch. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn cynnig gwelliannau parth cyhoeddus, gan gynnwys ychwanegu gwyrddni i'r gwasanaethau stryd a gwella blaenoriaeth i gerddwyr a theithio llesol.

Mae'r ardal astudiaeth yn canolbwyntio ar Ffordd Towyn, Ffordd y Twyni, yn ymestyn o Rhodfa'r Morfa yn y dwyrain i orllewin Rhodfa Pen Isaf.

Mae'r strydoedd a mannau o fewn yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. A568, Ffordd Towyn
2. Ffordd y Twyni
3. Parc Towyn



3.1 Ardal Astudiaeth



Ffordd Towyn ger Parc Towyn a Sunny's Bar yn edrych i'r GDD



Ffordd Towyn ger Bryn Road, yn edrych i'r De Orllewin tuag at Gyffordd Ffordd y Twyni/Gors Road



Llun erial o gyffordd yr A548 Ffordd Towyn a Ffordd y Twyni (delwedd gan Gyngor Tref Towyn a Bae Cinnel)



Ffordd Towyn ger Tir Prince, yn edrych i'r Gogledd Ddwyrain



Ffordd Towyn ym Mharc Towyn



Ffordd y Twyni




Llwybr beicio a llwybr cerdded presennol i'r de o Barc Towyn

3.0 Towyn

3.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Man Agored

Mae darparu man agored wedi'i gyfyngu, yn hytrach na Pharc Towyn sy'n barc cyhoeddus mawr sy'n agos i ganol Towyn, mae ardaloedd eraill o fannau agored fel arfer yn cael eu cysylltu ag isadeiledd ffordd neu fusnesau.




Gorchudd Canopi Coed

Tu allan i Barc Towyn mae gorchudd canopi coed yn brin iawn, ac wedi'i gyfyngu i dir mewn perchnogaeth preifat a'r maes parcio ar Ffordd y Twyni. Ychydig iawn o goed sydd ar Ffordd Towyn.

3.0 Towyn

3.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun hwn yn dangos aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd, ac yn ystyried agweddau megis hamdden, cynefinoedd bywyd gwylt a chysgod.

Yn gyffredinol mae'r ardal astudiaeth ag aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd isel, ac eithrio rhannau o Barc Towyn, yn arbennig lle mae gorchudd canopi coed.



Dynodiadau

Mae tri Adeilad Gradd II* Rhestredig wedi'u lleoli ynghyd ar groesffordd yng nghanol Towyn. Mae'r rhain yn cynnwys Eglwys y Santes Fair, gyda waliau'r fynwent, Cartref Nyrsio Ty'n Llan a Chlwb leuenctid Towyn a Bae Cinnel.

Nid oes unrhyw ddynodiadau eraill o fewn yr ardal astudiaeth neu'r ardal amgylchynol.


3.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad

Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn pasio Towyn i'r gogledd o'r ardal astudiaeth, tu hwnt i'r rheilffordd, ar hyd yr arfordir. Mae nifer o lwybrau teithio llesol yn yr ardal astudiaeth, gan gynnwys ar hyd Ffordd Towyn, Ffordd y Twyni, Gors Road a thrwy Barc Towyn.

Mae maes parcio yn adran ddeheuol Ffordd y Twyni, a maes parcio mawr yn gysylltiedig â Thir Prince sydd ger yr ardal astudiaeth.



Hierarchaeth Stryd

Mae'r A548 Ffordd Towyn yn hollti'r ardal astudiaeth a dyma'r brif ffordd sy'n cysylltu'r Rhyl, Gwibffordd A55 Gogledd Cymru ac Abergele. Mae Ffordd Towyn yn rhedeg i'r de orllewin i'r gogledd ddwyrain gyda ffyrdd bach a pwyntiau mynediad i gerbydau yn cysylltu ardaloedd preswyl amgylchynol, busnesau a pharciau carafanau. Mae prif gyffordd Ffordd Towyn, Ffordd y Twyni a Gors Road yn culhau ac wedi'i leoli yn fras yng nghanol yr ardal astudiaeth.

3.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae Towyn yn gyrchfan twristiaeth wedi'i nodweddu gan nifer fawr o barciau carafanau gyda lleiniau carafanau statig a theithiol. Mae twristiaeth wedi'i grynhoi i dymor yr haf.

Mae ardaloedd preswyl wedi'u diffinio'n gyffredinol gan fynaglos a rhai anheddau deulawr.

Nid oes gan y dref barth siopa cydnabyddedig gydag amwynderau lleol, siopau cyfleustod, busnesau, cyfleusterau hamdden ac adloniant wedi'u gwasgaru ar hyd yr A548 Ffordd Towyn a Ffordd y Twyni.

Mae gan y dref ffurf trefol wael yn sgil y nifer fawr o fyngalos a charafanau statig ac mae'n cael ei ddominyddu gan yr A548 Ffordd Towyn sy'n brysur.

Mae adeiladau rhestredig Eglwys y Santes Fair, Cartref Nyrsio Ty'n Llan a Chlwb Ieuenctid Towyn a Bae Cinnel yn darparu nodweddion tirnod deniadol; ynghyd â'r bythynnod teras ar gyffordd Ffordd Towyn/Ffordd y Twyni.

Cyrchfannau Allweddol

Mae atyniadau a chyrchfannau allweddol wedi'u lleol ar hyd yr A548 Ffordd Towyn a Ffordd y Twyni ac yn cynnwys Parc Towyn, glan y môr, Cae Rasio Tir Prince, Parc Adloniant Knightly's a nifer o siopau i dwristiaid a chyfleusterau hamdden yn cynnwys canolfannau gemau ac adloniant, tafarndai, bariâu a chlybiau.

3.3 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Cyrchfan poblogaidd i dwristiaid
- Cyfleusterau hamdden ac adloniant a pharciau gwyliau
- Tir Prince a Pharc Towyn
- Llwybr yr Arfordir a Llwybr 5 Beicio Cenedlaethol ar hyd y promenâd
- Cysylltiad i lan y môr
- Cyfres o adeiladau cynhenid, sef eglwys, clwb ieuenctid a bythynnod ar y gyffordd â Ffordd Towyn/Ffordd y Twyni

Cyfleoedd

- Creu craidd cryfach i'r dref ac ail-gydbwyso'r parth cyhoeddus i gynyddu blaenoriaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- Gwellu pwyntiau croesi ar draws Ffordd Towyn ac ym mynedfeydd parciau gwyliau.
- Ychwanegu gwyrddni i Ffordd Towyn drwy blannu coed, plannu gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy a hadu blodau gwyllt i ysgafnhau'r lleoliad gwyrdd
- Ystyried gwellu'r llwybr beicio, gan ddarparu llwybrau lletach i gerddwyr a sribed canolog ar hyd Ffordd Towyn i arafu cyflymderau cerbydau.
- Cyflwyno coed a Systemau Draenio Cynaliadwy drwy blannu gardd law ar hyd Ffordd y Twyni a chreu cysylltiadau gwyrdd a gwellu'r amgylchedd i gerddwyr a beicwyr.
- Lledu llwybrau i gerddwyr a llwybr beicio dynodedig posibl ar hyd Ffordd y Twyni.
- Archwilio'r posibilrwydd o wneud Ffordd y Twyni yn unfordd er mwyn creu mwy o ofod ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- Gwellu'r parth cyhoeddus ar nodweddion allweddol megis cyfleusterau amwynder/hamdden
- Amrywio ardaloedd presennol o blannu glaswelltir amwynder
- Llwybr teithio llesol newydd o fewn Parc Towyn ac ar hyd Maes Cinmel i gysylltu gyda llwybrau teithio llesol i Rhodfa Caer.
- Cyflwyno gwelliannau bioamrywiaeth ym Mharc Towyn, megis dolydd blodau gwyllt, coed a gwrychoedd i amrywio'r glaswelltir.
- Gwellu mynedfa Tir Prince drwy blannu mwy o goed a gwrych. Ystyried defnyddio waliau gwyrdd ar dalcenni'r adeilad ac i siopau ar gyffordd Ffordd y Twyni/Ffordd Towyn.
- Cyflwyno gwelliannau parth cyhoeddus megis seddi a phlannu ar nodweddion allweddol.

Gwendidau

- Amgylchedd wedi'i ddominyddu gan gerbydau gyda phriffordd llydan
- Mae'r A548 Ffordd Towyn yn hollti'r dref ac yn ffurfio rhwystr symudiad
- Dim craidd canol tref gan fod amwynderau lleol a chyfleusterau adloniant a hamdden wedi'u gwasgaru ar hyd prif ffordd brysur.
- Parth cyhoeddus o ansawdd gwael i amwynderau lleol gyda mannau cyfarfod/cyhoeddus cyfyngedig
- Ychydig iawn o groesfannau i gerddwyr ac amgylchedd o ansawdd gwael i gerddwyr
- Diffyg gorchudd coed ar neu ger y priffyrdd a'r gorchudd canopi coed isaf yn y fwrdeistref sirol
- Yn gyffredinol, bioamrywiaeth ac aml-swyddogaeth gwael yr isadeiledd gwyrdd presennol
- Cysylltiad ymlaen at lan y môr drwy'r ffair.
- Mae byngalos a charafanau statig yn bennaf yn darparu ffurf trefol gyda diffyg graddfa a mannau caeedig

Bygythiadau

- Ymyraethau ar y briffordd mabwysiedig
- Mae'r A548 yn ffordd drwodd prysur ar gyfer pobl leol a thwristiaid
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau
- Nid oes llawer o le ar gyfer ymyraethau mawr ar gyffordd Ffordd y Twyni, Gors Road a Ffordd Towyn.
- Cystadleuaeth gyda gofodau parcio ar Ffordd y Twyni.

3.3 Cyfleoedd a Heriau



3.3 Cyfleoedd a Heriau

1. Cysylltiad Ffordd Towyn


- Lleihau lled y briffordd a chyflwyno coed a gardd law lle bo'n ymarferol neu ystyried strided canolog o bosibl gyda gardd law a choed.
- Lledu'r llwybrau cerdded, ac ystyried y cwmpas i greu llwybr beicio pwrpasol
- Cyflwyno mesurau tawelu traffig a chreu gwell synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr, yn arbennig ar bwyntiau amwynder lleol allweddol (ystyried culhau'r briffordd/strided canolog/croesfan anffurfiol, ymyraethau isadeiledd gwyrdd)
- Cyflwyno Isadeiledd Gwyrdd, gwelliannau i'r parth cyhoeddus a seddi ar nodweddion allweddol megis amwynderau lleol a lleoliadau adloniant
- Ystyried waliau gwyrdd i'r ffasadau gwag yng nghyffordd Gors Road
- Plannu coed a gwelliannau i'r Isadeiledd Gwyrdd ym man agored Llys Madoc
- Gwella pwyntiau croesi ym mynedfeydd parc gwyliau a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr drwy ystyried radiysau palmant llai a thwmpathau.
- Gwella mynedfa a blaen Tir Prince drwy blannu coed a gwrych



Croesfan wedi'i godi i gerddwyr, strided canolog a phlannu coed, yr A554 Tower Road ym Mhenbedw.



Plannu coed ar y llain ganol ar Stryd Fawr Northwood Hills, Llundain. Delwedd © GreenBlue Urban Limited



3.3 Cyfleoedd a Heriau



Cool Towns London Road Southend-on-Sea
© GreenBlue Urban Limited



Greener Grange Town © GreenBlue Urban Limited



Wapping Wharf, Bristol. Lluniau gan Simon Doling
Llun gan Gillespies

2. Parth Cyhoeddus Ffordd y Twyni

- Gostwng lled y briffordd a phlannu coed a gardd law lle mae'n ymarferol
- Lledu'r llwybrau cerdded, ac ystyried y cwmbras i greu llwybr beicio pwrpasol
- Cyflwyno mesurau tawelu traffig a chreu gwell synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr, yn arbennig ar bwyntiau amwynder lleol allweddol (ystyried culhau'r briffordd/strided canolog/croesfan anffurfiol, ymyraethau isadeiledd gwyrdd)
- Cyflwyno Isadeiledd Gwyrdd, gwelliannau i'r parth cyhoeddus a seddi ar nodweddion allweddol megis amwynderau lleol

3.3 Cyfleoedd a Heriau

3. Parc Towyn

- *Plannu coed a gwrych ar flaen Ffordd Towyn*
- *Cyflwyno llwybr beicio a llwybr troed teithio llesol yn cysylltu'r de i'r llwybr presennol ym Maes Cinnel ac i gysylltu â Gors Road. Cynnwys coed a gwrychoedd ac amrywio'r glaswelltir lle bynnag bosibl er mwyn gwella'r Isadeiledd Gwyrdd.*

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380.

© Crown copyright and database rights 2022 OS 100023380. Cedwir pob hawl.

Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

Use of this data is subject to terms and conditions.

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.

Contains OS data © Crown copyright and database right 2022.

Mapio Coed Cenedlaethol - © Bluesky International Limited.



Llwybr beicio dwyffordd wedi'i rannu




Llwybr beicio a llwybr cerdded trwy fan agored yn Stamford Brook, Altrincham



Dôl blodau gwyllt a phlannu coed yn Hampton Common

3.4 Meysydd Blaenoriaeth



Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn yr astudiaeth gwaelodlin, gwerthusiad safle a chanfod materion a chyflaeodd mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda'r tîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, Teithio Llesol, Isadeiledd Gwyrdd pellach a fydd yn cael yr effaith mwyaf ar Dowyn. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Gorllewin Ffordd Towyn
- Cyffordd Ffordd Towyn a Ffordd y Twyni
- Dwyrain Ffordd Towyn

3.4 Meysydd Blaenoriaeth

A568 Ffordd Towyn

Mae Ffordd Towyn yn ffurfio rhan o ffordd arfordirol yr A548 sy'n torri drwy'r dref o'r gogledd ddwyrain i'r gorllewin. Mae cyfleusterau siopa a hamdden allweddol, parciau gwyliau a mannau agored wedi'u lleoli ar hyd y ffordd.

Cyflwr Presennol:

- Mae'r traffig yn llifo mewn dau gyfeiriad.
- Ffordd gerbyddau llydan (oddeutu 7.89m - 10.39m) a theimlir bod y ffordd wedi'i ddominyddu gan geir.
- Mae'r llwybrau gerdded yn gul mewn mannau (llwybr cerdded oddeutu 1.09m-5.13m) yn arbennig ar gyffordd Ffordd Towyn / Ffordd y Twyni / Gors Road.
- Diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr. Mae rhai ynysoedd croesi i gerddwyr ar hyd Dwyrain Ffordd Towyn.
- Nifer o fynedfeydd preifat a busnes ar Ffordd Towyn.
- Nifer o safleoedd bysiau ar bob ochr y ffordd.
- Diffyg Isadeiledd Gwyrdd ar hyd y ffordd.

Cyfleoedd:

- Culhau'r briffordd er mwyn aildddefnyddio'r gofod at ddibenion eraill a gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr ac Isadeiledd Gwyrdd.
- Gwella teithio llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Lledu llwybrau troed lle bo angen.
- Gwella darpariaeth croesi ar gyfer cerddwyr.
- Gwella'r parth cyhoeddus ar hyd y ffordd.
- Gwella darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd ar hyd y ffordd.



Gorllewin Ffordd Towyn



Gorllewin Ffordd Towyn



Cyffordd Ffordd Towyn



Cyffordd Ffordd Towyn



Dwyrain Ffordd Towyn



Dwyrain Ffordd Towyn

3.5 Dyluniad Cysyniad



Cynllun Cysyniad Towyn

Dyluniadau Cysyniad Towyn

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer meysydd blaenoriaeth ym Nhowyn, gan gynnwys A548 Ffordd Towyn.

Mae'r dyluniad cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio prif stryd a man agored cyhoeddus Towyn.

Prif nod y dyluniad cysyniad yw gwneud y prif goridor yn fwy gwyrdd a chreu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr drwy blannu nifer o goed a phlanhigion, cyflwyno mesurau tawelu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi, gyda chyfleoedd gwell ar gyfer cerdded a beicio.

Mae'r dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu creu heb wybodaeth dopograffig, cyngor cludiant nac arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.

3.5 Dyluniad Cysyniad

Gorllewin Ffordd Towyn


Mae rhan y de orllewin o A548 Ffordd Towyn yn ffurfio'r prif ddynesfa at y dref o Abergele a Gwibffordd yr A55 Gogledd Cymru.

Nod y cynigion yw diffinio mynediad i'r dref drwy greu trothwy a chulhau'r briffordd lle mae'r terfyn cyflymder yn lleihau i 30mya.

Mae'r cynllun yn cynnig lleihau'r briffordd presennol o tua 9m i 6m o led gan dynnu llinellau canol a chyflwyno lôn feicio cyngorol DE304 er mwyn arafu traffig. Rhagwelir y byddai'r lôn feicio cyngorol yn parhau i'r de orllewin ar hyd Ffordd Towyn tu allan i'r ardal astudiaeth.

Cynhelir llwybrau troed bob ochr i'r ffordd sydd o leiaf 3m o led, sy'n addas ar gyfer eu defnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Ar gyfer beicwyr mwy hyderus ar feiciau ffordd, cynigir blaenoriaeth ar bwyntiau nodwedd gyda lonydd traffig wedi'i lleihau i 3m o led a lonydd beicio cyngorol DE304 tu allan i'r ardaloedd hyn.

Mae'r cynigion yn darparu mwy o ymyraethau ar bwyntiau nodwedd allweddol, megis siopau ac amwynderau lleol, lle mae tua 3m o'r lled sy'n weddill o'r briffordd bresennol yn cael ei ail-bwrpasu ar gyfer gwyrddu trefol trwy blannu coed a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy ar ddwy ochr y ffordd a chyflwyno sribed canolog DE207, sianeli a phwyntiau croesi syml DE606 heb eu rheoli ac wedi'u codi, mewn deunyddiau cyferbyniol er mwyn creu blaenoriaeth gwell i gerddwyr a chyfluoedd ar gyfer gwell parth cyhoeddus.



Mewnodiad 1: Gorllewin Ffordd Towyn

3.5 Dyluniad Cysyniad



Gorrlewin Ffordd Towyn



Ffordd Towyn rhwng Rhodfa Pen Isaf a Towyn Way West

3.5 Dyluniad Cysyniad

Cyffordd Ffordd Towyn

Mae cyffordd Ffordd Towyn gyda Ffordd y Twyni a Gors Road yn ffurfio porth allweddol ac mae'r cynigion yn canolbwyntio ar greu pwynt nodwedd gwyrdd gyda gwell amgylchedd i gerddwyr.

Culhau'r briffordd i 6m er mwyn lledu'r llwybrau troed i leiafswm o 2m ar fraich orllewinol Ffordd Towyn a darparu blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd.



Cynigir uwchraddio'r safle bws i safle bws gyda tho gwyrdd mewn safle ar ochr y ffordd.

Cynigir rhoi waliau gwyrdd byw ar ffasadau gwag y siopau arcêd presennol ar ochr ogleddol Ffordd Towyn ac ar dalcen y bythynnod presennol er mwyn greu porth gwyrdd.

Creu pwynt nodwedd i'r gogledd ddwyrain o'r gyffordd yn y cyfleuster hamdden presennol er mwyn greu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar gerddwyr ac yn gwella cyfleusterau croesi a'r parth cyhoeddus.



3.5 Dyluniad Cysyniad



Mae rhan dowyreiniol Ffordd Towyn yn cynnwys atyniadau Parc Towyn a Thir Prince, ynghyd â nifer o gyfleusterau hamdden wedi'u gwasgaru ar hyd y ffordd.


Mae'r nodweddion yn cynnwys lleihau lonydd cerbydau i 3m o led er mwyn arafu traffig a rhoi blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd, gyda strïbed canolog, sianeli priffordd a newid i ddeunydd arwyneb.

Amnewid ynysoedd gyda choed a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy er mwyn torri ar y coridor ffordd a chreu stryd gwyrdd.

Yn Nhir Prince cynigir fod y ffens rhwyll metel las presennol yn cael ei ail-leoli yn ôl i'r llwybr troed oddeutu 3m er mwyn rhoi lle ar gyfer plannu coed a gwrych newydd ar hyd y blaen er mwyn ysgafnhau'r ffin a rhoi mwy o wyrddni i'r stryd.



3.5 Dyluniad Cysyniad




Flordd Towyn ym Mharc Towyn




Flordd Towyn yn Nhir Prince

3.5 Dyluniad Cysyniad



Cyffordd Ffordd Towyn â Rhodfa'r Morfa

3.5 Dyluniad Cysyniad




Llwybr 3m a rennir yn addas ar gyfer cerdded a beicio

Lleihau'r briffordd i 6m o led, sy'n addas ar gyfer blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd

Systemau Draenio Cynaliadwy gyda choed a phlanhigion math arfordirol

Rhan Arferol Gorllewin Ffordd Towyn



Llwybr 3m a rennir yn addas ar gyfer cerdded a beicio

Systemau Draenio Cynaliadwy gyda choed a phlanhigion math arfordirol

Lôn 3m o led, yn addas ar gyfer blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd

Rhan Arferol Dwyrain Ffordd Towyn

4 Abergele



4.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Mae Abergele yn dref farchnad arfordirol ac yn anheddiad trefol allweddol yng ngogledd ddwyrain Bwrdeistref Sirol Conwy (Y 4ydd dref fwyaf yn y Sir). Mae oddeutu 10,000 o drigolion yn y dref. Mae Gwibffordd yr A55 Gogledd Cymru yn rhedeg drwy'r dref i'r gogledd a'r dwyrain. Mae'r A547 a'r A548 yn ffyrdd drwodd prysur sy'n rhedeg drwy ganol y dref gan achosi tagfeydd. Mae gan canol y dref gynnig masnachol a manwerthu da.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn amlygu

Mae gan Abergele orchudd canopi coed isel (11.6%) ac er fod nifer o isadeiledd gwyrdd (asedau isadeiledd gwyrdd), mae bylchau yn y ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd presennol, yn arbennig ar hyd yr A547 sy'n rhedeg drwy ganol y dref. Dim ond un goeden stryd sydd yng nghanol y dref ac mae'r ddogfen yn awgrymu y byddai plannu coed stryd, gwrychoedd a phlanhigion ar hyd y dynesfeydd coridor yn ychwanegu gwerth i'r dref.

Mae'r ardal astudiaeth yn canolbwyntio ar barth siopa canol y dref a'r dynesfeydd allweddol yn cynnwys:

1. Stryd y Bont
2. Stryd y Farchnad
3. Eldon Drive
4. Ffordd y Môr
5. Cyswllt Gwyrdd Church Street
6. Y Mwnt
7. Chapel Street



4.1 Ardal Astudiaeth



Stryd y Bont yn edrych i'r gorllewin ar fynedfa canol y dref



Cyffordd Stryd y Farchnad/Stryd y Bont/Stryd y Dŵr yn edrych i'r gorllewin




Stryd y Farchnad yn edrych i'r dwyrain tuag at Chapel Street



Cylchfan Stryd y Farchnad ym mynedfa canol y dref



Stryd y Farchnad ger Ffordd y Môr, yn edrych i'r gorllewin i Gastell Gwrych



Ffordd y Môr yn edrych i'r gogledd



Church Street yn edrych i'r gogledd




Chapel Street yn edrych i'r gogledd

4.0 Abergele

4.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Man Agored

Mae gan y dref asedau Isadeiledd Gwyrdd ond mae bylchau yn arbennig ar hyd yr A547 yng nghanol y dref. Mae ardaloedd presennol o fannau agored yn cynnwys Parc Gele a'r Mwnt, wedi'i leoli yn agos i ganol y dref.




Gorchudd Canopi Coed

Mae gan Abergele orchudd canopi coed isel ac mae diffyg coed stryd gyda dim ond un yng nghanol y dref. Mae'r gorchudd coed yn gryfach i'r gorllewin gyda rhai coed aeddfed wedi'u lleoli mewn man gwyrdd bob ochr i'r A547 ar ddynesa canol y dref.


4.0 Abergele

4.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd


Mae'r cynllun yn dangos yr ardaloedd lle mae Isadeiledd Gwyrdd gyda nifer o swyddogaethau wedi'u lleoli. Yn gyffredinol mae gan canol y dref aml-swyddogaeth cyfyngedig, yn arbennig ar hyd yr A547 ac A448. Mae'r ardaloedd gydag aml-swyddogaeth uwch yn cynnwys y Mwnt a Parc Gele.



Dynodiadau


Mae cyfran fawr o'r ardal astudiaeth wedi'i leoli o fewn Ardal Gadwraeth Canol Dref Abergele ac mae nifer o adeiladau rhestredig Gradd II. Mae Eglwys Sant Mihangel yng nghanol yr ardal astudiaeth yn adeilad Gradd II*.

4.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad


Mae Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhedeg ar hyd Ffordd y Môr rhwng Stryd y Farchnad a glan y môr. Mae nifer o lwybrau Teithio Llesol yn yr ardal astudiaeth, gan gynnwys ar hyd yr Stryd y Farchnad, Ffordd y Môr ac Eldon Drive. Mae maes parcio wedi'i leoli oddi ar Stryd y Dŵr.



Hierarchaeth Stryd

Mae'r A547 a'r A548 yn pasio drwy ganol y dref ac yn ffyrdd drwodd prysur sy'n aml yn achosi tagfeydd. Maent yn darparu cysylltiadau ar hyd yr arfordir tuag at Bensarn, y Rhyl a Chonwy ac i'r de tuag at Llanfair Talhaiarn a Llanrwst. Mae Gwibffordd yr A55 Gogledd Cymru yn rhedeg yn agos i ogledd a dwyrain y dref.

4.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae Abergele wedi'i leoli rhwng y môr a'r brynau ac yn gyffordd bwysig ar lwybr yr arfordir. Mae'r dref farchnad yn agos i'r arfordir ym Mhensarn a brynau cefn gwlad yng Nghastell Gwrych. Mae parth siopa canol y dref wedi'i leoli o amgylch Stryd y Farchnad, Stryd y Bont a Chapel Street yng nghanol yr ardal astudiaeth.

Mae canol y dref wedi'i ffurfio o amgylch cyffordd yr A547/A548 ac mae ffurf trefol clos, wedi'i ddiffinio gan adeiladau teras deulawr yn agos i'r stryd. Mae adeiladau nodedig ar Stryd y Farchnad yn cynnwys yr Hen Adeilad Ysgol a Hen Neuadd y Dref, Eglwys Sant Paul ar Stryd y Bont ac Eglwys Sant Mihangel.

Mae cymeriad y dref farchnad wedi erydu ar ochr ddwyreiniol canol y dref gan ddatblygiad modern, gan gynnwys archfarchnad, llyfrgell a garej wedi'i ddiffinio gan gylchfan fawr wrth y fynedfa. Ymhellach i'r gorllewin mae gan ddynesfa canol y dref gymeriad mwy gwyrdd gyda choed a man agored rhwng Ffordd y Môr a Chastell Gwrych.


Cyrchfannau Allweddol

Mae cyrchfannau allweddol o fewn yr ardal astudiaeth a'r ardal cyfagos yn cynnwys parth siopa, Parc Gele, y Mwnt, Castell Gwrych, Parc Pentre Mawr, Canolfan Hamdden Abergele, ysgol uwchradd a choleg.


4.3 Cefndir

Astudiaeth Canol Tref Abergele

Yn 2016, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Bartneriaeth Pobl a Lleoedd i weithio gyda chymuned busnesau lleol, i asesu yn benodol iechyd y Stryd Fawr ac i ddarparu cymorth trefniadol ar gyfer Cymdeithas y Masnachwyr. Fel datblygiad o'r gwaith hwn ac ar gyfer yr angen i ddatblygu dull yn seiliedig ar le, penodwyd Chris Jones Regeneration i ddatblygu astudiaeth canol y dref yn haf 2017 a oedd yn canolbwyntio ar ardal fasnachol y dref yn ogystal ag edrych ar ei berthynas gyda'r parciau gerllaw, ardal y traeth ac asedau eraill. Cynhaliwyd nifer o sesiynau galw heibio a digwyddiadau cyfranogiad y gymuned gan fynd o broblemau oedd gan bobl i ddatblygu datrysiadau lleol. Yn 2018, cafodd y ddogfen hon ei mabwysiadu gan y Cynllun Lle gyda chymorth cynyddu gallu ac adnodd datblygu prosiect wedi'i ddarparu.



Ardaloedd Cymeriad wedi'i gymryd o dudalen 24 Astudiaeth Canol Tref Abergele



Lleoliad Cynigion Canol y Dref wedi'u cymryd o dudalen 46 Astudiaeth Canol Tref Abergele

4.3 Cefndir


Cynllun Lle Abergele (2019)

Mae Cynllun Lleoedd Abergele'n darparu fframwaith sy'n amlinellu blaenoriaethau ac yn dangos y berthynas gyda chynllunio defnydd tir a'r defnydd o arian Adran 106 ar gyfer datblygiadau yn y dref ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar drafodaethau a blaenoriaethau a gyflawnwyd gan Is-bwyllgor Cynllun Lleoedd Abergele, gyda gweithgorau eraill yn cyfrannu at gwmpas a chyd-ddarparu'r gweithgareddau a phrosiectau.

Mae'r Cynllun Lleoedd yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer Abergele:

"Rhwyng yr arfordir a'r bryniad, mae Abergele yn hysbys fel cymuned canol tref sydd â chalon ac yn gofiadwy am ei amrywiaeth o weithgareddau yn ogystal â chanolbwynt i grwydro oddi yno."




Cynllun Canol y Dref wedi'i gymryd o dudalen 5 Fframwaith Cynllun Lleoedd Abergele (2019)

ac yn cynnwys blaenoriaethu a bandio prosiectau yn ôl themâu gan gynnwys:

- Mynediad ac Isadeiledd
- Busnes, Swyddi a Thwristiaeth
- Cymuned, Iechyd a Lles

Cyflwynir prosiectau ar Gynllun Prosiect Strategol gan ddarparu cyfres gofodol o flaenoriaethau wedi'u nodi o fewn atodlen Gweithgaredd Cynllun Lle yn amlinellu disgrifiad, angen, buddion, cyfleoedd cyllido ac Adran 106 ar gyfer pob prosiect.



Cynllun Prosiect Strategol Cynllun Lleoedd wedi'i gymryd o dudalen 13 Fframwaith Cynllun Lleoedd Abergele (2019)

4.3 Cefndir

Mae'r prosiectau canlynol yn berthnasol i'r astudiaeth hwn:

Mynediad ac Isadeiledd

A1 - Cysylltiadau o Safle Datblygu'r De Ddwyrain i Ganol y Dref

Gweithgareddau penodol i gynnwys:

1. *Darparu cysylltiadau cerdded/beicio yn Safle Datblygiad CDLI y De Ddwyrain drwy Bryn Hyfryd Grove, Ffordd Llan Sain Sior a Ffordd Rhuddlan;*
2. *Gwasanaethau cludiant cyhoeddus ar hyd y ffordd gyswilt newydd i ganol y dref sy'n rheolaidd ac yn galluogi defnyddwyr;*
3. *Cyfyngu ar faint y siop gyfleustra arfaethedig i annog cysylltiadau i ganol y dref;*
4. *Gwelliannau i oleuadau traffig a monitro cysylltiedig yng nghanol y dref yn ystod cyfnod cyntaf datblygiad y CDLI;*
5. *Gwneud gwelliannau i Ffordd Rhuddlan i annog beicwyr a cherddwyr fel eu bod yn cael mwy o flaenoriaeth;*
6. *Cyflwyno canol y dref i ddefnyddwyr drwy gyfrwng gwell arwyddion cyfeiriadol a chyflwyno nodweddion pyrth allanol a mesurau tawelu traffig.*

A4 - Cynllun Rheoli Traffig Canol y Dref

Mewn ymateb i'r anghenion traffig presennol ac er mwyn cynllunio ar gyfer twf traffig yn y dyfodol o ddatblygiadau preswyl cysylltiedig (yn amodol ar ganiatâd cynllunio), mae angen i ganol y dref gymryd dull rhagweithiol i reoli traffig. Dyma drafftig sydd un ai'n ymweld ag Abergele am reswm penodol neu'n teithio drwy'r dref i gyrchfan arall.

Mae cynnig a phrofiad presennol canol y dref hefyd yn cael ei nodi gan y ffordd mae traffig yn cael ei reoli gyda'r amgylchedd bresennol wedi'i ddominyddu gan gerbydau heb lawer o fannau cyhoeddus a cherddwyr yn teimlo yn israddol i'r drefn symud. Felly mae rheolaeth traffig yn allweddol i'r ffordd mae canol tref Abergele yn cael ei wella fel lleoliad, er mwyn i fusnesau gael blaen adeiladau gwell, gwell llwybrau yn ogystal â chreu man cyhoeddus a sgwariau a all ddarparu canolbwynt i fywyd y dref.

Penododd CBS Conwy Atkins yn 2017 i asesu'r sefyllfa bresennol o ran cyffyrdd presennol yng nghanol y dref a systemau goleuadau traffig ac roedd eu hadroddiad yn dod i'r casgliad fod y system wedi cyrraedd ei gapasiti ar y lefelau presennol. Yn amodol ar ddatblygiad tai cynlluniedig mae angen cynllunio ar gyfer cynllun rheoli traffig gwell a gaiff ei ddylunio a'i adeiladu mewn dull sy'n seiliedig ar le. Rhaid i hyn gael ei ystyried yn holistaidd o ran buddion ac effaith ar y dref: mynediad, symudiad, parcio, man cyhoeddus, blaen adeiladau, tir ac ati.

A5 - Gwelliannau i Ffordd y Môr gan gynnwys y Bont

Gwelliannau i Ffordd y Môr ac yn benodol y bont dros yr A55 ac i ailagor traffig ddwyffordd a fydd yn gwella hygyrchedd i ac o ardal y traeth i mewn i ganol y dref. Mae angen cynnwys darpariaeth lôn beicio o fewn y bont ac ar hyd Ffordd y Môr.

A7 - Arwyddion Tref ar gyfer y Llwybrau Troed

Integreiddio arwyddion ar draws y dref fel bod cymdogaethau wedi'u cysylltu a gall ymwelwyr grwydro. System arwyddion nodwyr llwybrau a defnyddio isadeiledd presennol i gyfeirio cerddwyr at nodweddion a llefydd allweddol ar draws y dref.

A8 - Gwelliannau i Borth y Dref

Gwaith cydlynol i wella pyrth allweddol i'r dref o'i bedair mynedfa, gan gynnwys arwyddion porth newydd sy'n bodloni brand lle newydd, plannu a chysylltu i arwyddion ehangach y dref sy'n hyrwyddo atyniadau allweddol.



B1 - Safle'r Hen Ysgol

Mae'r prosiect hwn yn bwysig gan mai dyma'r unig safle yn y dref sy'n eiddo yn bennaf i CBS Conwy, ac mae wedi'i leoli ar borth allweddol i'r dref, felly mae potensial i ddatgloi buddion ar gyfer canol y dref.

Mae'r prosiect hwn yn ddeublyg: gwerthuso dewisiadau ac astudiaeth dichonoldeb, ac os y profir ei fod yn ymarferol, ailddefnyddio'r safle. Rhaid i'r astudiaeth ddechreuol gyflawni nifer o dasgau:

- *Archwilio'r posibilrwydd o gadw man cyfarfod cymunedol a ddarperir ar hyn o bryd yn y Ganolfan Ieuentid a Chymuned bresennol mewn man arall yng nghanol y dref fel bo trigolion lleol yn cael cymdeithasu, aros yn iach a datblygu sgiliau/diddordebau*
- *Newid y llyfrgell bresennol am gyfleuster o'r 21ain ganrif sy'n integreiddio anghenion cymunedol eraill*
- *Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb o'r Ganolfan Ieuentid a Chymuned, Llyfrgell, yr hen Ganolfan lechyd a'r safle maes parcio i ddarganfod ffyrdd o ddatgloi datblygiad newydd ac ailddefnyddio asedau hanesyddol cyfredol*
- *Dylai'r astudiaeth hefyd edrych ar sut fydd y maes parcio yn cael ei gynnal ar gyfer siopwyr, ond hefyd â dau bwrpas i barcio, marchnadoedd a digwyddiadau wythnosol. Dylai hynny gynnwys y maes parcio ar gyfer gweithwyr y Cyngor yng nghefn y Ganolfan Ieuentid a Chymuned*
- *Dylai aildatblygu a dylunio'r tirlun gyd-fynd â chynigion ar gyfer ochr Bee Hotel Stryd y Farchnad, ac unrhyw ddatblygiad sy'n dod ymlaen ar gyfer heb safle garej Slater's.*

4.3 Cefndir



Gele Gwyrdd - Pentre Mawr a Pharc Gele wedi'i gymryd o dudalen 36 Framwaith Cynllun Lleodedd Abergele (2019)

C5 - Prosiect Datblygu Rhandiroedd/Garddio

Mae un o'r ddau gofod parcio yn Abergele, Parc Gele yn agos at Stryd y Bont o fewn canol y dref ac yn darparu cysylltiad i gefn gwlad a bryniad cyfagos.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithgareddau canlynol:

- Darparu ffocws ar fowlen/amffitheatr y cloddwaith ym Mharc Gele fel man digwyddiadau anffurfiol: amser cinio, dechrau ar gyfer teithiau cerdded tywys y dref, perfformiadau celfyddydau a diwylliannol lleol, gofod pop-yp ar gyfer y gymuned;
- Darparu lleoliad twf cymunedol yn y gornel segur yn ne-orllewin y Parc sy'n hygyrch ac wedi'i gysylltu â mentrau cymunedol, marchnadoedd lleol, a rhwydweithiau math "cawl";
- Adolygu'r Llwybr Heini ac ail-drefnu'r ardal;
- Parhau â'r arwyddion ar gyfer teithiau cerdded allan i'r brynau a chwsr yr afon.

I ddechrau, bydd y prosiect yn cael ei arwain gan ddyluniad y gymuned gyda rhai ceisiadau ariannu ar gyfer grantiau cymunedol.

Gwelliannau i'r coridor gwyrdd

- Ar hyd mynedfeydd/allanfeydd i'r Parciau i edrych ar welliannau isadeiledd gwyrdd ar y ffyrdd canolradd a llwybrau. Bydd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar 3 gwelliant porth (i blannu coed a blodau gwyllt) a fydd yn gwella argraffiadau cyntaf a gosod y safon ansawdd ar gyfer isadeiledd gwyrdd sy'n ffurfio rhan o brosiectau parhad yn y dyfodol, cefnogi a helpu i ddarparu Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr.

4.4 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- *Yn agos i'r arfordir a'r bryniad*
- *Afon drwy'r dref*
- *Man agored hygyrch yn agos at ganol y dref*
- *Aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd rhesymol*
- *Ardal Gadwraeth Canol y Dref gyda rhai adeiladau allweddol a threftadaeth sy'n ychwanegu cymeriad*
- *Canol tref hygyrch a chlos*

Cyfleoedd

- *Diffinio pyrth i ganol y dref drwy wella'r parth cyhoeddus ac isadeiledd gwyrdd*
- *Archwilio cyfle i greu man gwyrdd/sgwâr cyhoeddus fel rhan o ailddatblygu'r safle garej a llyfrgell*
- *Ailgydbwysu'r parth cyhoeddus i flaenoriaethu cerddwyr a beicwyr drwy fesurau tawelu traffig, lleihau'r briffordd a radiysau pafin a darparu croesfan i gerddwyr*
- *Cynyddu lled y llwybrau cerdded, rhesymoli baeau parcio a chyflwyno coed a gardd law drwy ganol y dref*
- *Tawelu traffig a gwella'r ddarpariaeth beicio drwy ganol y dref*
- *Gwella'r ddynysfa orllewinol i'r dref drwy isadeiledd gwyrdd*
- *Ystyried waliau gwyrdd ar dalcenni gwag adeiladau ar byrth a nodweddion allweddol*
- *Gwella cysylltiadau gwyrdd drwy Eglwys Sant Mihangel*
- *Gwelliannau mannau agored i'r Mwnt er mwyn gwella'r cynnig hamdden*
- *Gwella mynediad a safle Castell Gwrych*
- *Gwella Llwybr Teithio Llesol/Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar hyd Sea View Road*


Gwendidau

- *Strydoedd wedi'u dominyddu gan gerbydau methu ymdopi â phwysau traffig modern*
- *Profiad gwael i gerddwyr a diffyg ardaloedd agored i'r cyhoedd*
- *Cysylltiadau gwal i atyniadau allweddol a mannau agored*
- *Prin o groesfannau i gerddwyr*
- *Darpariaeth gwael i feicwyr*
- *Prin o orchudd coed*
- *Bioamrywiaeth gwael yn gyffredinol*
- *Llwybrau troed cul ar strydoedd eilaidd*
- *Pyrth canol y dref a gofodau cyrraedd gwael*

Bygythiadau

- *Gofod cyfyngedig ar gyfer plannu coed a phlanhigion*
- *Lefel/tagfeydd traffig*
- *Colli llefydd parcio ar y stryd*
- *Ymyraethau ar y briffordd mabwysiedig*
- *Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau*

4.4 Cyfleoedd a Heriau



4.4 Cyfleoedd a Heriau

1. Porth y Dwyrain Stryd y Bont

- Mae angen mwy o synnwyr o gyrraedd porth y dwyrain i gyhoeddi canol y dref drwy ddefnyddio mesurau lleddfu traffig, nodwedd porth a gwyrddni
- Lleihau lled priffordd, mwy o rodfeydd, rhesymoli baeau parcio a phlannu coed a chreu gardd law i greu porth gwyrdd
- Cyflwyno mesurau lleddfu traffig a diffinio mynedfa i ganol y dref a chreu gwell synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr (ystyried culhau'r briffordd/strïbed canolog/croesfannau anffurfiol)
- Gwella Teithio Llesol i Stryd y Bont a Ffordd Llan San Siôr gyda darpariaeth cerdded a beicio gwell fel bod ganddynt mwy o flaenoriaeth a gwella cysylltedd i'r dwyrain tuag at breswylwyr presennol a thai arfaethedig a lleoliadau cyflogaeth.
- Lleihau radiysau cyffyrdd a chreu gofod cyhoeddus mwy gydag Isadeiledd Gwyrdd yng nghyffordd Stryd y Bont/Ffordd Llan San Siôr er mwyn ffurfio porth i ganol y dref
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer ychwanegu gwyrddni i flaen Eglwys Sant Paul drwy blannu coed, gwrych a chynyddu Isadeiledd Gwyrdd
- Gwella'r rhyngwyneb a'r cysylltiad â choridor Afon Gele a chysylltiadau â Pharc Gele
- Ystyried waliau gwyrdd i ffasadau gwag Adeiladau Plas Newydd ar Stryd y Bont

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380.

© Crown copyright and database rights 2022 OS 100023380. Cedwir pob hawl.

Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

Use of this data is subject to terms and conditions.

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.

Contains OS data © Crown copyright and database right 2022.

Mapio Coed Cenedlaethol - © Bluesky International Limited.




Coed stryd yn Bad Salzuffen, yr Almaen. Ffotograffydd: Nikolai Benner Ffynhonnell delwedd: Landezine




Systemau Draenio Cynaliadwy yn Sheffield. Ffynhonnell delwedd: Nigel Dunnett



Baeau parcio, plannu coed a chroesfan i gerddwyr yn Altrincham



4.4 Cyfleoedd a Heriau



Parth cyhoeddus yn Altrincham.
 © Adrian Lambert. Ffynhonnell delwedd: Planit-IE Limited



Coed stryd a gardd law ar Station Road, Ashington.
 Ffynhonnell delwedd: GreenBlue Urban



Croesfan i gerddwyr yn Fishergate, Preston.
 Ffynhonnell delwedd: LancsLive

2. Stryd y Farchnad

- Lleihau lled y briffordd er mwyn galluogi blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd, mwy o rodfeydd, rhesymoli baeau parcio, safleoedd bws a safle tacsis, a phlannu coed a chreu gardd law os yn ymarferol.
- Lleihau blerwch ac ystyried os all oleuadau gael eu gosod ar adeiladau
- Ystyried polion goleuadau byw 'gwyrrdd' wedi'u hól-osod
 lle mae'r cwmpas ar gyfer plannu coed yn gyfyngedig
- Gwellu Isadeiledd Gwyrrdd a seddi ar gyffordd Stryd y Farchnad/Stryd y Dŵr drwy ystyried plannu a rhoi waliau gwyrrdd i ffasadau gwag
- Cyflwyno mesurau arafu traffig er mwyn creu gwell synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr (ystyried culhau'r briffordd/strïed canolog/croesfannau anffurfiol)

4.4 Cyfleoedd a Heriau

3. Porth y Gorllewin Stryd y Farchnad


- Diffinio porth i ganol y dref drwy wella Isadeiledd Gwyrdd a blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr
- Lleihau graddfa'r arwyneb caled ar y cylchfan a chynyddu Isadeiledd Gwyrdd er mwyn creu mynedfa gwell i'r dref sy'n canolbwyntio fwy ar Deithio Llesol a graddfa dynol. Ystyried creu cynllun gofod a rennir neu arwyneb mewn deunyddiau cyferbyniol er mwyn diffinio'r porth
- Cyflwyno rhwystrau ymwithol er mwyn lleihau llwybrau troed a chreu gofod ar gyfer plannu coed
- Cyflwyno Isadeiledd Gwyrdd a phlannu coed i ffin hen safle Garej Slater's
- Archwilio cyfleoedd i greu sgwâr/gofod gwyrdd yng nghanol y dref fel rhan o hen safle Garej Slater's er mwyn diffinio'r porth a chysylltu gyda hen safle'r ysgol
- Blaen gwyrdd i hen safle'r ysgol gyda choed a phlannu addurniadol mewn planwyr uchel



Canol tref Poynton. Ffynhonnell delwedd: Planit-IE Limited



Gardd law yng Nghanol Dref Eastcote.
Ffynhonnell delwedd: Landscape Institute



4.4 Cyfleoedd a Heriau



Plannu Coed. Ffynhonnell delwedd: PlantPARTNER

4. Dynesfa Gorllewinol (Stryd y Farchnad/Eldon Dr)

- Cyflwyno coed, dŵl a bylbiau yn y lleiniau glaswellt presennol ar hyd Stryd y Farchnad er mwyn clymu i mewn gyda choed presennol a diffinio'r dynesfa i ganol y dref
- Amrywio glaswellt amwynder presennol ar Eldon Drive trwy gyflwyno grŵp o goed, planhigion, gwrych, ac ardaloedd o ddolydd a phlannu bylbiau. Cynnwys llinell o goed yn baralel i'r wal ar hyd Stryd y Farchnad er mwyn diffinio'r dynesfa i ganol y dref. Ystyried pantiau i gefnogi draenio
- Gwella llwybr Teithio Llesol ar hyd Eldon Drive
- Gwella mynediad a lleoliad Castell Gwrych trwy blannu coed a phlanhigion ac ardaloedd o ddolydd glaswelltir



Blodau Gwyllt

4.4 Cyfleoedd a Heriau

5. Cysylltiad Gogleddol Ffordd y Môr

- Amrywio glaswellt amwynder presennol ar Ffordd y Môr drwy Isadeiledd Gwyrdd megis plannu mwy o goed, pantiau draenio a gardd law a bylbiau
- Gwella Teithio Llesol a Llwybr Beicio Cenedlaethol ar hyd Sea View Road trwy ystyried llwybr dynodedig/lledu llwybr i wella'r ddarpariaeth beicio

6. Cysylltiad Gwyrdd Church Street


- Cryfhau cysylltiad gwyrdd i'r gogledd drwy Eglwys Sant Mihangel i lawnt fowlio a maes parcio Stryd y Dŵr Creu mwy o synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr i Church Street drwy welliannau i'r arwyneb, arwyddion a gwyrddni gyda phlanwyr

7. Y Mwnt

- Cyfle i wella cysylltiadau rhwng Stryd y Bont a Stryd y Dŵr i'r Mwnt drwy wella llwybr troed, arwyddion, ychwanegu gwyrddni, a gwelliannau i Isadeiledd Gwyrdd a mannau agored i'r Mwnt
- er mwyn gwella cynnig hamdden y Mwnt

8. Chapel Street

- Ystyried cwmpas i gynyddu llwybrau troed, lleihau lled y briffordd a lliniaru traffig er mwyn creu gwell blaenoriaeth i gerddwyr



4.5 Meysydd Blaenoriaeth



Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn astudiaeth gwaelodlin, gwerthuso safle a chanfod problemau a chyfleoedd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parh cyhoeddus, Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd ymhellach, a fyddai'n cael yr effaith orau ar Abergele. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Dynesfa Gorllewinol (Stryd y Farchnad)
- Gorllewin Stryd y Farchnad
- Dwyrain Stryd y Farchnad
- Dynesfa Dwyrainol (Stryd y Bont)

KEY

	Priority Area		Car Park
	Trees		On Street Parking
	Greenspace		Public Open Space
	Water		Leisure Centre
	Sand		Landmark Building
	Shopping Zone		Uncontrolled Crossing
	Bus Stop		Controlled Crossing

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380.

© Crown copyright and database rights 2022 OS 100023380. Cedwir pob hawl.

Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data

hwn. Use of this data is subject to terms and conditions.

Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2022.

Contains OS data © Crown copyright and database right 2022.

Mapio coed Cenedlaethol - © Bluesky International Limited.

4.5 Meysydd Blaenoriaeth

Stryd y Farchnad / Stryd y Bont

Mae Stryd y Farchnad a Stryd y Bont yn ffurfio rhan o'r A547 sy'n torri ar draws y dref o'r dwyrain i'r gorllewin ac mae'n lwybr amgen i Wibffordd A55 Gogledd Cymru.

Cyflwr Presennol:

- Mae'r traffig yn llifo i'r ddau gyfeiriad
- Strydoedd wedi'u dominyddu gan geir
- Nifer o fynedfeydd
- Mae'r llwybrau troed yn gul mewn manau. Mae llwybrau troed yn amrywio o tua 0.70m - 7.41m o led
- Profiad gwael i gerddwyr
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Darpariaeth beicio gwael
- Diffyg isadeiledd gwyrdd a gorchudd coed
- Pyrth canol tref gwael

Cyflleoedd:

- Culhau'r briffordd lle bo'n bosibl er mwyn ail-ddosbarthu'r gofod a gwella darpariaeth i gerddwyr, beicwyr ac Isadeiledd Gwyrdd
- Cynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr
- Lledu llwybrau troed lle bo angen a lle bo hynny'n ymarferol
- Gwella'r ddarpariaeth i feicwyr
- Rhesymoli baeau parcio
- Gwella darpariaeth croesi i gerddwyr
- Ail-bwrpasu rhai baeau parcio er mwyn darparu mwy o ofodau ar gyfer cerddwyr ac Isadeiledd Gwyrdd
- Gwella darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd trwy ganol y dref
- Gwella'r parth cyhoeddus
- Gwella gofodau cyrraedd/pyrth



Stryd y Farchnad yn edrych i'r gorllewin i gyffordd Chapel Street



Stryd y Bont yn edrych i'r gorllewin i Stryd y Farchnad



Stryd y Farchnad yn edrych i'r gorllewin tuag at yr Hen Ysgol

4.6 Dyluniad Cysyniad



Dyluniad Cysyniad Abergele

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer y meysydd blaenoriaeth yn Abergele, gan gynnwys Stryd y Farchnad a Stryd y Bont.

Mae'r dyluniadau cysyniad yn nodi cyfleoedd thematig a strategol allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd, Teithio Llesol a pharth cyhoeddus er mwyn sicrhau dull cydlynol ar gyfer adfywio strydoedd canol tref allweddol Abergele.

Nod allweddol y dyluniad yw creu amgylchedd sy'n fwy cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr sy'n lleihau dominyddiaeth cerbydau, gwella'r parth cyhoeddus a diffinio pyrth a dynesfeydd canol y dref.

Cynigir gwneud hyn drwy gulhau'r briffordd (yn ffisegol ac yn weledol) er mwyn lleihau cyflymderau cerbydau, lledu llwybrau troed a chyflwyno chyffyrdd wedi'u codi a darpariaeth croesi anffurfiol; yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd, coed stryd a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy lle mae gofod yn caniatáu hynny, o ystyried y ffurf trefol clos.

Mae dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu cynhyrchu heb wybodaeth dopograffigol, cyngor cludiant neu arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.

4.6 Dyluniad Cysyniad


Dynesfa Gorllewinol

Mae A547 Stryd y Farchnad yn darparu'r dynesfa gorllewinol i ganol tref Abergele rhwng Castell Gwrych a Ffordd y Môr.

Dylid wella'r Isadeiledd Gwyrdd trwy gyflwyno coed stryd ar leiniau glaswellt presennol ar yr ochr ogleddol er mwyn diffinio'r dynesfa allweddol i ganol y dref. Mae amrywiaeth Isadeiledd Gwyrdd pellach wedi'i gynnig i'r lleiniau glaswellt amwynder presennol gyda dŵl a bylbiau i wella bioamrywiaeth a darparu coridor deniadol sy'n cyd-fynd â'r ardal wledig amgylchynol.

Mae gwelliannau teithio llesol yn cynnwys cyflwyno lonydd beicio gorfodol DE303 ar ddwy ochr y ffordd a thynnu llinellau canolog er mwyn arafu cyflymderau cerbydau.

Yn y manau lle mae'r briffordd yn culhau i fod yn llai na 9m wrth ddynesu at ganol y dref byddai lonydd beicio yn dod yn lonydd beicio cynghorol DE304, gyda throsglwyddiad i flaenoriaeth beicio ar y ffordd wrth fynedfeydd canol y dref.



Dyluniad Cysyniad Dynesfa Gorllewinol - Stryd y Farchnad/Ffordd y Môr

4.6 Dyluniad Cysyniad



Gorllewin Stryd y Farchnad

Mae'r porth gorllewinol i ganol y dref wedi'i ddiffinio gan y cylchfan presennol i'r archfarchnad a hen safle Garej Slater's. Mae'r dyluniad cysyniad yn cynnig amnewid y gylchfan gyda chyffordd anffurfiol heb ei farcio DE601 mewn deunydd cyferbyniol er mwyn arafu cyflymderau cerbydau, gwella'r parth cyhoeddus a blaenoriaeth i gerddwyr gyda gwell croesfan. Mae'r safle ailddatblygu yn darparu cyfle i greu gofod porth gydag adeilad canolbwynt i ddiffinio mynediad canol y dref.

Cyflwynir Isadeiledd Gwyrdd i ochrau'r cyffordd anffurfiol newydd ac ar hyd ochr gogleddol ffordd. Mae safle ailddatblygu Garej Slater's yn rhoi cyfle i gyflwyno man gwyrdd trefol i'r strydlyn gyda gwell parth cyhoeddus, gofod agored, coed a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae hyn yn creu gofod gwyrdd o fewn y dref fel cyfleoedd i gwrdd ac eistedd.


Mae cynigion Teithio Llesol yn cyflwyno parth 20mya a blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd gan leihau priffordd i 6m o led a stribed canolog DE207 i gulhau'r ffordd yn weledol.

Dyluniad Cysyniad Gorllewin Stryd y Farchnad


Mae rhan ddwyreiniol Stryd y Farchnad yn canolbwyntio ar ail gydbwyso blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr yng nghanol y dref a lleihau dominyddiaeth cerbydau modur. Mae'r dyluniad cysyniad yn culhau'r briffordd yn ffisegol ac yn weledol ac yn cyflwyno cyfres o gyffyrdd a chroesfannau wedi codi er mwyn arafu cyflymderau cerbydau a gwella croesfannau i gerddwyr.

Cynigio Teithio Llesol i gyflwyno parth 20mya a blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd gan gulhau'r briffordd i 6m o led a sribed canolog DE207 a sianeli draenio i gulhau'r ffordd yn weledol. Mae hyn yn galluogi i'r llwybr troed gael ei ledu hyd at 2m er mwyn creu mwy o ofod ar gyfer cerddwyr.

Cyflwyno Isadeiledd Gwyrdd mewn lleoliadau allweddol lle mae culhau'r ffordd wedi creu digon o le. Mae'r hen adeilad arcêd/neuadd y dref yn dirnod allweddol ac mae cyflwyno coed a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy yn atgyfnerthu'r nodwedd allweddol hwn. Awgrym cyfleoedd ar gyfer waliau gwyrdd byw ar ffasadau adeiladau llai deniadol mewn lleoliadau allweddol lle gallent ddarparu canolbwynt.



4.6 Dyluniad Cysyniad



Dyluniad Cysyniad Dynesfa Dwyreiniol - Stryd y Bont

O'r Dwyrain

Diffinnir y dynesfa dwyreiniol i ganol y dref trwy ad-drefnu'r cyffordd gyda radiysau palmant llai, ardaloedd gor-redeg i gerbydau a thwmpathau anffurfiol ar gyffordd Ffordd San Siôr, a baeau parcio wedi'u diffinio gan rwystrau ymwithiol.


Ymyraethau Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys y ffordd wedi'i ail-bwrpasu ar gyfer plannu coed a gardd law er mwyn ychwanegu gwyrddnï i'r stryd ac atgyfnerthu'r dynesfa, tra'n darparu Systemau Draenio Cynaliadwy i gludo dŵr storm i'r gyliau presennol.

Er mwyn cyflawni hyn mae parcio ar y stryd wedi cael ei resymoli ar lôn troi i'r chwith i Ffordd San Siôr wedi'i amnewid gyda gofod llwybr troed ac ardal gor-redeg i gerbydau er mwyn galluogi i gerbydau mwy droi.


Cynigion Teithio Llesol i gyflwyno parth 20mya ar y fynedfa i'r dref a blaenoriaeth i feicwyr ar y ffordd gan gulhau'r briffordd i 6m o led a stribed canolog DE207 a sianeli draenio i gulhau'r ffordd yn weledol. Mae'n galluogi'r llwybrau troed cul presennol ar ochr gogleddol y stryd i gael ei ledu i oddeutu 2m er mwyn creu mwy o ofod ar gyfer cerddwyr

4.6 Dyluniad Cysyniad

Rhan Arferol Gorllewin Stryd y Farchnad




Rhan Arferol Dwyrain Stryd y Farchnad



4.6 Dyluniad Cysyniad

Lluniau gweledol Stryd y Farchnad



Lluniau gweledol Stryd y Farchnad

5 Pensarn



5.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Mae Pensarn yn dref arfordirol fechan yng ngogledd ddwyrain Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n cynnwys traeth a phromenâd.

Pensarn sydd â'r lefel uchaf o amddifadedd ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn disgrifio absenoldeb cyffredinol o Isadeiledd Gwyrdd ym Mhensarn.

Mae'r ardal astudiaeth yn canolbwyntio ar yr A548 Ffordd Towyn, yr A538 Marine Road a Ffordd y Môr yn y gorllewin, gan gynnwys y gylchfan fawr ar Dundonald Avenue ac adran o'r promenâd.

Mae'r strydoedd a mannau o fewn yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. Ffordd y Môr a Phorth Glan y Môr
2. Parth Cyhoeddus Marine Road
3. Ffordd Towyn



5.1 Ardal Astudiaeth



A548 Ffordd Towyn gyda llain lydan o laswellt



A548 Ffordd Towyn/Marine Road gyda llain o laswellt



Siopau'r A548 Marine Road




Siopau'r A548 Marine Road



A548 Ffordd Towyn/Marine Road i'r dwyrain o'r siopau



Ffordd y Môr yr edrych i'r gogledd tua'r orsaf drenau a'r traeth



Ffordd y Môr yn edrych i'r de ar draws pont y rheilffordd




Llwybr yn croesi o'r orsaf drenau i lan y môr

5.0 Pensarn

5.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Mannau Agored

Mae'r ddarpariaeth Mannau Agored ym Mhensarn yn wael. Mae'r prif fannau agored yn laswelltir amwynder sy'n gysylltiedig ag isadeiledd cludiant neu fusnesau, gan eithio'r traeth a'r ardal chwarae gysylltiedig. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn eithaf pell oddi wrth y prif ardaloedd preswyl.



Gorchudd Canopi Coed

Mae lleiniau mawr o goed ar hyd yr A55 i'r de orllewin o ardal yr astudiaeth, fodd bynnag, ychydig iawn o orchudd coed sydd o fewn ardal yr astudiaeth, ac mae hynny o orchudd sydd yma mewn gerddi preifat neu safleoedd busnes.

5.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun hwn yn dangos aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd, ac yn ystyried agweddau megis hamdden, cynefinoedd bywyd gwylt a chysgod.

Mae'r lefel aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd yn yr ardal hon yn isel ar y cyfan, gyda rhai ardaloedd â lefel uwch megis tir Eglwys Deuluol Pensarn, a'r maes chwarae ar y traeth.



Dynodiadau

Nid oes unrhyw ddynodiadau o fewn yr ardal astudiaeth.

Gellir dod o hyd i Goetir Hynafol i'r de ar ochr arall yr A55 ac mae SoDdGA Traeth Pensarn wedi'i leoli yng ngogledd orllewin y dref.

5.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad

Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn pasio Pensarn i'r gogledd o'r ardal astudiaeth, tu draw i'r rheilffordd, ar hyd y promenâd ar yr arfordir. Mae nifer o lwybrau Teithio Llesol yn yr ardal astudiaeth, gan gynnwys ar hyd yr A548 Ffordd Towyn/Marine Road, Ffordd y Môr a Meirion.


Mae maes parcio cyhoeddus i'r traeth yn y gogledd. Mae gorsaf Pensarn wedi'i lleoli i'r de o'r llinell drên a gellir cael mynediad ati o Ffordd y Môr.



Hierarchaeth Stryd

Mae'r A548 Ffordd Towyn/Marine Road yn hollti'r ardal astudiaeth a dyma'r brif ffordd sy'n cysylltu'r Rhyl, Gwibffordd A55 Gogledd Cymru ac Abergele. Mae'r A548 Ffordd Towyn/Marine Road yn rhedeg o'r de orllewin i'r gogledd ddwyrain gyda ffyrdd bach a phwyntiau mynediad i gerbydau'n cysylltu ardaloedd preswyl amgylchynol, busnesau a pharciau carafanau. Mae cyffordd Marine Road, Dundonald Avenue a'r A55 yn gylchfan fawr wedi'i lleoli i'r gorllewin o ardal yr astudiaeth gyda chysylltiadau i'r de o Abergele.

5.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae Pensarn yn gyrchfan twristaidd gyda pharciau carafanau i'r gogledd o'r setliad ar gyfer carafanau sefydlog a theithiol. Mae twristiaeth wedi'i grynhoi i dymor yr haf.

Mae'r mwyafrif o ardaloedd preswyl yn cynnwys byngalos gydag anheddau deulawr a fflatiau tai trefol tri/pedwar llawr ar hyd yr A548 Ffordd Towyn/Marine Road.

Nid oes gan y dref Barth Siopa Cydnabyddedig, fodd bynnag, mae amwynderau lleol, siopau cyfleustod, busnesau, cyfleusterau hamdden ac adloniant yn glwstwr ar hyd yr A548 Marine Road rhwng Berllan a Ffordd y Môr.

Mae gan y dref ffurf drefol wael yn sgil y nifer fawr o fyngalos a charafanau statig ac mae'n cael ei ddominyddu gan yr A548 Ffordd Towyn sy'n brysur.

Mae Eglwys Deuluol Pensarn yn darparu nodweddion tirnod deniadol; ac yn nodi dechrau'r stryd siopa sy'n cynnwys fflatiau tai trefol tri/pedwar llawr.

Cyrchfannau Allweddol


Mae atyniadau a chyrchfannau allweddol wedi'u lleoli ar hyd neu oddi ar yr A548 Ffordd Towyn/Marine Road ac yn cynnwys glan y môr/traeth, yr ardal siopa anffurfiol a gorsaf Pensarn.

5.3 Cefndir

Prosiect Gofodol Pensarn - Cynllun Lleoedd Abergele (2019)


Fel y nodir yn Adran 4.2, mae Cynllun Lleoedd Abergele'n darparu fframwaith sy'n amlinellu blaenoriaethau ac yn dangos y berthynas gyda chynllunio defnydd tir a'r defnydd o arian Adran 106 ar gyfer datblygiadau yn y dref ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Amlinellwyd y gweithgarwch canlynol ar gyfer Prosiect Gofodol Pensarn:

- Datblygu'r cyrchfan a'i leoliad ar Ffordd y Gogledd (lle mae'r A55 yn cwrdd â'r arfordir)
- Isadeiledd oddi ar yr A55
 - Man gwefru cerbydau trydan
 - Ardal i barcio cartref modur dros nos
 - Hurio beiciau
- Canolfan ar yr arfordir:
 - Marciwr milltir allweddol ar Lwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Sutrans
 - Defnyddio wal amddiffyn yr arfordir fel rhan o hunaniaeth y dref
 - Gweithgarwch mentrau cymunedol/masnachol
 - Gwella/aiddatblygu caffis ac arcedau yn gyrchfannau arfordirol arbennig: adloniant, bistro, caffi
- Mynediad i'r traeth
 - Mynediad ar gyfer cychod bach.
 - Cyfleuster ar gyfer lansio cychod ar strwythur grwyn a llithrfa i'r traeth
- Tacluso tir gwag sydd heb ei ddefnyddio ddigon - defnydd amwynder
- Gwella'r maes parcio
- Perthynas gryfach rhwng yr orsaf drenau a'r traeth
 - Brand
 - Arwyddion
 - Gwe-lywio
 - Ailddefnyddio hen adeilad yr orsaf at sawl diben
- Ailddefnyddio hen adeilad y rhwydwaith rheilffyrdd i ddarparu amwynder lleol - canolfan weithgareddau, llogi beiciau, canolfan wybodaeth i dwristiaid, hostel ac ati.



Prosiect Gofodol Pensarn ar dudalen 33 yn Fframwaith Cynllun Lleoedd Abergele (2019)

5.3 Cefndir



Opsiwn cysyniad A, sef yr opsiwn a ffeirir o dudalen 6 yn Uwchgynllun Traeth Pensarn



Cyfleoedd Dros Dro o dudalen 8 Uwchgynllun Traeth Pensarn

Uwchgynllun Traeth Pensarn (2019)

Paratowyd uwchgynllun ar gyfer Traeth Pensarn gan Benseiri Roberts Limbrick ac Ymgynghorwyr Adfywio Chris Jones. Mae'r ddogfen yn amlinellu tri chynnig cydsyniad ar gyfer glan y môr ac yn ystyried uwchgynllun a ffeirir mewn rhagor o fanylder.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi cyfres o brosiectau tymor byr ar gyfer glan y môr. Rhestrir y rhain dros y dudalen.

1. *Mynedfa llwybr pren i'r traeth er mwyn gwella hygyrchedd ar gyfer ymwelwyr llai abl;*
2. *Arwyddion a chyhoeddiadau gwell mewn mynedfeydd;*
3. *Adeilad(au) buddsoddwyr preifat newydd ar gyfer arcêd, canolfan ymwelwyr newydd, chwaraeon dŵr a chyfleusterau newydd;*
4. *Strwythurau ysgafn i ddarparu ardaloedd picnic a lloches e.e. strwythurau hwyllo Argae Caerdydd*
5. *Llwybr pren/ardaloedd eistedd ar gyfer y caffis presennol ar hyd y promenâd (gan gynnwys planhigion);*
6. *Tirlunio meddal, gan gynnwys planhigion math peithiol a choed bychain i wella'r ffyrdd dynesu a chuddio safleoedd lleol sy'n ddolur i'r llygad;*
7. *Gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr/seiclwyr ar bontydd; ardaloedd a rennir/bwrdd arafu (gan gynnwys yr orsaf drenau) er mwyn integreiddio'r llwybrau presennol yn well;*
8. *Addasu adeilad gwag yr orsaf Fictoraidd er mwyn darparu cyfleoedd busnes lleol/cyfleusterau i ymwelwyr.*

5.4 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Lleoliad arfordirol a thraeth
- Mae Traeth Pensarn yn brosiect blaenoriaeth yng Nghynllun Lleoedd Abergele
- Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn agos iawn
- Lleiniau tirlunio mawr ar Ffordd Towyn
- Planhigion arfordirol ar y gylchfan

Cyfleoedd

- Cryfhau'r llwybrau i'r arfordir/traeth gydag arwyddion a nodwyr llwybrau gwell
- Ail-gydbwyso'r parth cyhoeddus er mwyn blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr
- Gwella'r mannau croesi ar Marine Road
- Culhau priffordd Marine Road, cynyddu nifer y llwybrau troed, rhesymoli baeau parcio a safle bws, a phlannu coed a gardd law os yn ymarferol.
- Gwella'r parth cyhoeddus ar hyd yr ardal siopa ar Marine Road drwy wella'r wyneb a'r ardaloedd eistedd
- Tacluso prif lwybrau
- Ystyried dulliau amgen i ychwanegu mwy o wyrddni pan fo'r cwnpas ar gyfer plannu coed yn brin
- Gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr at y traeth a'r orsaf drenau
- Cyfle i wella'r gylchfan/mynedfa ymhellach drwy blannu coed a llwyni, amrywio lleiniau glaswellt i fod yn ddolydd, mannau bylbiau a phantiau.
- Plannu coed a llwyni ychwanegol ar ffin yr Original Factory Shop
- Gwella triniaethau ffin Ffordd y Môr, gan gynnwys elfennau megis waliau gwyrdd ar adeilad yr orsaf
- Gwella ac amrywio'r man gwyrdd i'r gogledd o'r orsaf, gan gynnwys gwelliannau i'r cynnig chwarae
- Amrywio lleiniau glaswellt amwynder gyda dolydd, bylbiau ac elfennau o System Ddraenio Gynaliadwy
- Gwella ffin safle Dŵr Cymru ym mynedfa'r dref

Gwendidau

- Parth Cyhoeddus gwael i'r ardal siopa
- Strydoedd wedi'u dominyddu gan gerbydau gyda phriffordd lydan
- Prin o groesfannau i gerddwyr
- Ychydig iawn o orchudd coed a mannau agored
- Yn gyffredinol, bioamrywiaeth ac aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd gwael
- Mae'r cysylltiad â glan y môr yn wael gyda llwybr cul

Bygythiadau

- Nid oes mannau gwyrdd cyhoeddus mawr na safleoedd chwarae arbennig i ardaloedd preswyl yn ne'r setliad.
- Mae'r llefydd parcio yn brin ar hyd Ffordd Towyn/Marine Road o amgylch yr ardal siopa.
- Gwrthdaro â gofynion priffyrdd yn arbennig mewn perthynas ag ardal y Porth i lan y môr (cylchfan)
- Ymyraethau ar y briffordd fabwysiedig
- Mae'r A548 yn ffordd brysur
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau

5.4 Cyfleoedd a Heriau



5.4 Cyfleoedd a Heriau

1. Porth Glan y Môr

- Cyfle i wella'r gylchfan / mynedfa ymhellach drwy blannu coed a llwyni, amrywio lleiniau glaswellt gyda dolydd, bylbiau a phantiau
- Gwyrddu ffin y safle gwerthu carafanau drwy blannu gwrychoedd/wal werdd yn lle'r ffens
- Gwyrddu ffin yr Original Factory Shop drwy blannu coed a gwrychoedd
- Gosod triniaethau ffin newydd ar Ffordd y Môr a gwyrddu adeilad yr orsaf drenau
- Cyflwyno arwyddion i nodi cyrhaeddiad i'r traeth
- Amrywio'r man gwyrdd ger y rheilffordd a'r ardal chwarae amgylchynol i greu porth gwyrdd i lan y môr drwy blannu coed a llwyni arfordirol, dolydd, glaswellt a bylbiau.
- Gwella'r cynnig chwarae



Planhigion arfordirol, Pinus nigra Ffynhonnell
www.PlantPartner.co.uk




Nodweddion y porth



Planhigion arfordirol a nodweddion celf Ffynhonnell: Comisiwn
Dylunio Cymru



5.4 Cyfleoedd a Heriau



Canol tref Altrincham, yn dangos
sribed canolog a chroesfan wedi'i chodi i gerddwyr



Stryd fawr Lockerbie © GreenBlue Urban

2. Parth Cyhoeddus Marine Road

- Cyflwyno mesurau tawelu traffig a chreu gwell synnwyr o flaenoriaeth i gerddwyr (ystyried culhau'r briffordd/sribed canolog/croesfannau anffurfiol)
- Culhau'r briffordd, cynyddu nifer y llwybrau cerdded, rhesymoli baeau parcio a safle bws, a phlannu coed a gardd law os yn ymarferol.
- Gwella'r parth cyhoeddus drwy wella'r wyneb a'r ardaloedd eistedd
- Tacluso ac ystyried a oes modd gosod goleuadau ar adeiladau.
Ystyried polion lampau 'gwyrd' wedi'u hól-osod pan fo'r cwmpas ar gyfer plannu coed yn brin

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380.

© Crown copyright and database rights 2022 OS 100023380. Cedwir pob hawl.

Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

Use of this data is subject to terms and conditions.

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.

Contains OS data © Crown copyright and database right 2022.

Mapio Coed Cenedlaethol - © Bluesky International Limited.

5.4 Cyfleoedd a Heriau

3. Ffordd Towyn


- Creu stryd werdd drwy blannu coed a gwrychoedd ar leiniau glaswellt
- Amrywio lleiniau glaswellt amwynder gyda dolydd, bylbiau a phantiau
- Ystyried llwybr seiclo dynodedig o fewn y llain o laswellt
- Ystyried cyfleoedd i wella ffin safle Dŵr Cymru




Pannu coed a gwrychoedd Ffynhonnell: www.plantpartner.co.uk



Hadau Blodau Gwylt



5.5 Meysydd Blaenoriaeth



Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn yr astudiaeth gwaelodlin, gwerthusiad safle a chanfod materion a chyffleodd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, Teithio Llesol, Isadeiledd Gwyrdd pellach a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar Bensarn. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Porth Glan y Môr
- Parth Cyhoeddus Marine Road
- Cylchfan yr A55

5.5 Meysydd Blaenoriaeth

Porth Glan y Môr

Mae'r ardal hon yn cysylltu â'r traeth, atyniadau hamdden, promenâd, llwybr yr arfordir a Llwybr Seiclo Cenedlaethol 5. Mae Ffordd y Môr hefyd yn darparu mynediad at yr Orsaf Drenau.

Cyflwr Presennol:

- Priffordd ddwyffordd lydan (oddeutu 6.3 - 6.78m)
- Llwybrau troed cul ar Ffordd y Môr (oddeutu 1.33m - 2.03m)
- Ychydig iawn o ddarpariaeth seiclo sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Ychydig o groesfannau sydd ar gael i gerddwyr.
- Rhywfaint o ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd presennol. Mae lleiniau gwair a phlanhigion o amgylch yr orsaf ond ychydig iawn o orchudd canopi coed.

Cyfleoedd:

- Culhau'r ffordd gerbydau, ail-ddosbarthu'r gofod a chyflwyno system unffordd mewn rhai llefydd.
- Gwellu Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Ymgorffori'r llwybr cerdded / seiclo cyfun presennol
- Gwellu'r ddarpariaeth croesi ar gyfer cerddwyr.
- Gwellu'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gyda phlanhigion ychwanegol.



Golygfa o Ffordd y Môr



Golygfa o Ffordd y Môr tua chylchfan yr A55

5.5 Meysydd Blaenoriaeth



A548 Marine Road

Parth Cyhoeddus Marine Road

Mae Marine Road yn rhan o ffordd arfordirol yr A548 ac yn ardal siopa a ffordd brysur.

Cyflwr Presennol:

- Traffig dwyffordd
- Priffordd lydan (oddeutu 6.74m - 15.97m gan gynnwys mannau parcio / llwytho). Teimlir bod y ffordd yn cael ei dominyddu gan gerbydau.
- Llefydd parcio ar y stryd ac ardaloedd llwytho yn y de.
- Nifer o safleoedd bysiau ar bob ochr i'r ffordd.
- Llwybrau cerdded cul mewn mannau (llwybrau cerdded oddeutu 1.52m - 4.55m)
- Ychydig o groesfannau sydd ar gael i gerddwyr.
- Darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd a gorchudd canopi coed gwael.
- Parth cyhoeddus gwael.

Cyfleoedd:

- Culhau'r briffordd i ail-ddosbarthu'r gofod a gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr a seiclwyr.
- Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Lledu'r llwybrau troed.
- Gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr.
- Gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd drwy blannu coed a llwyni ac ail-bwrpasu mannau parcio.
- Gwella'r parth cyhoeddus.

5.5 Meysydd Blaenoriaeth

Cylchfan yr A55

Mae'r gylchfan yn ffurfio mynedfa a phorth allweddol i'r dref.

Cyflwr Presennol:

- Ychydig o ddarpariaeth ar hyd y llwybr seiclo Teithio Llesol presennol
- Rhywfaint o ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd presennol. Lleiniau gwair a phlanhigion arfordirol o amgylch y gylchfan ond ychydig iawn o orchudd canopi coed.

Cyfleoedd:

- Creu porth yn y gylchfan.
- Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Gwella darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gyda phlanhigion ychwanegol.
- Culhau'r briffordd ac ail-ddosbarthu'r gofod.



Cylchfan yr A55



Cylchfan yr A55

5.6 Dyluniad Cysyniad



Dyluniad Cysyniad

Mae'r dyluniad cysyniad Cam 2 RIBA yn canolbwyntio ar yr A548 Marine Road, cylchfan cyffordd yr A55 a rhan fechan o Dundonald Avenue.

Mae'r dyluniadau cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio Pensarn.

Prif nod y dyluniad yw gwella mynediad at y traeth, gwyrddu'r coridor ffyrdd, gwella'r ansawdd a'r amgylchedd yn yr ardal siopa ar Marine Road a chreu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr. Mae'r dyluniad cysyniad yn cynnig plannu llawer o goed a llwyni, mesurau gostegu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi, a gwella cyfleoedd ar gyfer cerdded a seiclo.

Mae'r dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu creu heb wybodaeth dopograffig, cyngor cludiant nac arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.

Trosolwg o'r Cynllun Cysyniad

5.6 Dyluniad Cysyniad

Porth Glan y Môr

Ffordd y Môr yw'r mynediad ceir agosaf at lan y môr o Bensarn.

Mae'r cynigion yn anelu at ddiffinio'r fynedfa i Ffordd y Môr drwy greu system unfordd fer, gan alluogi ar gyfer ail-bwrpasu'r ffordd gerbydau bresennol fel llwybr a rannir rhwng cerddwyr a seiclwyr.

Mae Ffordd y Môr ei hun wedi cael ei chulhau i 4.8m o led ar yr adran orllewinol hyd at faes parcio'r Orsaf er mwyn darparu blaenoriaeth i feics ar y stryd. Cynigir pwyntiau ffocws bob ochr i Ffordd y Môr i greu ymdeimlad o gyrraedd.


Cynigir plannu coed a blodau gwyllt ychwanegol ar y lleiniau ac o fewn y gwelyau blodau uchel presennol ym maes parcio'r siop. Cynigir plannu gwrych i'r gorllewin o Ffordd y Môr er mwyn cuddio'r safle gwerthu carafanau.

Mae Marine Road hefyd wedi cael ei chulhau i 6m er mwyn gallu creu llwybr 3m o led a rannir rhwng cerddwyr a seiclwyr ar ochr ddeheuol y ffordd. Mae cilfannau gorsafoedd bws a man llwytho Co-op wedi cael eu symud yn agosach at ochr y ffordd.



Porth Glan y Môr/Ffordd y Môr

5.6 Dyluniad Cysyniad



Parth Cyhoeddus Marine Road

Mae nifer o siopau, sefydliadau bwyd i fynd ac amwynderau eraill wedi'u lleoli ar yr A548 Marine Road.

Mae'r cynigion yn cyflwyno mesurau lleddfu traffig ac yn rhoi ymdeimlad o flaenoriaeth i gerddwyr gan wella'r parth cyhoeddus. Nid yw'r ardaloedd y tu allan i siopau wedi'u cynnwys yn y briffordd fabwysiedig a bydd hyn yn ymfyn trafodaethau â'r perchnogion.

Lleihau Marine Road i ffurfio lonydd 2.4m o led gyda sribed canolog DE207 1.2m o led fel ardal or-redeg i gerbydau mwy. Nodir y sianeli arwyneb ffordd, sribedi canolog a chroesfannau i gerddwyr gyda deunydd cyferbyniol. Mae'r groesfan bresennol a reolir i'r gorllewin wedi'i chadw a'i gwella a chyflwynwyd dwy groesfan syml DE606 pellach heb eu rheoli ar dwmpath ffordd â brig gwastad.

Cadwyd y maes parcio ar ochr ddeheuol y ffordd a'i hollti drwy blannu coed a gardd law fel System Ddraenio Gynalladwy i letya dŵr wyneb ffo.


5.6 Dyluniad Cysyniad

Cylchfan

Mae cylchfan yr A55, Marine Road a Dundonald Road yn ffurfio porth allweddol i Bensarn a'r traeth.


Mae'r cynigion yn dangos y llwybr troed/beics 2m o led presennol i'r gorllewin o'r gylchfan wedi'i ledu i 3m gyda chroesfan a reolir newydd wedi'i hychwanegu i'r dwyrain o'r gylchfan ar slipffordd yr A55 a'r rheiliau ochr ffordd wedi'u gwaredu. Awgrymir y dylid creu croesfan syml DE606 heb ei rheoli ar dwmpath ffordd â brig gwastad i'r de gan gysylltu â'r llwybr Teithio Llesol sy'n anelu i'r dwyrain a llwybr DE401 newydd a rannir rhwng cerddwyr a seiclwyr 3m o led i'r dwyrain o'r gylchfan.

Cynigir plannu dŵl blodau gwyllt, coed a sefydlu System Ddraenio Gynaliadwy ar y gylchfan, ynysoedd traffig a lleiniau gan gadw'r llystyfiant sefydledig presennol.




Porth yr A548

5.6 Dyluniad Cysyniad



Rhan Arferol o Marine Road



Rhan Arferol o Dundonald Avenue

6 Bae Colwyn



6.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Mae Bae Colwyn yn dref maint cymedrol yng ngogledd Bwrdeistref Sirol Conwy. Dyma'r ail ganolfan fasnachol fwyaf yng Nghonwy ac mae'n gyrchfan glan y môr i dwristiaid, fodd bynnag, mae'r promenâd a Gwibffordd yr A55 Gogledd Cymru'n gwahanu'r traeth a'r promenâd.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn nodi mai ychydig iawn o Isadeiledd Gwyrdd sydd yng nghanol y dref yn sgil ei natur glos, fodd bynnag, mae Parc Eirias yng ngogledd ddwyrain y dref yn cynnig rhyddhad allweddol.

Mae'r ardal astudiaeth yn canolbwyntio ar barth siopa canol y dref rhwng yr A547 Ffordd Abergele / Ffordd Conwy a'r B5113 Rhodfa'r Tywysog.

Mae'r strydoedd a mannau o fewn yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. Ffordd Abergele/Ffordd Conwy
2. Ffordd Penrhyn
3. Ffordd yr Orsaf a Sea View Road
4. Rhodfa'r Tywysog a'r Orsaf Drenau



6.1 Ardal Astudiaeth



A547 Ffordd Abergele yn y gyffordd â'r Ffordd Coetir Ddwyreiniol



A547 Ffordd Abergele yn y gyffordd â Ffordd Penrhyn




A547 Ffordd Conwy yng Nghoed Pella, Adeilad y Cyngor



B5113 Rhodfa'r Tywysog yn y gyffordd gyda Ffordd yr Orsaf




Ffordd yr Orsaf yn wynebu'r de tua Ffordd Abergele



Sea View Road yn y gyffordd â Bay View Road




Ffordd Penrhyn yn wynebu'r gogledd o Ffordd Conwy



Man agored cyhoeddus ar Rodfa'r Tywysog ger yr orsaf drenau

6.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Mannau Agored

Mae'r ddarpariaeth mannau agored yng nghanol Bae Colwyn yn brin iawn, mae Gerddi'r Frenhines yn y gorllewin a gerddi Eglwys Sant Paul yn agos at ganol y dref. Mae'r mwyafrif o fannau agored eraill yn gysylltiedig â busnesau neu isadeiledd ffyrdd.


Mae Gwarchodfa Natur Nant Eirias, ar hyd corff dŵr Nant y Groes, a Pharc Eirias wedi'u lleoli i'r dwyrain o ganol y dref ac yn ffurfio mannau agored allweddol i'r dref.



Gorchudd Canopi Coed

Mae'r gorchudd coed ym Mae Colwyn yn isel, gyda'r mwyafrif o goed wedi'u lleoli o fewn lleiniau, neu'r lleiniau glas o amgylch Canolfan Siopa Bay View. Mae rhai coed ifanc ar strydoedd Ffordd Penrhyn, Ffordd yr Orsaf a Sea View Road, fodd bynnag nid yw bob un ohonynt yn ffynnu. Y tu allan i ganol y dref a'r ardal astudiaeth, mae lefel uwch o orchudd coed ar hyd strydoedd preswyl a Gwarchodfa Natur Nant Eirias i'r dwyrain a Choed Pwllcrochan i'r de.


6.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun hwn yn dangos aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd, ac yn ystyried agweddau megis hamdden, cynefinoedd bywyd gwyllt a chysgod.

Mae lefel yr aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd yn isel iawn ar y cyfan yn yr ardal astudiaeth, ac eithrio rhannau o Erddi'r Frenhines, a gerddi Eglwys Sant Paul, lle mae gorchudd canopi coed.




Dynodiadau

Mae nifer o Adeiladau Rhestredig Gradd II ac un Adeilad Rhestredig Gradd II*. Mae'r mwyafrif o adeiladau rhestredig Gradd II wedi'u lleoli gyda'i gilydd ar hyd Ffordd yr Orsaf, ar gyffordd Ffordd Penrhyn a Rhodfa'r Tywysog. Mae Eglwys Sant Paul yn adeilad rhestredig Gradd II*. Mae bob un o'r rhain o fewn Ardal Gadwraeth canol y dref.

Mae'r Goedwig Hynafol o fewn Gwarchodfa Natur Nant y Pandy (Gwarchodfa Natur Nant Eirias) i'r dwyrain. Mae Gwarchodfa Natur Leol Coed Pwllcrochan a'r Goedwig Hynafol i'r de.


6.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad

Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn pasio Bae Colwyn i'r gogledd o'r ardal astudiaeth, tu draw i'r rheilffordd, ar hyd y promenâd. Mae sawl llwybr Teithio llesol cymeradwy yn yr ardal astudiaeth gan gynnwys ar hyd Rhodfa'r Tywysog, Ffordd Penrhyn, Ivy Street, Sea View Road ac ar hyd prif Ffordd Conwy/Abergele.


Mae maes parcio yng nghanol yr ardal astudiaeth sy'n gysylltiedig ag Ivy Street, ac un yng Ngorsaf Drenau Bae Colwyn, a maes parcio mawr ger Canolfan Siopa Bay View.



Hierarchaeth Strydoedd

Mae Gwibffordd yr A55 Gogledd Cymru yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin i'r gogledd o'r ardal astudiaeth ac o dan faes parcio'r orsaf drenau. Yr A547 Ffordd Conwy/Ffordd Abergele yw'r brif Ffordd A drwy'r ardal astudiaeth a Rhodfa'r Tywysog sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r brif ffordd B. Mae ffyrdd bychain a manau mynediad cerbydau eraill yn cysylltu ardaloedd preswyl a busnesau amgylchynol.

6.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae Bae Colwyn yn dref fawr ac yn gyrchfan dwristaidd gyda siopau da a nifer o gaffis a bwytai.

Mae ystod eang o adeiladau ag arddulliau gwahanol yng nghanol y dref, ond mae'r ddylanwad Fictoriaidd/Edwardaidd yn amlwg yn ogystal â dyluniadau a manylder amrywiol. Mae'r ystod a'r amrywiaeth eang mewn ardal eithaf bychan a chywasgedig wedi arwain at gyfansoddiad trefol o ansawdd uchel, sy'n ffactor ddifiniol yng nghanol y dref. Mae'r mwyafrif o adeiladau yn rhai 3 neu 4 llawr.

Mae'r adeiladau rhestredig ar Ffordd yr Orsaf, Ffordd Penrhyn a Rhodfa'r Tywysog, a'r parth cyhoeddus ansawdd uchel yn creu ac yn ffurfio canol tref deniadol.

Mae gan y dref ardaloedd siopa cynradd ac eilaidd, gellir dod o hyd i'r ardaloedd siopa cynradd ar Ffordd yr Orsaf, Sea View Road a Chanolfan Siopa Bay View. Mae'r ardal siopa eilaidd yn ymestyn ar hyd yr A547 ac yn cynnwys siopau manwerthu, bwyd i fynd a chaffis.

Yn yr ardaloedd preswyl amgylchynol, ceir rhesi byr o dai tref, terasau, ambell i dŷ pâr a thai sengl mwy.

Cyrchfannau Allweddol

Canol y dref, Canolfan Siopa Bay View a'r orsaf drenau yw'r prif gyrchfannau allweddol o fewn yr ardal astudiaeth.

Mae'r cyrchfannau allweddol ger canol y dref yn cynnwys y traeth/promenâd a Phorth Eirias i'r gogledd, Gwarchodfa Natur Nant y Pandy (Gwarchodfa Natur Nant Eirias) i'r dwyrain a Pharc Eirias sydd â nifer o gyfleusterau hamdden a chwaraeon.

6.3 Cefndir

CDLI29: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Bae Colwyn (Mabwysiadwyd Rhagfyr 2017)

Wedi'i ddynodi ym 1988, mae Ardal Gadwraeth Canol Tref Bae Colwyn yn cynnwys oddeutu 210 o adeiladau, ac mae nifer ohonynt o ansawdd uchel. Sefydlwyd y dref mewn arddull grid gyda strydoedd llydan a phalmentydd megis Ffordd yr Orsaf a Ffordd Penrhyn ac adeiladau trawiadol mewn sawl arddull.

Ceir crynodeb o nodweddion y dref a rhai problemau parth cyhoeddus isod.

Topograffeg

- *Nid oes glan y mor traddodiadol yn sgil lleoliad y rheilffordd.*
- *Mae'r tir yn codi i'r de o'r traeth gyda rhai ardaloedd o dir amlwg ac ambell i ardal fflat.*
- *Mae Coed Pwllcrochan yn cynnig cefnlen ddeniadol i'r de.*
- *Mae'r topograffeg yn cyfrannu at gymeriad yr ardal.*
- *Defnyddiwyd calchfaen lleol fel deunydd adeiladu mewn rhai eiddo hanesyddol.*

Patrwm Strydoedd

Mae'r strydoedd yn dilyn arddull patrwm grid addasedig. Mae'r dref wedi'i hamgylchynu gan goed i'r de a'r rheilffordd i'r gogledd. Mae Ffordd Conwy a Ffordd Abergele'n ffurfio'r prif lwybr drwy'r Ardal Gadwraeth. Mae'r ffyrdd allweddol eraill yn cynnwys Ffordd yr Orsaf, Ffordd Coetir Ddwyreiniol a Ffordd Coetir Orllewinol. Mae Greenfield Road yn darparu cysylltiad allweddol i'r A55 a strydoedd masnachol allweddol gan gynnwys Ffordd Abergele, Ffordd Conwy, Ffordd yr Orsaf a Ffordd Penrhyn. Nodwedd allweddol o'r Ardal Gadwraeth yw'r strydoedd cefn ac mae nifer o adeiladau

masnachol yn agor yn syth i'r stryd.

Deunyddiau

Cymysgedd o arddulliau, deunyddiau a manylion pensaernïol ynghyd â dylanwad Fictoraidd ac Edwardaidd i ffurfio amgylchedd trefol deniadol. Mae deunyddiau a manylion yr ardal yn cynnwys:

- *Calchfaen lleol*
- *Tywodfaen coch a melyn*
- *Carreg portland*
- *Ithfaen Penmaenmawr*
- *Brics coch Rhiwabon*
- *Brics melyn*
- *Rendrad*
- *Toeau llechi*
- *Placiau carreg â dyddiadau*
- *Ffenestri lliw*
- *Llingysiau teils*
- *Baeau pren a fframiau pren*
- *Ffenestri codi*
- *Drysau panelog traddodiadol*
- *Teils mosaig*
- *Rheiliau haearn bwrw*
- *Canopïau haearn*

Graddfa a Maint yr Adeiladau

Mae'r mwyafrif o adeiladau yn yr ardal yn debyg o ran graddfa ac fel arfer rhwng 3 a 4 llawr.

Golygfeydd Pwysig

- *I fyny Ffordd yr Orsaf tua Ffordd Conwy*
- *I lawr Ffordd yr Orsaf tua'r Orsaf Drenau*
- *I fyny ac i lawr Ffordd Penrhyn*
- *Tua'r môr o ben gorllewinol Ffordd Conwy*
- *Y ddwy ffordd ar hyd Ffordd Conwy*
- *Golygfeydd dros Goedwig Pwllcrochan o Ffordd Rhiw, Ffordd Coetir Ddwyreiniol a Ffordd Coetir Orllewinol*
- *Golygfeydd o Ffordd Abergele tua Eglwys Sant Paul ac ochr ddwyreiniol canol y dref*

Adeiladau Rhestredig

Ceir 30 adeilad rhestredig yn yr ardal gadwraeth. Mae bob un o'r rhain yn rhai Gradd II gan eithrio Eglwys Sant Paul, sy'n adeilad Gradd II*. Mae'r adeiladau rhestredig allweddol yn cynnwys:

Ffordd Abergele:

- *Eglwys Sant Paul*
- *Yr Hen Woolworths*
- *Y Royal Hotel*
- *Stermat*
- *Capel Salem*
- *A & A Cash and Carry*
- *Capel Tabernacl*
- *Theatr Colwyn*

Ffordd Penrhyn:

- *Hen Westy'r Metropole*

Ffordd yr Orsaf:

- *Gwesty'r Imperial*
- *Rhif 3-43*
- *Colwyn House*
- *Central Hotel*

Ffordd Conwy:

- *Midland Bank*
- *National Westminster Bank*
- *Eglwys Bresbyteraidd Lloegr (ar y gornel gyda Ffordd Penarlâg)*
- *Royal Bank Of Scotland*

Ffordd Rhiw:

- *Gorsaf yr Heddlu / Llys yr Ynadon*

Ffordd Coetir Orllewinol:

- *Llyfrgell*

Mannau Agored a Llystyfiant

Mae diffyg llystyfiant o fewn yr Ardal Gadwraeth gan gynnwys coed a phlanhigion stryd. Y gerddi o flaen Eglwys a ficerdy Sant Paul yw'r mannau agored mwyaf sylweddol yn yr ardal a gellir defnyddio Ffordd yr Orsaf, sy'n gyfan gwbl ar gyfer cerddwyr, fel man agored ar gyfer digwyddiadau megis marchnadoedd. Mae'r ddogfen yn awgrymu bod y gellid plannu planhigion stryd ym maes parcio Ivy Street.

6.3 Cefndir

Problemau Parth Cyhoeddus

Mae rhai problemau parth cyhoeddus yr Ardal Gadwraeth wedi'u rhestru isod.

- Diffyg gwaith ailwynebu ar lwybrau troed
- Dodrefn stryd amrywiol ac wedi'u lleoli'n wael megis biniau, seddi, arwyddion enwau stryd
- Annibendod stryd
- Gormod o arwyddion traffig, ar bolion rhydlyd
- Parcio anghyfreithlon ar strydoedd
- Chwyn yn tyfu ar balmentydd
- Biniau masnachol o flaen adeiladau
- Diffyg gwaith cynnal a chadw ar gyrbiau a phalmentydd gyda gwaith atgyweirio dros dro a slabiau/brics rhydd
- Rheiliau ansafonol i gerddwyr ger croesfannau
- Sbwriel yn arbennig mewn corneli na ellir eu cyrraedd
- Seddi cyhoeddus gwael
- Goleuadau gwael ar rodfeydd
- Llwybrau mynediad cefn i siopau heb eu hailwynebu neu mewn cyflwr gwael
- Graffiti
- Prinder coed
- Mae angen gwaredu'r ffensys llechi mewn rhai llefydd
- Triniaethau ffin anaddas
- Ymylon Palmant Concrit
- Parth Cyhoeddus heb ei gynnal yn dda

Effaith ar y System Draffig

- Mae rhai'n teimlo bod ardaloedd o gyfyngiadau traffig ac ardaloedd i gerddwyr yn unig wedi arwain at gyflymderau uwch ar Ffordd Penrhyn a llai o opsiynau parcio i gwsmeriaid ar Ffordd yr Orsaf.
- Mae'r A55 yn gwasanaethu canol y dref a glan y môr ac nid oes digon o groesfannau i gerddwyr.
- Ystyrir bod y gwaith diweddar ar Ffordd yr Orsaf, Sea View Road a Ffordd Penrhyn yn cynnwys y palmentydd, baeau parcio, ardaloedd i gerddwyr yn unig a gwaith plannu coed wedi bod yn llwyddiannus.

Gwelliannau i'r Parth Cyhoeddus

Mae'r gwelliannau i'r parth cyhoeddus a awgrymwyd yn y ddogfen yn cynnwys:

- Deunydd a manylion o ansawdd gwell o ran y palmentydd
- Cynlluniau goleuadau ac arwyddion unedig
- Plannu a chynnal a chadw lleiniau a choed ar strydoedd
- Rheoli traffig a gwasanaethu



Ffordd yr Orsaf yn edrych i gyfeiriad Ffordd Conwy

6.4 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Ail ganolfan fasnachol fwyaf Conwy
- Parth cyhoeddus o ansawdd uchel gyda ffocws ar gerddwyr ar y prif strydoedd siopa, sef Ffordd yr Orsaf, Sea View Road a Ffordd Penrhyn
- Craidd canol tref ac Ardal Gadwraeth gydag enghreifftiau o bensaernïaeth o ansawdd uchel
- Traeth a Phromenâd Bae Colwyn
- Llwybr yr Arfordir a Llwybr 5 Beicio Cenedlaethol ar hyd y promenâd

Cyfleoedd

- Diffinio pyrth canol y dref, gofodau cyrraedd gwael a nodweddion allweddol
- Creu gofod porth o ansawdd uchel yn yr Orsaf Drenau drwy ail-bwrpasu ardaloedd parcio er mwyn gwneud gwelliannau parth cyhoeddus a gofod gwyrdd newydd i gysylltu'n well â chanol y dref
- Gwella'r cysylltiad i gerddwyr a beicwyr i'r gogledd o'r traeth, y promenâd, Llwybr Arfordir a Llwybr rhif 5 y Rhwydwaith Beicio
- Gwella cysylltiad cerddwyr a beicwyr ag Ardal Gadwraeth Nant Eirias a Pharc Eirias
- Ail-gydbwyso'r parth cyhoeddus er mwyn blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr
- Gwella mannau croesi i gerddwyr drwy leihau radiysau'r gyffordd a chroesfannau wedi'u codi
- Cynyddu lled llwybrau troed, ail-bwrpasu baeau parcio a phlannu coed a gardd law er mwyn creu llwybr gwyrdd drwy'r dref rhwng y parciau presennol a Gwarchodfa Natur Nant Eirias
- Glanhau'r strydoedd, drwy waredu a rhesymoli arwyddion, bolardiau ac eitemau eraill
- Lleihau cyfleoedd i barcio ar strydoedd sydd eisoes wedi gwella parth cyhoeddus


Gwendidau

- Mae'r A55 yn creu rhwystr i'r traeth
- Diffyg diffiniad ym mhyrth a gofodau cyrraedd canol y dref megis yr Orsaf Drenau.
- Mae strydoedd wedi'u dominyddu gan gerbydau gyda phriffyrdd ymhell o'r Prif Barth Siopa
- Ychydig iawn o goed ac isadeiledd gwyrdd sydd ar y strydoedd
- Mae diffyg croesfannau i gerddwyr ar Ffordd Conwy/Ffordd Abergele
- Diffyg darpariaeth i feicwyr
- Yn gyffredinol, bioamrywiaeth ac aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd gwael
- Cysylltiad gwael â'r promenâd a'r traeth

Bygythiadau

- Cystadleuaeth o ran parcio ceir
- Gwrthdaro gyda gofynion priffyrdd

6.4 Cyfleoedd a Heriau



6.4 Cyfleoedd a Heriau

1. Porth Ffordd Conwy/Ffordd Abergele

- Mae ar y porth hwn i ganol y dref angen mwy o synnwyr o gyrraedd, ac mae angen blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr drwy fesurau gostegu traffig a gwyrddu
- Cynyddu llwybrau cerdded, rhesymoli baeau parcio a chreu gardd law a phlannu coed i greu porth gwyrdd drwy'r dref, gan gysylltu â pharciau a Gwarchodfeydd Natur presennol.
- Cyflwyno darpariaeth seiclo arbennig neu lwybrau beics ar ffyrdd er mwyn gwella Teithio Llesol
- Darparu mesurau lleddfu traffig drwy gulhau priffyrdd/stribed canolog/croesfannau anffurfiol
- Lleihau radiysau cyffyrdd ar ffyrdd ymyl er mwyn gwella croesfannau a blaenoriaethu cerddwyr



Constitution Avenue, Cynllun gan Jane Irwin © John Gollings



Paddington Street, Westminster © GreenBlue Urban




6.4 Cyfleoedd a Heriau



Station Road, Ashington © GreenBlue Urban

2. Cysylltiad Ffordd Penrhyn:

- Stryd werdd a gwella'r cysylltiad Teithio Llesol rhwng Ffordd Conwy a glan y môr
- Culhau'r ffordd i un lôn a thynnu'r lle parcio ar un ochr i'r ffordd i wneud lle i blannu coed a chreu gardd law a llwybr beics pwrpasol
- Darparu cyfleoedd i fusnesau osod byrddau a chadeiriau tu allan drwy ddefnyddio cynwysyddion blodau symudol.
- Ystyried polion lampau 'gwyrdd' wedi'u hól-osod pan fo'r cwmpas ar gyfer plannu coed yn brin



Planhigion a llwybr beics © AAUPC

6.4 Cyfleoedd a Heriau

3. Ffordd yr Orsaf a Sea View Road

- Stryd werdd gyda rhagor o gynwysyddion blodau uchel, gyda phlanhigion arfordirol i ategu'r lleoliad glan y môr
- Lleihau'r cyfleoedd i barcio drwy ddefnyddio celfi stryd a chynwysyddion blodau mawr, a choed a glaswellt/llwyni addurnol
- Ystyried cyflwyno gardd law yn yr ardaloedd coed presennol a darparu ardaloedd coed a gerddi glaw newydd er mwyn gwyrddu'r stryd
- Cyflwyno ardaloedd bwyta awyr agored drwy ddefnyddio cynwysyddion plannu blodau symudol i ddiffinio ardaloedd eistedd a chyfyngu parcio
- Ystyried polion lampau 'gwyrdd' wedi'u hól-osod



Stamford Brook



Cynwysyddion plannu ar y stryd fawr



6.4 Cyfleoedd a Heriau



Wapping Wharf, Bryste. Ffotograffiaeth gan Simon Doling - Llun gan Gillespies



Orly Station, Amsterdam © Landzine



Ithaca Commons

4. Porth yr Orsaf Drenau

- Creu porth gwyrdd i'r dref drwy roi pwrpas newydd i'r llawr caled a'i droi'n fan gwyrdd gyda chyfleoedd i blannu coed, gosod System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law, glaswellt a llwyni addurnol
- Gwella'r parth cyhoeddus a chreu sgwâr cyhoeddus, sy'n cynnwys nodwedd porth i ddiffinio'r gofod
- Gwella'r cysylltiad rhwng y dref a'r promenâd a rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr ar y B5113 drwy gulhau'r ffordd a chreu bwrdd arafu yn y groesfan
- Plannu coed mewn cynwysyddion planhigion uchel presennol
- Ystyried waliau gwyrdd yn yr orsaf drenau a throsgffordd Gwibffordd yr A55
- Gwella'r cysylltiad â'r promenâd drwy blannu coed a gwella'r gofod amwynder

6.5 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn yr astudiaeth gwaelodlin, gwerthusiad safle a chanfod materion a chyfleoedd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thim prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, Teithio Llesol, Isadeiledd Gwyrdd pellach a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar Fae Colwyn. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- *Ffordd Penrhyn*
- *Hen Neuadd y Farchnad*
- *Blaengwrt yr Orsaf*
- *Maes Parcio Ivy Street a Ffordd yr Orsaf*



6.5 Meysydd Blaenoriaeth



Edrych tua'r gogledd ar hyd Ffordd Penrhyn



Edrych tua'r de ar hyd Ffordd Penrhyn

Ffordd Penrhyn

Mae Ffordd Penrhyn yn stryd fasnachol allweddol. Ceir golygfeydd pwysig o Ffordd Conwy a glan y môr ar hyd y ffordd.

Cyflwr Presennol:

- Parth Cyhoeddus o ansawdd uchel gyda ffocws ar gerddwyr
- Ychydig iawn o ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd oni bai am y coed ar yr ochr orllewinol
- Ardaloedd bwyta awyr agored ar ochr orllewinol y ffordd.
- Diffyg darpariaeth i feicwyr.
- Ffordd gerbydau unffordd sy'n rhy lydan (oddeutu 4.38m - 11.05m gan gynnwys llefydd parcio).
- Llefydd parcio ar y stryd ar ddwy ochr y stryd.

Cyfleoedd:

- Culhau'r briffordd ac ail-ddosbarthu'r gofod.
- Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Gwella darpariaeth croesi ar gyfer cerddwyr.
- Gofod ar gyfer lôn feicio gwrthlif
- Gwyrddu'r stryd ac ail-bwrpasu baeau parcio er mwyn gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd
- Creu rhagor o le ar gyfer ardaloedd bwyta awyr agored.

6.5 Meysydd Blaenoriaeth


Hen Neuadd y Farchnad

Cyflwr Presennol:

- *Tir nas defnyddir*
- *Ychydig iawn o ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd. Rhywfaint o blanhigion rhwng hen safle'r neuadd a blaengwrt yr orsaf.*
- *Prin o groesfannau i gerddwyr.*
- *Diffyg darpariaeth i feicwyr.*
- *Priffordd lydan ar hyd Rhodfa'r Tywysog/Victoria Avenue (oddeutu. 6.94m - 9.92m).*

Cyfleoedd:

- *Maes parcio newydd er mwyn ail-leoli maes parcio'r rheilffordd a maes parcio Ffordd Penrhyn*
- *Gwella'r Ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd*
- *Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr ar Rodfa'r Tywysog*
- *Gwella darpariaeth croesi ar gyfer cerddwyr.*
- *Culhau'r briffordd ac ail-ddosbarthu'r gofod i wella Isadeiledd Gwyrdd a'r ddarpariaeth seiclo a cherdded.*



Hen Neuadd y Farchnad

6.5 Meysydd Blaenoriaeth



Man agored cyhoeddus i'r de o faes parcio'r orsaf drenau



Blaengwrt yr Orsaf a Victoria Avenue

Blaengwrt yr Orsaf

Cyflwr Presennol:

- Diffyg synnwyr o gyrraedd yn yr Orsaf Drenau.
- Ychydig iawn o ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd. Mae cynwysyddion plannu Incredible Edible wedi'u lleoli yma ar hyn o bryd.
- Diffyg darpariaeth i feicwyr.
- Priffordd lydan ar hyd Rhodfa'r Tywysog/Victoria Avenue (oddeutu. 6.94m - 9.92m).
- Cysylltiad gwael â'r promenâd.

Cyfleoedd:

- Creu gofod porth o ansawdd uchel yn yr Orsaf Drenau gyda pharth cyhoeddus gwell.
- Culhau priffordd Rhodfa'r Tywysog i ail-ddosbarthu'r gofod a gwella'r ddarpariaeth Teithio Llesol ac Isadeiledd Gwyrdd.
- Gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd a chreu porth gwyrdd.
- Gwella teithio llesol a chynyddu blaenoriaeth a chroesfannau i gerddwyr a beicwyr.
- Gwella'r cysylltiad â'r promenâd a'r traeth.



Golygfa o'r Orsaf Drenau a'r maes parcio o gyffordd Ffordd yr Orsaf/ Rhodfa'r Tywysog

6.5 Meysydd Blaenoriaeth

Maes Parcio Ivy Street a Ffordd yr Orsaf

Mae Ffordd yr Orsaf yn stryd fasnachol allweddol. Ceir golygfeydd pwysig o Ffordd Conwy a'r Orsaf Drenau ar hyd y ffordd. Mae 41 o lefydd parcio ym Maes Parcio Ivy Street sydd mewn lleoliad canolog.

Cyflwr Presennol:

- Parth Cyhoeddus o ansawdd uchel gyda ffocws ar gerddwyr ar Ffordd yr Orsaf
- Mae Ffordd yr Orsaf yn barth cerddwyr unffordd gyda mynediad cyfyngedig.
- Gellir cynnal digwyddiadau megis marchnadoedd ar Ffordd yr Orsaf.
- Mae rhywfaint o ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd megis coed a phlanhigion ar strydoedd. Mae diffyg darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd ym Maes Parcio Ivy Street.

Cyfluoedd:

- Gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd yn y ddau le.
- Creu ardal wedi'i diffinio ar gyfer siopau a chaffis ar Ffordd yr Orsaf.



Maes Parcio Ivy Street



Maes Parcio Ivy Street



Edrych tua'r de ar hyd Ffordd yr Orsaf

6.6 Dyluniad Cysyniad



Dyluniad Cysyniad Bae Colwyn, Ffordd Penrhyn i Orsaf Drenau Bae Colwyn

Dyluniad Cysyniad Bae Colwyn

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer meysydd blaenoriaeth ym Mae Colwyn, gan gynnwys Ffordd Penrhyn, Rhodfa'r Tywysog, Ffordd yr Orsaf, Blaengwrt yr Orsaf Drenau a Maes Parcio Ivy Street.

Mae'r dyluniadau cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol i wella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio strydoedd a mannau agored cyhoeddus Bae Colwyn.

Nod allweddol y dyluniad yw gwella'r cysylltiad rhwng canol y dref, yr Orsaf Drenau a glan y môr/traeth drwy ddarparu man cyhoeddus gwyrdd newydd ym maes parcio presennol yr orsaf ac ochr ddeheuol Rhodfa'r Tywysog. Bydd hyn yn creu cysylltiad di-dôr i'r traeth ac amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr drwy blannu nifer o goed a llwyni, cyflwyno mesurau tawelu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi, gyda chyfleoedd gwell ar gyfer cerdded a beicio.

Mae'r dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu creu heb wybodaeth dopograffig, cyngor cludiant nac arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.


Ffordd Penrhyn

Mae'r cyffyrdd gyda Ffordd Conwy a Rhodfa'r Tywysog wedi cael eu gwella drwy gyflwyno cyffyrdd D3201 wedi'u codi a chroesfannau heb eu rheoli.



Dyluniad Cysyniad Ffordd Penrhyn

6.6 Dyluniad Cysyniad



Dyluniad Cysyniad Rhodfa'r Tywysog a Hen Safle Neuadd y Farchnad

Hen Neuadd y Farchnad

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu paratoi ar gyfer maes parcio newydd ar hen safle Neuadd y Farchnad er mwyn cynnig llefydd parcio i ddisodli'r rhai a waredir o flaengwrt yr Orsaf Drenau a Ffordd Penrhyn.

Mae'r maes parcio newydd yn darparu 29 o lefydd parcio ac yn cynnwys plannu sgrîn newydd ar wal yr A55, plannu coed ar lwybr troed Rhodfa'r Tywysog a chadw'r planhigion presennol i'r dwyrain. Mae cyfle i wyrddu'r rhan isaf o'r wal sydd ar hyn o bryd yn wag ar yr adeilad presennol ac arddangos gwaith celf neu furlun uwchben i greu nodwedd tirmod.

Mae lled Rhodfa'r Tywysog wedi ei ostwng i 6m ac mae'r llinellau canol wedi cael eu gwaredu, gan roi blaenoriaeth i feiciau ar y ffordd, a chaniatáu ar gyfer creu lleiniau coed a sefydlu System Ddraenio Gynaliadwy a llwybr troed 3m o led i'r gogledd.

Darperir cyffordd bwrdd arafu wedi'i godi ar Ffordd Penrhyn gan gynnwys croesfannau heb eu rheoli.


Blaengwrt yr Orsaf

Mae'r maes parcio presennol yn yr Orsaf Drenau
ac ochr ddeheuol Rhodfa'r Tywysog wedi cael ei
ailosod fel man agored cyhoeddus er mwyn
atgyfnerthu'r cysylltiad o ganol y dref tua'r gogledd
i'r traeth/lan y môr a chreu porth gwyrdd i'r dref.

Defnyddiwyd deunyddiau cyferbyniol fel arwyneb ar Rodfa'r Tywysog a'i chodi'n uwch yn ogystal â chulhau'r briffordd i 6m er mwyn blaenoriaethu beicwyr a cherddwyr. Darperir cyfleusterau croesi newydd ar Victoria Avenue er mwyn gwella'r cysylltiad â'r promenâd.

Mae'r safle bysus presennol ar Victoria Avenue wedi cael ei symud i hen faes parcio'r Orsaf. Mae'r maes parcio ei hun wedi cael ei ddisodli gan ardal i gerddwyr, a byddai coed, llwyni a rhywogaethau llysieuol priodol yn cael eu plannu yno, a System Ddraenio Gynaliadwy lle bo hynny'n briodol. Byddai parapetau'r A55 yn cael eu gwella drwy gynnwys waliau gwyrdd neu nodweddion celf er mwyn gwella edrychiad y waliau brics presennol.

Byddai'r cynwysyddion plannu a'r arwyneb presennol ar ochr ddeheuol Victoria Avenue/Rhodfa'r Tywysog yn cael eu disodli gan blanhigion a chynwysyddion plannu newydd i gyd-fynd â'r rhai a gynigir ar gyfer hen faes parcio'r orsaf, gan atgyferthu'r cysylltiad â chanol y dref a chreu man cyhoeddus o ansawdd uchel i gysylltu'r dref gyda'r orsaf drenau a'r promenâd.



Dyluniad Cysyniad Blaengwrt Gorsaf Drenau Bae Colwyn

6.6 Dyluniad Cysyniad



Maes Parcio Ivy Street a Ffordd yr Orsaf

Mae Ffordd yr Orsaf yn un o ddwy ardal arbennig i gerddwyr ym Mae Colwyn sydd wedi cael eu gwella'n ddiweddar gan gynnig parth cyhoeddus o ansawdd uchel. Mae'r cysyniad ar gyfer Ffordd yr Orsaf yn cynnwys gwyrddu'r stryd drwy ddarparu System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law a phlannu coed ar hyd y llinell o elfennau draenio presennol.

Cynigir cynwysyddion plannu symudol newydd, a allai gynnwys gwaith celf a seddi, i ddiffinio ardaloedd ar gyfer gweithgareddau megis bwyta yn yr awyr agored.

Dylid lleoli coed a phlanhigion i gyfyngu parcio anghyfreithlon ar Ffordd yr Orsaf.


Mae maes parcio Ivy Street yn agos at y prif strydoedd siopa ym Mae Colwyn. Mae'r dyluniad cysyniad yn dangos y toiledau cyhoeddus wedi'u disodli â choed a mynediad i gerddwyr a'r gwasanaethau brys.

Mae'r maes parcio ei hun wedi cael ei ailosod gan gadw 38 o'r llfeydd parcio gan gynnwys 4 lle parcio hygyrch. Mae'r newid hwn yn caniatáu ar gyfer troedffordd a llwybr beicio ar y cyd 3.5 o led yn y gorllewin gan ffurfio cysylltiad â Ffordd Conwy a Rhodfa'r Tywysog, fel rhan o'r Llwybr Teithio Llesol cymeradwy hwn.


Dyluniad Cysyniad Maes Parcio Ivy Street a Ffordd yr Orsaf

6.6 Dyluniad Cysyniad

Adran Ffordd Penrhyn




Adran Rhodfa'r Tywysog



6.6 Dyluniad Cysyniad

Darlun o Ffordd Penrhyn



7 Llanrwst



7.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Tref fechan yn Nyffryn Conwy yn ne Bwrdeistref Sirol Conwy yw Llanrwst. Mae wedi'i lleoli ar lan Afon Conwy ac mae pont fwa 3 arch hardd o'r 16eg/17eg ganrif yn croesi'r afon.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47:Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn disgrifio diffyg rhai mathau o fannau agored a gorchudd canopi coed isel wrth eu mynegi fel canran o'r ffurf trefol.

Mae ardal yr astudiaeth yn canolbwyntio ar gyffordd Heol Ddinbych a Stryd Watling, o'r orsaf drenau yn y dwyrain hyd at uniad y ffyrdd ar Stryd y Bont yng ngorllewin a de'r dref.

Mae'r strydoedd a mannau o fewn yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. Heol Ddinbych;
2. Heol Watling a;
3. Stryd y Bont.



7.1 Ardal Astudiaeth



Heol Ddinbych yn edrych i'r gogledd-ddwyrain ar hyd Ffordd Abergele



Heol Ddinbych ar bont yr orsaf drenau yn edrych tua'r gorllewin



Heol Watling yn edrych i'r de o'r A548 Heol Ddinbych



Heol Ddinbych yn edrych i'r gorllewin am Stryd y Bont



Llwybr Glan yr Afon



Sgwâr Ancaster



Stryd y Bont a Sgwâr Ancaster




Heol Ddinbych i Faes yr Aradr

7.0 Llanrwst

7.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Mannau Agored


Mae'r ddarpariaeth mannau agored yn yr ardal astudiaeth yn dangos diffyg caeau chwarae a chwaraeon awyr agored er bod llawer o amwynder ffurfiol ar gael.



Gorchudd Canopi Coed

Ceir llynynnau o goed ar hyd afon Conwy, ffiniau caeau a llinellau trên, fodd bynnag, ychydig iawn o orchudd coed sydd yng nghanol y dref.


7.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun hwn yn dangos aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd, ac yn ystyried agweddau megis hamdden, cynefinoedd bywyd gwylt a chysgod.


Mae'r lefel aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd ar y cyfan yn isel yn yr ardal astudiaeth, ond ceir lefel uwch mewn rhai ardaloedd megis glan yr afon a'r cae chwarae sy'n gysylltiedig â Chanolfan Hamdden Llanrwst.



Dynodiadau

Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys y mwyafrif o Ardal Gadwraeth Llanrwst. Mae nifer o adeiladau rhestredig Gradd II yn yr ardal, yn ogystal ag Eglwys Blwyf Gradd I Sant Crwst a Phont Llanrwst.

7.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad

Mae meysydd parcio yn Heol Watling a Glasdir yn yr ardal astudiaeth. Mae gorsaf a rheilffordd Llanrwst yn ffurfio ffin ddwyreiniol yr ardal astudiaeth.


Mae llwybr Teithio Llesol yn rhedeg o'r Orsaf Drenau ar hyd Heol Ddinbych a Heol Watling i'r de tuag at Stryd y Bont. Mae Llwybr Cyhoeddus Glanrafon yn rhedeg ar hyd afon Conwy hefyd.



Hierarchaeth Stryd

Mae cefnffordd yr A470 Stryd y Bont yn rhedeg drwy Llanrwst i gyfeiriad y gogledd a'r de, gellir cael mynediad ati dros Bont Llanrwst a sawl ffordd fynediad leol arall sy'n cysylltu ag ardaloedd preswyl a busnesau lleol. Mae'r A548 yn rhedeg i gyfeiriad y dwyrain / gorllewin ac yn cysylltu â Stryd y Bont drwy system unffordd ar Sgwâr Ancaster gyda Heol Watling yn rhedeg i gyfeiriad y de.

7.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae Llanrwst yn dref hanesyddol yn Nyffryn Conwy ac yn gyrchfan i dwristiaid. Mae twristiaeth wedi'i grynhoi i dymor yr haf.

Mae gan y dref barth siopa gydnabyddedig ar hyd yr A548 Heol Ddinbych a'r A470 Stryd y Bont sy'n cynnwys yr ardal o'r orsaf drenau yn y dwyrain i'r llyfrgell yn y gogledd orllewin a Phont Llanrwst yn y de.

Mae'r mwyafrif o ardaloedd preswyl wedi'u diffinio gan anheddau pâr yn y gogledd orllewin ac anheddau teras yn y de a'r gogledd ddwyrain.

Cyrchfannau Allweddol

Mae sawl tirnod nodedig megis Pont Llanrwst ac Eglwys Blwyf Sant Crwst. I'r de orllewin o'r dref mae Castell Gwydir a Chapel Gwydir Uchaf.

Mae Llwybr Glanrafon yn llwybr deniadol ar hyd yr afon, gyda mynediad i'r afon ar gael ar y ddwy ochr.

7.3 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Tref hanesyddol ar hyd afon Conwy
- Canol tref deniadol gyda strydoedd cul a sgwâr marchnad
- Ardal Gadwraeth gyda nifer o adeiladau rhestredig
- Pont restredig Gradd I dros yr afon
- Man agored yn agos i ganol y dref a mynediad rhwydd at y cefn gwlad amgylchynol
- Llwybr Glanrafon
- Gorchudd coed da ger yr afon mewn rhai llefydd
- Ychydig iawn o aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd yng nghanol y dref
- Meysydd parcio presennol yng nghanol y dref
- Atyniadau hamdden a thwristiaeth yn agos at y dref

Cyfleoedd

- Diffinio pyrth canol y dref
- Gwella llwybrau Teithio Llesol
- Gwella cysylltiadau â'r orsaf drenau, yr ysgol a'r pwl nofio
- Gwyrddu'r sgwâr marchnad, gwella parth cyhoeddus a gwella'r flaenoriaeth i gerddwyr
- Gwella llwybr glanrafon drwy ddarparu mynediad gwell ac amrywio'r Isadeiledd Gwyrdd
- Lledu llwybrau troed ac ail-bwrpasu'r briffordd i flaenoriaethu cerddwyr, isadeiledd gwyrdd a darpariaeth i feicwyr
- Lliniaru traffig a gwella croesfannau
- Plannu coed, plannu llwyni, sefydlu System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law a waliau gwyrdd os oes digon o le
- Gwella arwyddion ar y prif ffyrdd dynesu


Gwendidau

- Strydoedd wedi'u dominyddu gan gerbydau a llwybrau culion
- Diffyg darpariaeth i feicwyr
- Diffyg isadeiledd gwyrdd yng nghanol y dref
- Arwyddion gwael a diffyg synnwyr o gyrraedd

Bygythiadau

- Mae Stryd y Bont yn ffurfio cefnffordd drwy ganol y dref
- Gofod cyfyngedig ar gyfer plannu coed a llwyni
- Ymyraethau ar y briffordd fabwysiedig
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau


7.3 Cyfleoedd a Heriau




7.3 Cyfleoedd a Heriau

1. Porth Heol Ddinbych

- Creu cysylltiad gwyrdd o'r orsaf drenau i ganol y dref
- Plannu coed a gwrychoedd yn y man gwyrdd presennol ger y fflatiau ar Heol Scotland a'r busnesau ar Stryd yr Aradr
- Lledu'r llwybrau troed er mwyn gwella'r flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr
- Rhesymoli llefydd parcio, lleihau'r ffordd gerbydau a phlannu coed a gerddi glaw y tu allan i siopau i ddiffinio porth canol y dref.
- Darparu mesurau lleddfu traffig drwy groesfannau anffurfiol wedi'u codi ac ardal a rannir mewn lleoliadau allweddol megis y gyffordd gyda Heol Watling a'r cysylltiad â Maes yr Ardadr/Co-op
- Ar ben deheuol Heol Ddinbych dylid ystyried culhau'r briffordd a diffinio'r baeau parcio a'r briffordd gydag arwyneb gwahanol i roi'r flaenoriaeth i gerddwyr rhwng Heol Watling a Stryd y Bont.
- Gosod to gwyrdd ar y safle bws



Paddington Street, Westminster, Llundain © GreenBlue Urban



7.3 Cyfleoedd a Heriau



2. Sgwâr Ancaster

- Dyma nodwedd allweddol yng nghanol y dref.
- Dylid gwella'r gofod cyhoeddus drwy osod wyneb a chelfi stryd newydd, a darparu mwy o gyfleoedd i blannu coed a gosod cynwysyddion blodau uchel.
- Gellir ymestyn y sgwâr ar draws Stryd y Bont a rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr drwy gulhau'r briffordd, creu mannau croesi anffurfiol wedi'u codi a newid wyneb y ffordd
- Dylid hefyd ystyried cael gwared ar yr encilfa a phlannu coeden a chreu gardd law yno'n lle.
- Gellir hefyd annog rhagor o seddau ar gyfer ciniawa yn yr awyr agored, a gosod cynwysyddion blodau y gellir eu symud i ddiifinio'r ardaloedd eistedd.



Brentford High Street Market Place, Kinnear Landscape Architects


7.3 Cyfleoedd a Heriau

3. Cyswllt Heol Watling


- Dyma gyswllt allweddol i'r ysgol, y pwll nofio, a'r maes parcio, sydd hefyd yn llwybr Teithio Llesol
- Dylid gwella'r amgylchedd i gerddwyr a beicwyr drwy greu llwybrau lletach a gwella'r cyfleusterau beicio ar y ffordd
- Culhau'r ffordd lle bo modd a chyflwyno croesfannau ar fwrdd arafu wedi'i godi
- Rhesymoli llefydd parcio a chyflwyno coed a gardd law i wyrddu'r stryd
- Gosod to gwyrdd ar y safle bws



Hammersmith, Fulham © GreenBlue Urban



7.3 Cyfleoedd a Heriau



4. Dynesfa Stryd y Bont

- Porth deheuol i ganol y dref
- Diffinio'r fynedfa i'r dref drwy greu bwrdd arafu wedi'i godi, gosod wyneb gwahanol ar y ffordd a chreu man cul gyda choed neu folard i arafu cerbydau
- Lledu llwybrau troed lle bo modd i wella'r amgylchedd i gerddwyr a hygyrchedd i bawb, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd hyn yn anodd yn sgil lled y stryd



Canol tref Altrincham, yn dangos y nodwedd porth a'r groesfan wedi'i chodi i gerddwyr


7.3 Cyfleoedd a Heriau

Dynesfa 5 Heol yr Orsaf

- Porth gogleddol canol y dref
- Diffinio'r fynedfa i'r dref drwy greu bwrdd arafu wedi'i godi, gosod wyneb gwahanol ar y ffordd a chreu man cul gyda choed neu folard i arafu cerbydau
- Lledu llwybrau troed lle bo modd i wella'r amgylchedd i gerddwyr a hygyrchedd i bawb, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd hyn yn anodd yn sgil lled y stryd



Croesfan yng Nghaer




7.3 Cyfleoedd a Heriau



6. Cyswllt Glan yr Afon

- Cyswllt gwyrdd drwy'r dref gyda chyfle i wella'r mynediad at lan yr afon ac annog pobl yno.
- Amrywio glaswellt amwynder ar ochr ddeheuol yr afon drwy blannu dolydd, coed a phlannu bylbiau ar lan yr afon
- Gwellu llwybrau troed, seddi, arwyddion a dodrefn stryd drwy ystyried ardaloedd picnic
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer seiclo a gwella cysylltiadau â chanol y dref





Copenhagen, Llan gan Steven Lasry ar Unsplash

7.4 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn yr astudiaeth gwaelodlin, gwerthusiad safle a chanfod materion a chyfleodd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, Teithio Llesol, Isadeiledd Gwyrdd pellach a fydd yn cael yr effaith mwyaf ar Lanrwst. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Cyffordd yr A548 Heol Ddinbych / Heol Watling;
- Porth Heol Ddinbych; a
- Heol Watling



7.4 Meysydd Blaenoriaeth



Cyffordd yr A548 Heol Ddinbych / Heol Watling

Cyffordd yr A548 Heol Ddinbych / Heol Watling

Mae adran orllewinol Heol Ddinbych a Heol Watling yn rhan o'r cylch unffordd drwy Llanrwst. Mae adran ddwyreiniol Heol Ddinbych yn ffordd ddwyffordd.

Cyflwr Presennol:

- Llwybrau troed cul (oddeutu. 1.1m - 3.25 o led)
- Ychydig o groesfannau sydd ar gael i gerddwyr.
- Dim darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd

Cyfleoedd:

- Gwella'r amgylchedd i gerddwyr
- Lledu llwybrau troed
- Gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr

7.4 Meysydd Blaenoriaeth

Porth Heol Ddinbych

Mae'r adran hon o Heol Ddinbych yn ffordd ddwyffordd. Mae'n cynnwys cofeb ryfel a mynediad i'r Orsaf Drenau

Cyflwr Presennol:

- Mae'r stryd yn llydan mewn rhai llefydd (oddeutu 4.82m – 12.33m) ac wedi'i dominyddu gan gerbydau.
- Parcio ar y stryd.
- Llwybrau troed cul (oddeutu 0.75m - 3.39m).
- Diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr.
- Mae rhywfaint o Isadeiledd Gwyrdd megis lleiniau glaswellt ond mae'r ddarpariaeth IG ar y cyfan yn brin iawn.
- Cysylltiad gwael i gerddwyr â'r Orsaf Drenau.

Cyfleoedd:

- Culhau'r briffordd ac ail-ddosbarthu'r gofod.
- Gwellu'r flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Lledu llwybrau troed.
- Gwellu cyfleusterau croesi i gerddwyr.
- Gwellu'r ddarpariaeth i feicwyr.
- Gwellu'r Ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd



Heol Ddinbych yn edrych tua'r gorllewin

7.4 Meysydd Blaenoriaeth



Heol Watling yn edrych tua'r de

Heol Watling

Mae system unffordd yn weithredol ar Heol Watling, sy'n darparu mynediad i'r ysgol gynradd, canolfan hamdden a maes parcio Heol Watling.

Cyflwr Presennol:

- Mae'r stryd yn gul ac wedi'i dominyddu gan gerbydau.
- Llefydd parcio ar bob ochr i'r stryd.
- Darpariaeth wael i feicwyr.
- Cyswllt allweddol i'r ysgol, y pwll nofio, a'r maes parcio.
- Llwybrau troed cul (oddeutu. 1.32m - 4.5m o led)
- Diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr.
- Dim darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd.

Cyfleoedd:

- Gwella'r amgylchedd i gerddwyr a seiclwyr.
- Gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr.
- Lledu llwybrau troed.
- Gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd.
- Ail-bwrpasu ardaloedd parcio i gynnig darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd

7.5 Dyluniad Cysyniad

Dyluniad Cysyniad

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer meysydd blaenoriaeth yn Llanrwst.

Mae'r dyluniad cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydynol tuag at adfywio strydoedd a mannau agored Llanrwst.

Prif nod y dyluniad cysyniad yw gwneud yr A548 Heol Ddinbych, Heol Watling yn fwy gwyrdd a chreu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr drwy blannu coed a llwyni, cyflwyno mesurau tawelu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi, gyda chyfleoedd gwell ar gyfer cerdded a beicio.

Mae'r dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu creu heb wybodaeth dopograffig, cyngor cludiant nac arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.





Mae'r cynigion yn anelu at wella'r parth cyhoeddus i gerddwyr drwy leihau lled y ffordd i 3m, a chreu o llwybr troed o leiaf 2m o led. Byddai croesfan syml DE606 heb ei reoli ar dwmpath ffordd â brig gwastad yn y gyffordd â Stryd y Bont yn ei gwneud yn haws i gerddwyr groesi.

Cynigir cyffordd bwrdd arafu wedi'i godi D3201 yng nghyffordd Heol Watling a'r A438 Heol Dinbych i arafu cyflymder cerbydau a rhoi blaenoriaeth anffurfiol i gerddwyr.

7.5 Dyluniad Cysyniad

Porth Heol Ddinbych

Mae'r dyluniadau cysyniad ar gyfer yr A548 Heol Ddinbych yn anelu at wella'r cysylltiad o'r orsaf drenau a gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd ym mhob man, gan gynnwys creu ffocws ar gyfer y Gofeb Ryfel.


Mae lled y ffordd wedi'i leihau i 6m a llyfdd parcio wedi'u ffurfioli ar yr ochr ddeheuol. Cynigir cyffordd bwrdd arafu wedi'i godi DE201 yn yr orsaf i leihau cyflymder cerbydau a gweithredu fel trothwy i brif ardaloedd siopa Llanrwst.

Cynigir croesfan DE606 syml heb ei reoli ar dwmpath ffordd â brig gwastad i gysylltu'r ardaloedd preswyl yn y gogledd a'r gofeb ryfel.

Mae croesfannau anffurfiol hefyd wedi cael eu hychwanegu at ffyrdd ymyl a'r groesfan bresennol a reolir i'r gorllewin wedi'i chadw fel rhan o gyffordd bwrdd arafu wedi'i godi.

Cynigir plannu coed a gwrychoedd ychwanegol i ffurfioli'r gofeb ryfel a gwella'r man agored presennol, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn rhaid cytuno ar hyn gyda pherchnogion tir trydydd parti.

Cynigir plannu coed a llwyni ar bob ochr y ffordd er mwyn galluogi'r posibilrwydd o integreiddio System Ddraenio Gynaliadwy.



Yr A548, Porth Heol Ddinbych

7.5 Dyluniad Cysyniad



Heol Watling

Heol Watling

Mae Heol Watling yn rhan o'r cylch unffordd drwy Llanrwst, mae'r traffig yn symud i gyfeiriad y de gan gysylltu'r A548 Heol Ddinbych â'r A470 Stryd y Bont.

Mae'r dyluniad cysyniad yn anelu at wella'r profiad i gerddwyr yn ogystal â darparu Isadeiledd Gwyrdd i wyrddu'r stryd.


I'r gogledd ar ôl y gyffordd bwrdd arafu wedi'i godi DE201, yn y gyffordd â'r A548 Heol Ddinbych, mae'r ffordd yn culhau i 3m, a lleiheir nifer y llefydd parcio a lleidir y llefydd sydd ar ôl. Mae'r llefydd parcio i'r de wedi'u cadw a'u lledu lle bo modd. Dylid ystyried gosod wyneb hydraidd ar faeau parcio.

Mae llwybrau troed wedi'u lledu ar y ddwy ochr i o leiaf 2m ar gyfer y llwybr gyfan, gan ddarparu croesfannau wedi'u codi ar gyffwrdd ffyrdd ymyl a chroesfannau anffurfiol wedi'u codi mewn pum lleoliad ar Heol Watling.

Cynigir System Ddraenio Cynaliadwy newydd a phlannu coed ar ddiwedd y llefydd parcio os oes digon o le.

7.5 Dyluniad Cysyniad

Adran Heol Ddinbych



8 Llandudno



8.1 Ardal Astudiaeth

Trosolwg

Llandudno yw tref fwyaf Conwy. Mae'n gyrchfan glan môr poblogaidd ymhlith twristiaid ac yn gweithredu fel canolfan fasnachol a siopa isranbarthol.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn nodi fod Isadeiledd Gwyrdd yn brin iawn yng nghanol y dref ac yn yr ardaloedd preswyl amgylchynol.

Mae (CBSC) yn cynnig gwelliannau parth cyhoeddus, gan gynnwys ychwanegu gwyrddni i'r strydoedd a gwella blaenoriaeth i gerddwyr a Theithio Llesol.

Mae'r ardal astudiaeth yn canolbwyntio ar y parth siopa yng nghanol y dref, mannau agored pwysig megis Gerddi'r North Western, cysylltiadau â'r orsaf drenau a ffyrdd dynesu allweddol.

Mae'r strydoedd a mannau o fewn yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. Gloddaeth Street
2. Mostyn Street
3. Gerddi'r North Western
4. Lloyd St, Chapel St, Madoc St, Augusta St
5. Gorsaf Drenau
6. Vaughan Street



8.1 Ardal Astudiaeth



Gloddaeth Street



Mostyn Street



Gerddi'r North Western



Lloyd Street



Madoc Street



Augusta Street



Gorsaf Drenau



Vaughan Street

8.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Mannau Agored

Mae diffyg manau agored cyffredinol yn Llandudno. Mae manau agored trefol presennol o fewn y dref yn fychain ac yn cynnwys Gerddi'r North Western, Sgwâr Tywysog Edward a'r ardal o amgylch y senotaff a mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd.

Mae manau agored yn yr ardal ehangach yn cynnwys y promenâd a'r traethau, caeau chwarae a chyfleusterau chwaraeon gan gynnwys Cae Criced Llandudno, parciau a gerddi megis Gerddi'r Fach a Gerddi Haulfre a'r Gogarth gan gynnwys y parc gwledig, llwybrau cerdded, golygfeydd panoramig ac atyniadau i ymwelwyr.

Gorchudd Canopi Coed


Ychydig iawn o orchudd canopi coed sydd yn Llandudno ac mae prinder cyffredinol o goed ar y strydoedd. Mae rhai coed yn bodoli o fewn y dref ac mae tystiolaeth o rodfeydd coed hanesyddol ar hyd rhai o'r strydoedd allweddol megis Mostyn Street a Vaughn Street. Mae rhai o'r coed presennol yn dirywio neu wedi'u colli dros y blynyddoedd ac nid yw'r rhodfeydd coed yn gyflawn bellach.

8.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun yn dangos yr ardaloedd lle mae isadeiledd Gwyrdd gyda nifer o swyddogaethau wedi'u lleoli. Mae'n edrych ar agweddau megis hamdden, cysgod a chynefinoedd bywyd gwylt. Mae lefel aml-swyddogaeth canol y dref yn isel ar y cyfan. Mae'r ardaloedd â lefel aml-swyddogaeth uwch o fewn ardal yr astudiaeth yn cynnwys ardaloedd o goed ar y strydoedd a Gerddi'r North Western.



Dynodiadau

Mae Llandudno'n gyrchfan glan môr Fictoraidd gyda nifer uchel o adeiladau rhestredig a phensaerniaeth o ansawdd uchel. Mae'r mwyafrif o ardal yr astudiaeth wedi'i chynnwys yn yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r Gogarth wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Gadwraeth Arbennig, a Gwarchodfa Natur Leol. Mae hefyd ardaloedd o Goed Hynafol.

8.0 Llandudno

8.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad

Mae Llwybr Arfordir Cymru'n rhedeg ar hyd glan y môr. Mae llwybrau Teithio Llesol cymeradwy hefyd o fewn ardal yr astudiaeth ar hyd nifer o'r strydoedd allweddol.


Mae nifer o feysydd parcio o fewn y dref yn ogystal â llefydd parcio ar hyd y prif strydoedd.



Hierarchaeth Stryd

Mae'r cynllun strydoedd o fewn Llandudno'n dilyn patrwm grid. Mae Gloddaeth Street yn un o brif lwybrau'r dref sy'n cysylltu Traeth y Gogledd â Phenmorfa.

8.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae'r dref yn brif ganolfan ar gyfer siopa a masnachu yn yr ardal. Mae'r prif barth siopa wedi'i leoli y tu ôl i lan y môr ar hyd Mostyn Street ac o fewn Canolfan Siopa Victoria. Mae sawl parc manwerthu wedi'u lleoli i'r dwyrain o ardal yr astudiaeth.

Mae'r cynllun strydoedd yn gwneud y defnydd gorau o lan y môr gyda'r ardal siopa o fewn tafliad carreg a'r ardaloedd preswyl amgylchynol.

Mae Mostyn Broadway, Mostyn Street ac Upper Mostyn Street yn rhedeg yn gyfochrog â'r Promenâd. Mae'r strydoedd hyn, sy'n ffurfio'r prif ardal siopa, yn nodedig iawn yn sgil eu ffyrdd a'u palmentydd llydan sy'n creu ymdeimlad o le ar gyfer yr adeiladau ar y strydoedd.

Mae nifer fawr o adeiladau o ansawdd uchel yng nghanol y dref, nifer ohonynt yn rhestredig. Blociau teras ag arddull pensaernïol nodedig yw'r mwyafrif o'r rhain, gyda 3-4 llawr fel arfer.

Cyrchfannau Allweddol

Mae Llandudno'n gyrchfan glan môr poblogaidd ymhlith twristiaid gydag atyniadau i ymwelwyr yn cynnwys Parc Gwledig y Gogarth, y môr a thraethau, car cebl, tramffordd, promenâd a phier a gweithgareddau awyr agored megis cerdded a chwaraeon eira.

8.3 Cefndir

CDLI15: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llandudno (Mabwysiadwyd ym mis Mawrth 2015)

Mae Llandudno'n dref a chyrchfan glan môr gyda nifer o adeiladau o ansawdd uchel. Mae'n ganolfan fanwerthu bwysig yn yr ardal.

Mae crynodeb o nodweddion y dref a rhai materion parth cyhoeddus isod.

Topograffeg

Mae Bae'r Gogarth a Bae Llandudno'n ymestyn oddeutu 3.2 cilomedr rhwng dau bentir calchfaen carbonifferaidd nodweddiadol, y Gogarth yn y gorllewin a Thrwyn y Fwch yn y dwyrain. Mae'r ddogfen yn nodi bod y mwyafrif o Landudno '*wedi'i hadeiladu ar dir gwastad rhwng y Gogarth a Thrwyn y Fwch ac yn ymestyn i Benmorfa sy'n wynebu Bae Conwy.*' Mae golygfeydd hyfryd i'w gweld o'r dref, y bae a'r ardal ehangach o'r ddau bentir.

Mae'r deunyddiau adeiladu cyffredin yn cynnwys calchfaen lleol gyda rendrad/stwco ar adeiladau i greu edrychiad cydlynol.

Patrwm Strydoedd

Mae'r cynllun strydoedd yn dilyn patrwm grid gyda'r ardal fasnachol wedi'i lleoli y tu ôl i lan y môr a'r promenâd yn rhedeg ar hyd y bae. Mae'r brif ardal siopa'n cynnwys Mostyn Broadway, Mostyn Street, ac Upper Mostyn Street.

Mae'r mwyafrif o'r strydoedd yn llydan gyda phalmentydd mawr ac mae nifer o adeiladau masnachol yn agor yn syth i'r stryd. Mae croesffyrdd mawr ac adeiladau cornel mawr hefyd yn nodweddiadol o'r ardal.

Deunyddiau a Manylion yr Ardal Gadwraeth

- *Calchfaen Lleol*
- *Tywodfaen coch a melyn*
- *Carreg Portland.*
- *Ithfaen Penmaenmawr*
- *Brics coch Rhiwabon*
- *Brics melyn*
- *Rendrad*
- *Toeau llechi*
- *Placiau carreg â dyddiad*
- *Ffenestri lliw*
- *Llingysiau teils*
- *Ffenestri Codi*
- *Drysau panelog traddodiadol*
- *Teils Mosäig*
- *Rheiliau haearn bwrw*
- *Canopiâu gwydr*

Graddfa a Maint yr Adeiladau

Mae'r mwyafrif o'r adeiladau yn yr ardal yn gyson o ran graddfa ac yn cynnwys 3 neu 4 llawr fel arfer.

Golygfeydd Pwysig

- *I bob cyfeiriad o'r Promenâd*
- *Ar hyd ffyrdd sy'n gorwedd ar ongl sgwâr i lan y môr megis Queens Road, Vaughan Street, Clonmel Street, St. George's Place, North Parade a Church Walks.*
- *Ar hyd y prif strydoedd gan gynnwys Mostyn Street, Upper Mostyn Street, Lloyd Street a Gloddaeth Street*
- *O'r Gogarth tua'r dref*

Adeiladau Rhestredig Allweddol

Promenâd

- *The Grand Hotel*
- *Gwesty St George*
- *Gwesty'r Imperial*
- *Gwesty'r Queens*
- *Gwesty'r Marine*
- *Gwesty'r Hydro*
- *Venue Cymru*
- *Gwesty'r Washington*
- *Y Pier*

Mostyn Street:

- *Capel Tabernacl*
- *Banc y National Westminster*
- *Banc HSBC*
- *Llyfrgell*
- *Eglwys y Drindod Sanctaidd*
- *Eglwys Sant Ioan*

Vaughan Street:

- *Gwesty'r North Western*
- *Swyddfa'r Post*

Lloyd Street:

- *Neuadd y Dref*
- *Hen Capel Ebenser*

Gloddaeth Street:

- *Y Palladium*
- *Capel Seilo*

Adeiladau Anrhestredig Allweddol

- *Teras Chapel Street*
- *Gwesty'r Clarence*

Mannau Agored a Llystyfiant

Oni bai am y man agored ar y promenâd, mae datblygiadau dwys wedi arwain at ddiffyg mannau agored mawr yng nghanol y dref. Mae rhai mannau agored trefol bychain yn bodoli gan gynnwys:

- *Gerddi'r North Western*
- *Sgwâr y Tywysog Edward a'r ardal o amgylch y senotaff*
- *Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd yn Trinity Square*

Mae rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ardaloedd ar hyd y promenâd, Sgwâr y Tywysog Edward a Gerddi'r North Western yn ddiweddar.

Mae'r mannau agored eraill gerllaw'n cynnwys:

- *Gerddi'r Fach*
- *Gerddi Haulfre*
- *Llethrau isaf y Gogarth*
- *Penmorfa*
- *Môr*
- *Traethau*

Mae tirwedd deniadol ar y promenâd yn ogystal â choed ar sawl stryd. Mae gerddi deniadol mewn rhai eiddo ar lan y môr.

8.3 Cefndir

Problemau Parth Cyhoeddus

Mae rhai o'r problemau mewn perthynas â pharth cyhoeddus yr Ardal Gadwraeth wedi'u rhestru isod.

- Wyneb gwael ar lwybrau troed
- Dodrefn stryd nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd ac wedi'u lleoli'n wael
- Annibendod Stryd
- Gormod o arwyddion traffig, polion rhyddlyd
- Parcio anghyfreithlon ar y stryd
- Chwyn yn tyfu ar balmentydd
- Biniau masnachol o flaen adeiladau
- Diffyg gwaith cynnal a chadw ar gyrbau a phalmentydd yn sgil gwaith trwsio dros dro a slabiau/brics rhydd
- Rheiliau gwael i gerddwyr ger croesfannau
- Sbwriel yn arbennig mewn corneli anodd eu cyrraedd
- Seddi cyhoeddus gwael
- Goleuadau gwael ar llwybrau
- Diffyg wyneb a gwaith atgyweirio ar lwybrau mynediad cefn siopau
- Graffiti
- Prinder coed
- Mae angen gwaredu'r ffensys llechi mewn rhai llefydd
- Triniaethau ffin anaddas
- Ymylon palmant concrit
- Nifer uchel o ymwelwyr yn yr haf ac ychydig iawn o ymwelwyr yn y gaeaf, fodd bynnag, mae nifer y digwyddiadau a nifer yr ymwelwyr dros y gaeaf yn cynyddu

Gwelliannau i'r Parth Cyhoeddus

Mae'r gwelliannau i'r parth cyhoeddus a awgrymwyd yn y ddogfen yn cynnwys:


- Deunydd a manylion o ansawdd gwell o ran y palmentydd
- Cysondeb o ran cynlluniau goleuadau ac arwyddion
- Plannu a chynnal a chadw lleiniau a choed ar strydoedd
- Rheoli traffig a gwasanaethu

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Plannu Coed Trefol Conwy

Mae'r cyngor wedi cwblhau cynlluniau plannu coed yn Llandudno yn ddiweddar. Dyma rai ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect:

- Lloyd Street
- Cae Criced Llandudno
- Ystâd Cartrefi St Andrews

Mae'r cynigon ar gyfer Lloyd Street wedi'u nodi isod. Nod y prosiect hwn yw ail-sefydlu'r rhodfa goed wreiddiol.



8.4 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Tref fwyaf Conwy
- Cyrchfan glan môr poblogaidd ymhlith twristiaid gyda chynnyg twristaidd cryf
- Canolfan siopa a masnachu allweddol
- Cysylltiad amlwg â glan y môr
- Ardal Gadwraeth gyda nifer uchel o adeiladau rhestredig ac enghreifftiau o bensaerniaeth o ansawdd uchel
- Rhodfeydd coed hanesyddol gyda rhywfaint o goed ar strydoedd
- Palmentydd llydan

Cyfleoedd

- Gwella pyrth canol y dref
- Lleihau goruchafiaeth cerbydau a'r ddarpariaeth parcio ar y stryd
- Adfywio craidd canol y dref i greu amgylchedd o ansawdd uchel i gerddwyr a chefnogi twristiaeth a'r cynnyg masnachol ym mhrif barth siopa'r Sir
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer llefydd i eistedd/cyfarfod, bwyta yn yr awyr agored ac isadeiledd gwyrdd
- Adfer rhodfeydd coed hanesyddol a gwella'r coed sydd eisoes yn bodoli
- Adfywio Gerddi'r North Western fel gofod cyhoeddus o ansawdd uchel a chalon canol y dref
- Gwella cysylltiadau â'r Orsaf Drenau i gerddwyr a seiclwyr
- Gwella'r cysylltiad i gerddwyr a beicwyr rhwng Traeth y Gogledd a Phenmorfa
- Ystyried cyflwyno system unffordd ar Mostyn Street i wella'r parth cyhoeddus a lleihau mynediad cerbydau
- Blaenoriaethu cerddwyr a seiclwyr drwy gulhau'r briffordd, rhesymoli llefydd parcio ac ail-bwrpasu gofod ar gyfer isadeiledd gwyrdd, llwybrau troed a darpariaeth beics
- Lleihau traffig a chyflymder cerbydau drwy wneud addasiadau i'r briffordd, lleihau radiws cyrbau a mannau croesi wedi'u codi
- Plannu coed a llwyni, creu System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law a phlannu blodau addurnol ar hyd strydoedd


Gwendidau

- Strydoedd wedi'u dominyddu gan geir
- Ffyrdd llydan gyda radiysau cyffyrdd mawr
- Ardaloedd mawr o lefydd parcio ar y stryd sy'n blaenoriaethu cerbydau
- Yn gyffredinol, bioamrywiaeth ac aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd gwael
- Diffyg mannau agored mawr
- Mae'r coed presennol wedi'u hamgáu mewn llawr caled
- Diffyg darpariaeth ar gyfer beicwyr
- Parth cyhoeddus gwael gydag ychydig iawn o lefydd i eistedd/cyfarfod
- Croesfannau gwael i gerddwyr

Bygythiadau

- Colli llefydd parcio ar y stryd
- Ychydig iawn o ofod sydd gan rodfeydd coed hanesyddol i dyfu ac maent yn dirywio'n raddol
- Ymyraethau ar y briffordd fabwysiedig
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau

8.4 Cyfleoedd a Heriau



8.4 Cyfleoedd a Heriau

1. Porth Gloddaeth Street

- Ffordd allweddol sy'n arwain at ganol y dref a chysylltiad hanfodol rhwng Traeth y Gogledd a Phenmorfa
- Cyfle i leihau'r ffordd i un lôn a gosod darpariaeth arbennig i feicwyr
- Cyfle i resymoli llefydd parcio ar y stryd a phlannu coed, gosod System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law a gwella'r ddarpariaeth blodau addurnol
- Cyfle i blannu er mwyn rhannu'r ardaloedd parcio a chreu cysylltiad gwyrdd cryf rhwng Traeth y Gogledd a Phenmorfa
- Cyfle i flaenoriaethu cerddwyr a lleddfu traffig drwy wella'r croesfannau i gerddwyr a chulhau ffyrdd a gosod twmpathau
- Rhesymoli llefydd parcio a chael gwared â'r trefniadau parcio yn y llain ganolog a phlannu coed, creu gofod gwyrdd a sefydlu System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law er mwyn gwyrddu'r ardal ac ysgafnu'r awyrgylch adeiledig
- Gwella cylchfannau Mostyn Street a Chapel Street drwy blannu coed a llwyni a lleihau'r briffordd/llawr caled
- Darparu llefydd bwyta awyr agored a defnyddio cynwysyddion plannu blodau symudol i ddiffinio ardaloedd eistedd ac annog ciniawa yn yr awyr agored
- Ystyried polion goleuadau byw 'gwyrdd' wedi'u hól-osod




Croesfan wedi'i chodi i gerddwyr yn Altrincham



Coed wedi'u plannu yn y llain ganol yn Northwood Hills.
Ffynhonnell delwedd: GreenBlue Urban



8.4 Cyfleoedd a Heriau



Llwybr beics, coed a llefydd i eistedd yn Sauchiehall Street, Glasgow. Llun © GreenBlue Urban



Gardd law, coed a seddi ar White Hart Lane. Ffynhonnell delwedd: Robert Bray Associates



Parth cyhoeddus wedi'i ail gydbwysu er mwyn rhoi rhagor o flaenoriaeth i gerddwyr yn Fishergate, Preston. Llun © www.lancs.live.co.uk

2. Mostyn Street

- Stryd siopa allweddol wedi'i dominyddu gan gerbydau a pharcio sydd angen ei blaenoriaethu ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- Cael gwared ar barcio ar un ochr i'r stryd a chyflwyno llwybr beicio dwy ffordd
- Adfer y rhodfa goed hanesyddol a gwella'r ardal goed bresennol drwy gulhau'r briffordd a rhesymoli'r parcio i greu lle ar gyfer plannu coed newydd a System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law
- Cyfle i flaenoriaethu cerddwyr a lleddfu traffig drwy wella'r croesfannau i gerddwyr a chulhau ffyrdd a gosod twmpathau
- Gwella llefydd bwyta awyr agored a defnyddio cynwysyddion plannu blodau symudol i ddiffinio ardaloedd eistedd ac annog ciniawa yn yr awyr agored
- Tacluso'r stryd a symud celfi stryd diangen a rheiliau cerddwyr
- Ystyried defnyddio cynwysyddion blodau uchel a seddi i gyflwyno mwy o wyrddni a chyfleoedd i eistedd er mwyn cynyddu amser aros.
- Ystyried polion goleuadau byw 'gwyrdd' wedi'u hŏl-osod



Strydoedd gwyrdd yn Norra Djurgårdsstaden, Sweden. Ffynhonnell delwedd: Landezine



Ardaloedd bwyta awyr agored yng Nghaer

8.4 Cyfleoedd a Heriau

3. Gerddi'r North Western

- Cyfle i wella Gerddi'r North Western gyda gofod cyhoeddus newydd, pwyntiau ffocws/nodwedd dŵr, ardaloedd bwyta, cyfleoedd i chwarae ac Isadeiledd Gwyrdd gwell.
- Cyflwyno llwybr beics arbennig drwy Erddi'r North Western i gysylltu Mostyn Street a Vaughan Street

4. Lloyd St, Chapel St, Madoc St, Augusta St


- Rhesymoli'r parcio i wneud lle ar gyfer coed a system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law
- Blaenoriaethu cerddwyr a lleddfu traffig drwy greu croesfannau i gerddwyr gan gulhau ffyrdd a gosod twmpathau, yn arbennig y tu allan i siopau neu grwpiau o gaffis/bwyta i bariau er mwyn gwella'r amgylchedd a chynyddu amseroedd aros
- Gwella llefydd bwyta awyr agored a defnyddio cynwysyddion plannu blodau symudol i ddiffinio ardaloedd eistedd ac annog ciniawa yn yr awyr agored
- Ystyried defnyddio cynwysyddion blodau uchel a seddi i gyflwyno mwy o wyrddni a chyfleoedd i eistedd er mwyn cynyddu amser aros.





Gofod cyhoeddus yn 28. Rijna Square, Y Weriniaeth Tsiec




Gofod gwell ar gyfer cerddwyr, plannu coed a gardd law ar Station Road, Ashington. Flynhonnell delwedd: GreenBlue Urban



8.4 Cyfleoedd a Heriau



Parth cyhoeddus gorsaf drenau
Caer. Llun gan Rept0n1x (cc-by-
sa/3.0)



Gardd law o amgylch y coed presennol yn White Hart Lane.
Ffynhonnell delwedd: Robert Bray Associates

5. Porth yr Orsaf

- Creu porth gwyrdd i'r dref gyda pharth cyhoeddus ac Isadeiledd Gwyrdd o ansawdd uchel
- Rhesymoli llawr caled i gulhau'r briffordd a chreu amgylchedd gyda ffocws ar gerddwyr a chyfleusterau croesi gwell
- Plannu coed, blodau addurnol, gosod seddi a phwynt ffocws i ddiffinio'r gofod
- Darparu arwyddion cyfeiriadol

6. Vaughan Street


- Gwaredu'r llefydd parcio ar un ochr o'r stryd a chyflwyno llwybr seiclo dwyffordd i ddarparu cysylltiad â chanol y dref a gwella'r llwybr Teithio Llesol arfaethedig. Ystyried lleihau'r llwybr cerdded i ymgorffori llwybr beics
- Gwella'r coed presennol drwy waredu'r llawr caled a chreu System Ddraenio Gynaliadwy ar ffurf gardd law o amgylch y safle, ynghyd â llefydd i eistedd. Plannu coed ychwanegol i atgyfnerthu'r rhodfa goed hanesyddol
- Cyfle i flaenoriaethu cerddwyr a lleddfu traffig drwy wella'r croesfannau i gerddwyr a chulhau ffyrdd a gosod twmpathau

8.5 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn astudiaeth gwaelodlin, gwerthuso safle a chanfod problemau a chyfleodd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi cael eu nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thim prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, Teithio Llesol, Isadeiledd Gwyrdd pellach a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar Landudno. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Vaughan Street
- Gerddi'r North Western
- Mostyn Street



8.5 Meysydd Blaenoriaeth



Edrych tua'r gogledd ddwyrain ar hyd Vaughan Street

Vaughan Street

Mae Vaughan Street yn stryd allweddol yn Llandudno ac yn cysylltu'r Orsaf Drenau gyda'r prif strydoedd siopa a glan y môr.

Cyflwr Presennol:

- Mae'r coed presennol wedi'u hamgáu mewn llawr caled ac yn dirywio.
- Adeiladau rhestredig ar hyd y stryd.
- Llwybrau troed llydan (oddeutu 3.83 - 5.12m sy'n briffordd fabwysiedig).
- Wedi'i dominyddu gan gerbydau.
- Priffordd lydan (oddeutu 13.26m – 14.23m).
- Mae'r stryd yn cynnwys llefydd parcio tacsis, llefydd parcio anabl, safle bysus a man llwytho.
- Llefydd parcio ar bob ochr i'r stryd.
- Diffyg darpariaeth ar gyfer beicwyr.
- Parth cyhoeddus o ansawdd gwael.
- Ychydig o groesfannau sydd ar gael i gerddwyr.

Cyflleoedd:

- Rhesymoli llefydd parcio, culhau'r briffordd neu gulhau'r llwybrau troed. Ail-ddosbarthu'r gofod i wella Isadeiledd Gwyrdd a darpariaeth beicio.
- Gwellu'r flaenoriaeth i gerddwyr.
- Gwellu'r ddarpariaeth groesi i gerddwyr.
- Gwellu'r ddarpariaeth i feicwyr.
- Gwellu'r Ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd
- Adfer rhodfeydd coed hanesyddol a gwella'r coed sydd eisoes yn bodoli

8.5 Meysydd Blaenoriaeth

Gerddi'r North Western

Mae Gerddi'r North Western yn fan agored allweddol yn Llandudno. Mae rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ardal yn ddiweddar.

Cyflwr Presennol:

- Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnwys coed, planhigion ac ardaloedd i eistedd.
- Diffyg darpariaeth ar gyfer beicwyr.
- Diffyg darpariaeth croesi i gerddwyr.
- Mae rhai ardaloedd plannu'n peri rhwystrau i symud ac yn cyfyngu ar olygfeydd.

Cyfleoedd:

- Gwella'r gofod cyhoeddus.
- Gwella'r ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd ac amrywio planhigion er budd bywyd gwylt a bioamrywiaeth.
- Gwella'r ddarpariaeth i feicwyr.
- Creu gofod hyblyg ar gyfer digwyddiadau fel ffocws i ganol y dref.
- Gwella'r ddarpariaeth groesi ar gyfer cerddwyr.



Gerddi'r North Western

8.5 Meysydd Blaenoriaeth



Edrych i'r gogledd orllewin ar hyd Mostyn Street o Erddi'r North Western



Edrych i'r gogledd orllewin ar hyd Mostyn Street o'r gyffordd gyda Clonmel Street a Trinity Square

Mostyn Street

Mae Mostyn Street yn un o'r strydoedd siopa allweddol yn Llandudno.

Cyflwr Presennol:

- Mae'r coed presennol wedi'u hamgáu mewn llawr caled a rhai ohonynt yn dirywio.
- Adeiladau rhestredig ar hyd y stryd.
- Llwybrau troed llydan mewn rhai ardaloedd (oddeutu 2.5 - 6.75m sy'n briffordd fabwysiedig).
- Priffordd lydan (oddeutu 9.36m - 12.32m).
- Ardaloedd parth cyhoeddus perchnogaeth preifat ger blaen siopau a dan ganopïau siopau.
- Wedi'i dominyddu gan gerbydau.
- Llefydd diffiniedig ar gyfer parcio ar y stryd.
- Mae'r stryd yn cynnwys sawl safle bws a llefydd parcio tacsis.
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr.
- Diffyg darpariaeth ar gyfer beicwyr.
- Parth cyhoeddus o ansawdd gwael.
- Ychydig o ddarpariaeth/croesfannau sydd ar gael i gerddwyr.

Cyflleoedd:

- Culhau'r ffordd gerbydau a rhesymoli baeau parcio. Ail-ddosbarthu'r gofod i wella Isadeiledd Gwyrdd a darpariaeth beicio.
- Adfer rhodfeydd coed hanesyddol a gwella'r coed presennol
- Gwella'r flaenoriaeth i gerddwyr.
- Gwella'r ddarpariaeth croesi i gerddwyr.
- Gwella'r ddarpariaeth i feicwyr.
- Gwella'r Ddarpariaeth Isadeiledd Gwyrdd
- Gwella'r parth cyhoeddus.
- Annog bwyta yn yr awyr agored.

8.6 Dyluniadau Cydsyniad

Dyluniad Cysyniad Llandudno

Cynhyrchwyd dyluniadau cysyniad Cam 2 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain mewn ardaloedd blaenoriaeth yn Llandudno gan gynnwys Vaughan Street, Gerddi'r North Western a Mostyn Street.

Mae'r dyluniad cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth Isadeiledd Gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parh cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio prif strydoedd a mannau agored cyhoeddus Llandudno.


Prif nod y dyluniad cysyniad yw gwneud coridorau Mostyn Street a Vaughan Street yn fwy gwyrdd a gwella Teithio Llesol, gan greu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr drwy blannu nifer o goed a phlanhigion, cyflwyno mesurau tawelu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi, gyda chyfleoedd gwell ar gyfer cerdded a beicio.

Mae dyluniadau yn gysyniadol ac wedi cael eu cynhyrchu heb wybodaeth dopograffigol, cyngor cludiant neu arolygon technegol megis gwasanaethau a chyfleustodau.



Dyluniad Cysyniad Llandudno

8.6 Dyluniadau Cydsyniad



Vaughan Street

Vaughan Street

Mae Vaughan Street yn cysylltu Gorsaf Drenau Llandudno â'r brif ardal siopa ar hyd Mostyn Street ac â lan y môr drwy'r man agored cyhoeddus yng Ngerddi'r North Western.

Mae'r cynigion yn anelu at greu coridor gwyrdd o'r Orsaf Drenau sy'n blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr. Lleiheir lled y ffordd i 6m, gan gadw'r bae llwytho a'r llefydd parcio ar ochr ddeheuol Vaughan Street, a gwaredu'r llefydd parcio, bae llwytho a'r safle bysus o'r ochr ogleddol i ddarparu ar gyfer llwybr beics.

Mae llwybr beics DE313 (dwyffordd) 3m o led wedi'i lleoli ar ochr ogleddol Vaughan Street er mwyn gwella'r ddarpariaeth i feicwyr ac o'r orsaf.

Lledwyd y llwybrau troed presennol i o leiaf 3m. Mae'r gwaith plannu coed newydd yn cwblhau'r rhodfa goed dameidiog, a bydd gwllau plannu hefyd yn cael eu hychwanegu at y coed presennol er mwyn gwella'r parth gwreiddio a gwyrddu'r stryd.

Mae'r cynigion yn cynnwys croesfannau DE606 syml heb eu rheoli ar dwmpathau ffordd â brig gwastad ar Vaughan Street ac ar draws cyffyrdd y ffydd ymyl er mwyn gwella croesfannau i gerddwyr.

8.6 Dyluniadau Cydsyniad

Gerddi'r North Western


Mae'r dyluniad cysyniad yn ail-drefnu'r ardal i greu gofod mwy hyblyg y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ystod o swyddogaethau gan wella Teithio Llesol. Mae'r trothwyon yn creu synnwyr o gyrraedd a byddai wynebau ffyrdd yn cael eu codi gan leihau uchder ymylon palmant (megis 50mm) mewn ardaloedd i gerddwyr a seiclwyr a chreu amgylchedd i gerddwyr.

Cynigir llwybr unfordd ar Mostyn Street gyda thraffig yn teithio i'r gogledd orllewin a chulhau'r briffordd i 3m, gan gadw rhai llefydd parcio i'r gogledd ger Gerddi'r North Western. Bydd hyn yn lleihau goruchafiaeth cerbydau ac yn integreiddio'r llefydd.

Cadw ac ail-leoli'r cerfluniau presennol a gosod nodwedd dŵr yng nghanol y gofod i greu man casglu a gofod digwyddiadau amlwg. Byddai'r coed yn nodi'r prif gyfeiriad teithio.

Lleihau'r system unfordd ar Vaughan Street sy'n cysylltu â Ffordd Conwy a Mostyn Broadway o ddwy lôn i un lôn 3m o led, er mwyn parhau â'r lôn seiclo DE313 (dwyffordd) 3m o led o'r orsaf drenau. Mae'r lôn seiclo'n darparu cysylltiad â Llwybr 5 Beicio Cenedlaethol ar hyd y promenâd. Mae llwybr beics o Ffordd Conwy'n mynd ar draws Gerddi'r North ac ar hyd Mostyn Street. Mae llwybr beics hefyd wedi'i nodi ar hyd Mostyn Broadway er mwyn sicrhau cysylltiad ehangach ar hyd y llwybrau Teithio Llesol cymeradwy hyn.

Gwaredu rhwystrau cerbydau a chyflwyno croesfan DE606 syml heb ei rheoli rhwng y gwesty ar Vaughan Street a Gerddi'r North Western.



Gerddi'r North Western



Mae potensial i ystyried lleihau nifer y llefydd parcio ymhellach a gweithredu parth cerddwyr llawn/rhannol ar Mostyn Street i wneud rhagor o le i gerddwyr a gwella'r profiad siopa a thwristaidd yn yr un modd â nifer o ardaloedd siopa rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol megis Mostyn Estates er mwyn deall dichonoldeb.

8.6 Dyluniadau Cydsyniad


Mostyn Street (Canolog)

Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar greu rhodfa goed hanesyddol, gwella cyfleusterau i feicwyr a cherddwyr, a chadw'r mwyafrif o lefydd parcio.

I'r de ddwyrain o'r gyffordd gyda Lloyd Street a St George's Place, bwriedir culhau Mostyn Street i 3m a rhoi system unffordd ar waith gyda thraffig yn teithio i'r gogledd orllewin. Cynigir cadw baeau parcio 2m o led ar bob ochr i'r stryd. I'r gogledd orllewin o Lloyd Street a St George's Place, cynigir gwaredu'r llefydd parcio o dde orllewin Mostyn Street er mwyn gwneud lle ar gyfer y llwybr beics DE313 (dwyffordd) 3m o led.

Cynigir plannu coed newydd yn y llwybrau troed a'r nysoedd rhwng y baeau parcio. Bwriedir cadw'r coed presennol a gosod gwllau plannu er mwyn gwella'r parth gwreiddio a lleihau llawr caled.

Mae croesfannau DE606 syml heb eu rheoli ar dwmpathau ffordd wedi'u lleoli'n ar bwyntiau croesi allweddol yn ogystal â'r cyffordd bwrdd arafu wedi'u codi DE201, er mwyn cynnig amrywiaeth o opsiynau croesi diogel i gerddwyr.



Mostyn Street (Canolog)

8.6 Dyluniadau Cydsyniad



Mostyn Street (Gorrlewin)

Mae'r cynigion yn dangos y llwybr beics DE313 (dwyffordd) 3m o led ar Mostyn Street sy'n dod i ben ar Gloddaeth Street (A546), fodd bynnag, dylid ystyried y cyfle i barhau â'r llwybr beics ar hyd Gloddaeth Street (A546) er mwyn gwella'r opsiynau Teithio Llesol rhwng Traeth y Gogledd a Phenmorfa.

Cynigir plannu nifer sylweddol o goed ar y llwybrau troed ac mewn ynysoedd rhwng baeau parcio i adfer y rhodfa goed hanesyddol a chreu stryd fwy gwyrdd. Bwriedir cadw'r coed presennol a gosod gwla'u plannu er mwyn gwella'r parth gwreiddio a lleihau llawr caled.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380.

© Crown copyright and database rights 2022 OS 100023380. Cedwir pob hawl.

Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

Use of this data is subject to terms and conditions.

Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.


Contains OS data © Crown copyright and database right 2022.

Mapio Coed Cenedlaethol - © Bluesky International Limited.


Mostyn Street (Gorrlewin)

8.6 Dyluniadau Cydsyniad

Adran – Mostyn Street



Adran - Vaughn Street



Delwedd o Erddi'r North Western

Safle Bysus DE502 : Ynys Safle Bysus

Cadw'r llefydd parcio ar hyd Mostyn Street a phlannu coed newydd gyda System Ddraenio Gynaliadwy lle bo modd

Gardd Fyfyriol i'r gorllewin o Erddi'r North Western.

Llwybr DE402 i gerddwyr a beicwyr i ffordd o'r ffordd 3m o led

All-drefnu'r gofod agored cyhoeddus er mwyn galluogi defnydd hyblyg o'r gofod gyda nodwedd dŵr, coed, ac ail-leoli ac ymgortffordd gwaith celf a cherffuriau presennol.

Trothwyon i nodi'r fynedfa i Erddi'r North Western

Llwybr beics DE313 3m o led yn cysylltu â NCR 5 a'r Promenâd i'r gogledd.

Croesfan syml DE606 heb ei reoli ar y llwybr beics

Croesfan llwybr beics tebyg i lwybr DE602

Llwybr a rannir neu ar wahân i gerddwyr a beicwyr ar y ffordd ymyl gyda blaenoriaeth

Croesfannau syml DE606 heb eu rheoli i wella cysylltedd

Ffordd gerbydau 3m o led (unffordd) gydag ymyl palmant isel

188

9 Conwy



9.1 Ardal yr Astudiaeth

Trosolwg

Mae tref Conwy yn Safle Treftadaeth y Byd o fewn muriau castell canoloesol ar lannau aber afon Conwy.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn nodi bod isadeiledd gwyrdd amlswyddogaethol yn wael yng nghalon hanesyddol Conwy, o fewn muriau'r dref yn ogystal â'r ardaloedd preswyl i'r de a'r de-orllewin. Mae gorchudd canopi coed Conwy yn 22.2%.

Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys yr ardal o fewn muriau'r dref, y meysydd parcio cyfagos, y cei a'r prif ddynsfeydd i gerddwyr, beicwyr a cherbydau.

Mae strydoedd ac ardaloedd yr ardal astudiaeth yn cynnwys:

1. Berry Street a Castle Street
2. Stryd Fawr
3. Sgwâr Lancaster
4. Bangor Road a Rose Hill Street
5. Upper Gate Street
6. Mount Pleasant a Town Ditch Road
7. Lower Gate Street
8. Sgwâr y Castell
9. Conwy Road
10. Gorsaf Drenau Conwy



9.1 Ardal yr Astudiaeth



Berry Street



Castle Street



Stryd Fawr



Sgwâr Lancaster



Bangor Road



Rose Hill Street



Upper Gate Street



Mount Pleasant



Town Ditch Road



Sgwâr y Castell



Conway Road




Gorsaf Drenau Conwy

9.0 Conwy

9.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi



Mannau Agored

Mae yna ddiffyg mannau agored o fewn muriau'r dref. Y tu allan i furiau'r dref ceir ardaloedd mawr o laswelltir amwynder, Perllan Conwy a Pharc Bodlondeb i'r gogledd-orllewin.



Gorchudd Canopi Coed

Mae gan Gonwy orchudd canopi coed rhesymol yn yr ardal ehangach, ond mae'r gorchudd yn ardal yr astudiaeth yn isel, yn enwedig o fewn muriau'r dref.


9.0 Conwy

9.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd

Mae'r cynllun yn amlgu'r ardaloedd sydd â'r isadeiledd gwyrdd gyda nifer o swyddogaethau. Mae'n edrych ar agweddau megis hamdden, cysgod a chynefinoedd bywyd gwylt. Mae aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd yn wael yng Nghonwy, yn enwedig o fewn muriau'r dref.



Dynodiadau

Mae tref Conwy yn Safle Treftadaeth y Byd ac mae'r rhan fwyaf o ardal yr astudiaeth yn Ardal Gadwraeth Conwy. Ceir sawl adeilad rhestredig yn ardal yr astudiaeth, yn cynnwys 7 adeilad rhestredig Gradd I. Mae yna sawl SoDdGA a gwarchodfa natur leol o amgylch y dref furiog.

9.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad


Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 yn mynd ar hyd y cei yng ngogledd ardal yr astudiaeth. Mae'r rhain yn cysylltu'r dref â Llandudno i'r gogledd a Phenmaenmawr i'r gorllewin. Ceir sawl llwybr teithio llesol cymeradwy yn yr ardal, yn ogystal â meysydd parcio a gorsaf drenau. Ceir llwybrau teithio llesol cymeradwy ar hyd Berry Street/Castle Street, Rose Hill Street, Maes Parcio Morfa Bach/Llanrwst Road, ac Upper Gate Street/Pool Lane/Mount Pleasant.



Hierarchaeth Strydoedd

Mae yna gysylltiadau ffordd da yn nhref Conwy, ond mae'r ffyrdd a'r troedffyrdd o fewn y muriau yn gul gydag ychydig iawn o le i gerddwyr a beicwyr. Mae'r llwybrau allweddol yn cynnwys Berry Street a Castle Street drwy ardal siopa canol y dref; Rose Hill Street, yr A547 Conway Road tuag at wibffordd yr A55, y B5106 Llanrwst Road a Mount Pleasant/Town Ditch Road y tu allan i furiau'r castell.

9.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae ardal siopa canol y dref i'w chanfod yn bennaf o amgylch y Stryd Fawr, Castle Street a Sgwâr Lancaster.

Cyrchfannau Allweddol

Mae Conwy yn gyrchfan poblogaidd ymysg twristiaid. Mae'n Safle Treftadaeth y Byd ac ynddi nifer o atyniadau i ymwelwyr, yn cynnwys y castell a'i furiau – a ystyrir yn un o brif atyniadau'r gogledd. Mae Cei Conwy i'r gogledd-ddwyrain yn cynnwys sawl atyniad, yn cynnwys teithiau cwch a siopau. Yn ogystal, ceir nifer o atyniadau treftadaeth yn y dref.

9.3 Cefndir

CDLI16: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Conwy (Mabwysiadwyd Gorffennaf 2015)

Mae Conwy yn dref Fictoraidd o fewn bylchfuriau canoloesol ar ochr orllewinol aber afon Conwy ger Môr Iwerddon. Mae'r ddogfen yn dweud bod *'castell, tref a'r muriau o amgylch Conwy yn hanesyddol ac yn bensaernïol bwysig a gwerthfawr fel grŵp... oherwydd eu bod yn debyg o ran graddfa, ymddangosiad, deunyddiau adeiladu a manylder ac yn cadw at y patrwm strydoedd canoloesol.'*

Ceir crynodeb o nodweddion y dref a rhai materion parth cyhoeddus isod.

Safle Treftadaeth y Byd

Y castell a'r muriau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd yw'r prif atyniad i'r ymwelwyr sy'n dod i'r ardal.

Mae'r ddogfen hefyd nodi bod *'gwaith maen llenfur a thyrau Castell Conwy yn parhau i fod gan mwyaf fel yr oedd pan gawsant eu hadeiladu rhwng 1283 ac 1287, o'r sylfeini i'r tyredau'*. Mae ffurf wreiddiol muriau'r dref wedi'u cadw, ar wahân i bedair ffordd a rheilffordd sy'n mynd drwy'r dref. Er gwaethaf hyn mae'r ddogfen yn nodi bod *'y gylched 1,400 llath (1.3km) yr enghraifft fwyaf cain o gaer tref ganoloesol ac sydd wedi'i chadw orau ym Mhrydain.'* Cafodd y castell a'r muriau eu codi yn defnyddio cerrig lleol. Mae'r plastr calch sy'n weddill yn awgrymu bod gan y castell rendrad gwyn yn wreiddiol, ac efallai bod gorffeniad tebyg ar y muriau hefyd.

Topograffeg

Mae'r ardal wedi'i hamgylchynu gan fryniau a mynyddoedd, yn cynnwys Mynydd Conwy i'r gogledd-orllewin, Tal y Fan i'r gorllewin a Benarth tua'r de. Mae castell Conwy ar gribyn ar ffin dwyreiniol y dref.

Mae muriau'r dref yn adlewyrchu lefel y tir ar draws y dref. Mae'r ochrau dwyreiniol a deheuol yn weddol wastad. Mae'r tir yn codi tua'r gogledd i fyny Berry Street ac i'r gorllewin i fyny Chapel Street a'r Stryd Fawr. Mae'r tir uchaf wrth ymyl Porth Uchaf. Mae topograffi'r dref yn rhoi golygfeydd deniadol i mewn ac allan o'r dref, ac yn ffurfio rhan bwysig o'i chymeriad.

Mae tref furiog Conwy wedi'i rhestru ar Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Cymru.

Patrwm Strydoedd, Maint Adeiladau a Dwysedd

Mae gan y dref batrwm strydoedd grid canoloesol, gyda'r hen farchnad ar Sgwâr Lancaster. Credir bod cynllun llawer o'r strydoedd a'r llwybrau fel yr oeddynt yn wreiddiol. Mae sawl agoriad wedi'u gwneud yn y muriau er mwyn adeiladu ffyrdd.

Mae maint yr adeiladau yng Nghonwy yn amrywio ac mae yna fwy o adeiladau yn y gogledd-orllewin nag yn unrhyw le arall yn y dref. Mae llawer o'r eiddo yn wynebu'r strydoedd ac ychydig iawn sydd â gerddi blaen.

Deunyddiau Adeiladu a Manylion

- Carreg leol
- Carreg grut
- Calchfaen lleol
- Tywodfaen coch a melyn
- Ithfaen Penmaenmawr
- Brics coch Rhiwabon
- Brics melyn
- Rendrad
- Toeau llechi
- Dyluniadau manwl ar y lloriau uchaf
- Placiau carreg â dyddiad
- Ffenestri lliw
- Ffenestri codi
- Drysau panelog traddodiadol
- Teils mosäig
- Rheiliau haearn bwrw
- Canopiau gwydr

Golygfeydd Pwysig

- Golygfeydd o'r bryniau a'r mynyddoedd o Sgwâr Lancaster
- Golygfa o furiau'r dref o Sgwâr Lancaster
- O Upper Gate Street i Borth Uchaf
- Golygfa o'r castell o Upper Gate Street
- Yr olygfa o'r castell a'r ardal gyfagos o dŵr uchaf (ger Bryn)

- Bob ffordd ar hyd Crown Lane, Llewelyn Street, Chapel Street a Castle Street/Berry Street
- Golygfeydd tua'r afon o'r cei
- Golygfeydd o'r ardaloedd cyfagos o furiau'r dref a'r castell
- Ar draws y rheilffordd o Rosemary Lane

Prif Adeiladau

O fewn muriau'r dref:

- Plas Mawr
- Eglwys y Santes Fair a'r Holl Saint
- Neuadd y Dref, Sgwâr y Castell
- Gorsaf Heddlu, Sgwâr Lancaster
- Capel Methodistiaid Cymraeg Tabernacl, oddi ar York Place
- Capel Presbyteraidd Cymraeg Carmel
- Palace Cinema, Stryd Fawr
- Llyfrgell, Castle Street
- Y cerflun ar Sgwâr Lancaster
- 11 Castle Street
- Tŷ Aberconwy
- 20 Castle Street

Tu allan i furiau'r dref:

- Pont Grog Telford
- Pont Diwb Stephenson
- Y Bont Ffordd 'newydd'
- Y Cei

9.3 Cefndir

Mannau Agored a Llystyfiant

Mae'r ddogfen yn nodi nad oes unrhyw *'fannau agored mawr o ran parc cyhoeddus neu erddi dinesig.'*

Mae mannau agored cyhoeddus y dref yn cynnwys:

- *Mynwent Eglwys y Santes Fair*
- *Sgwâr Lancaster, sydd â llawr caled a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau*
- *Y Cei a Sgwâr y Castell, sydd ag ardaloedd glaswelltog ac ardaloedd llai o blannu*
- *Maes parcio Vicarage Gardens*
- *Iard yr orsaf, a ddefnyddir fel maes parcio a marchnad*
- *Gerddi Eglwys Gatholig San Mihangel*

Adeiladau Rhestredig

Mae yna 166 adeiledd rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn amrywiol iawn a'r rhan fwyaf ar Castle Street a'r Stryd Fawr. Mae yna hefyd lawer o adeileddau sy'n Henebion Cofrestredig, sef:

- *Castell Conwy*
- *Muriau'r dref*
- *Y Bont Reilffordd Diwb*
- *Plas Mawr*
- *Safle neuadd ganoloesol a wardrob y Brenin, Rose Hill Street*

Parth Cyhoeddus

Dyma rai o'r problemau a geir ym mharth cyhoeddus yr Ardal Gadwraeth:

- *Wyneb gwael ar lwybrau troed*
- *Celfi stryd amrywiol sydd wedi'u lleoli'n wael e.e. biniau, seddi, arwyddion enwau stryd*
- *Annibendod stryd*
- *Gormod o arwyddion traffig, polion rhydllyd*
- *Parcio anghyfreithlon ar y stryd*
- *Chwyn yn tyfu ar balmentydd*
- *Biniau masnachol o flaen adeiladau*
- *Diffyg gwaith cynnal a chadw ar gyrbau a phalmentydd yn sgil gwaith trwsio dros dro a slabiau/brics rhydd*
- *Rheiliau gwael i gerddwyr ger croesfannau*
- *Sbwriel – yn arbennig mewn corneli anodd eu cyrraedd*
- *Seddi cyhoeddus gwael*
- *Goleuadau gwael ar lwybrau*
- *Diffyg wyneb a gwaith atgyweirio ar lwybrau mynediad cefn siopau*
- *Graffiti*
- *Prinder coed*
- *Angen gwaredu'r ffensys llechi mewn rhai llefydd*
- *Triniaethau ffin anaddas*
- *Ymylon palmant concrit*
- *Angen atgyweirio arwynebau hanesyddol mewn sawl lle*
- *Y parth cyhoeddus heb ei gynnal yn dda mewn sawl ardal*

Mae'r ddogfen yn nodi bod gan Gonwy'r potensial i fod yn *'lle adnabyddus am ei barth cyhoeddus o ansawdd uchel, gan dynnu ar y cynseiliau a osodwyd o fewn ffabrig y strydlyn presennol.'* Gall hyn amlygu ac ategu nodweddion unigryw adeiladau yn yr ardal.

Mae deunyddiau arwyneb hanesyddol ar gyfer palmentydd, ymylfeini a setiau o fewn muriau'r dref yn cynnwys ithfaen a chalchfaen lleol. Dylid cadw'r deunyddiau hanesyddol yma, eu hatgyweirio a'u hail-gynhyrchu, yn enwedig mewn llefydd ac ar strydoedd pwysig. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn awgrymu y dylid cael *'palet cyfoes ond cyfyngedig o ddeunyddiau yn briodol mewn ardaloedd newydd nad oes ganddynt gynseiliau hanesyddol.'*

Mae'r ddogfen yn nodi y dylai dyluniadau arwain at effaith gadarnhaol a *'sicrhau cydbwysedd rhwng symrlwydd a lefel gymharol uchel o gysylltiad gweledol sy'n nodweddiadol o'r ardal gadwraeth.'* Mae ystyriaethau eraill yn nodi y dylai *'dyluniad ac uchder y ffensys, waliau, giatiau a rheiliau hefyd fod yn briodol i'r eiddo penodol a'r strydwedd yn gyffredinol.'*

Mae'r gwelliannau i'r parth cyhoeddus a awgrymwyd yn y ddogfen yn cynnwys:

- *Deunydd a manylion o ansawdd gwell o ran y palmentydd*
- *Cysondeb o ran cynlluniau goleuadau ac arwyddion*
- *Plannu a chynnal a chadw lleiniau a choed ar y strydoedd*
- *Rheoli traffig a chynnal a chadw*

Natur dymhorol

Mae'r dref yn brysurach yn yr haf na'r gaeaf.

System Draffig

- *Mae rhai yn teimlo bod y system draffig unffordd wedi cynyddu'r tagfeydd yn ystod digwyddiadau ac yn yr haf, a bod hynny wedi arwain at fwy o siopau'n cau oherwydd bod cerbydau yn gyrru*
- *Awgrymir bod rhai gyrwyr bysiau yn ei chael hi'n anodd gyrru o dan fwa Llanrwst Road bob ffordd*

Gweledigaeth Ardal Gadwraeth Conwy a Safle Treftadaeth y Byd i'r Dyfodol

Mae'r ddogfen hon yn nodi y bydd yr ardal gadwraeth, y castell a muriau'r dref yn cael eu gwarchod er mwyn *'meithrin eu rôl allweddol o ran cyfrannu tuag at falchder a hunaniaeth leol, ac wrth ddarparu ased treftadaeth pwysig i Gymru, cymunedau lleol ac i ymwelwyr.'*

Mae gan yr ardal gadwraeth rôl bwysig wrth hyrwyddo addysg gydol oes ac mae'r ddogfen yn awgrymu y bydd hynny'n cael ei gyflawni drwy *'ddarparu deunydd dehongli yn Gymraeg a Saesneg ac ieithoedd tramor y gellir eu defnyddio ar ac oddi ar y safle.'*

9.3 Cefndir

CDLI42: Cynllun Rheoli a Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Waliau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd (Mabwysiadwyd Ebrill 2018)

Golygfeydd Arwyddocaol Conwy

- *O'r castell a muriau'r dref*
- *Tua'r castell a muriau'r dref, yn cynnwys golygfeydd o'r dref furiog o'r ardal gyfagos*

Cynllunio Trefol

Mae'r ddogfen yn archwilio'r syniad bod cynllun siâp T gwreiddiol Conwy wedi'i ffurfio gan ddau brif lwybr – priffordd yn dilyn y draethlin gyda'r castell ar un pen a phriffordd arall yn berpendicwlar iddi.

Conwy Heddiw

Atyniadau i ymwelwyr:

- *Y castell a muriau'r dref*
- *Plas Mawr*

Mae'r ddogfen yn nodi bod gan Gonwy '*graidd manwerthu bywiog gyda manwerthwyr a masnachwyr annibynnol.*'

Mae cyflwyno isadeiledd cludiant wedi trawsnewid y dref, yn cynnwys y ffordd newydd a'r cysylltiadau rheilffordd.

Mae'r ddogfen yn archwilio'r problemau o ran parcio a thraffig yn y dref. Un o'r pethau sy'n cael ei awgrymu yw ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio rhai o'r meysydd parcio sy'n fwy gwag ar gyfer pethau eraill. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi bod '*nifer y bysiau sy'n ymweld â'r dref ynghyd â'r cyfyngiadau oherwydd pyrth a mynedfeydd bwaog wedi golygu bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth ar gyfer cyfleusterau parcio penodol i fysiau.*' Mae gan Gonwy hefyd gyfyngiad pwysau ar y bont i Forfa Bach.

O ran cerdded a beicio, mae'r ddogfen yn nodi: '*Gall sicrhau cysylltiadau gwell â'r rhwydwaith cerdded a beicio gynnig cyfle arall i annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy; er enghraifft, sicrhau bod arwyddion ar gyfer y Safle o Lwybr Arfordir Cymru a llwybrau beicio cenedlaethol.*'

Topograffeg

Mae'r dopograffeg yn dringo'n serth mewn mannau.

9.4 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Cynnig twristiaeth da iawn
- Safle Treftadaeth y Byd
- Arwyddocâd hanesyddol
- Ardal gadwraeth gyda nifer o adeiladau rhestredig, pensaernïaeth wych a phatrwm strydoedd canoloesol
- Craidd manwerthu bywiog
- Isadeiledd gwyrdd amrywiol o amgylch y muriau canoloesol
- Cei ac afon Conwy
- Llwybr yr Arfordir a Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Cyfleoedd

- Diffinio porth canol y dref ar Sgwâr y Castell drwy wneud y ffordd yn llai / newid wyneb y ffordd, gwella'r parth cyhoeddus, isadeiledd gwyrdd a rhoi'r flaenoriaeth i gerddwyr
- Gwella'r cysylltiadau cerdded a beicio drwy'r dref
- Gwyrddni ar y cei a gwella'r ddarpariaeth i feicwyr
- Gwyrddni ar Sgwâr Lancaster
- Creu cyswllt gwyrdd rhwng Parc Bodlondeb a'r castell
- Lleihau'r briffordd er mwyn gwneud mwy o le i gerddwyr, beicwyr ac isadeiledd gwyrdd
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a gostegu traffig drwy gulhau'r ffordd gerbydau, newid wyneb y ffordd a gwella croesfannau i gerddwyr drwy osod byrddau arafu
- Gwneud lle i blannu coed a system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law
- Ystyried creu parth cerddwyr ar y Stryd Fawr, neu o leiaf ar yr adegau prysuraf
- Gwella arwyddion llwybrau
- Gwella'r mynediad i gerddwyr ar Upper Gate Street
- Gwella'r mynediad i gerddwyr yn y meysydd parcio
- Amrywio'r glaswellt amwynder ger y muriau
- Gwella'r llwybr i'r orsaf drenau at ddibenion teithio llesol a'r mynediad at y platform

Gwendidau

- Mae'r strydoedd cul a'r patrwm canoloesol yn cyfyngu'r gofod sydd ar gael i greu isadeiledd gwyrdd
- Diffyg man agored o faint da o fewn y muriau
- Bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd amlswyddogaethol gwael o fewn muriau'r dref
- Gorchudd canopi coed bychan
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Mae llwybrau troed cul yn golygu bod y gwelededd yn wael
- Diffyg darpariaeth dda ar gyfer beicwyr

Bygythiadau

- Gall y statws Safle Treftadaeth y Byd gyfyngu ar ymyraethau mewn rhai llefydd
- Ymyraethau ar y briffordd fabwysiedig
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau
- Cystadlu gyda pharcio ar y stryd

9.4 Cyfleoedd a Heriau

Cyfleoedd


KEY

Existing

- Study Area
- Trees
- GreenSpace
- Water
- Sand
- Shopping Zone
- Railway Station
- Bus Stop
- Car Park
- Castle and Walls
- Tourist Attraction
- Cultural Centre and Library
- Marina
- Education
- Key Greenspace
- Coast Path and National Cycle Route 5
- Existing Walking and Cycling Connection

Opportunities

- Key Town Centre Gateway
- Key Node Points
- Green Link
- Tree Planting, SuDS and Rain Garden Planting
- Proposed Cycling Routes
- One Way
- New Footway
- Public Realm Improvements
- Enhance Public Space
- Enhance Green Infrastructure
- New Green Space
- Green Wall
- Focal Feature



9.4 Cyfleoedd a Heriau



Beicio ar y briffordd, ffordd cerbydau gul a llwybrau troed yn Llundain



Newid wyneb man croesi yn Sheffield



Gardd law ar Stryd Fawr Marylebone
 Flynhonnell delwedd: Street Tree

1. Berry Street a Castle Street

- Ceir cyfle i gulhau'r ffordd, lledu'r llwybrau troed a thaclo'r ardal i wneud mwy o le i gerddwyr ac atal pobl rhag parcio heb awdurdod
- Culhau'r ffordd i wella teithio llesol (llwybr arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio) ac annog beicio ar y ffordd
- Opsiwn i greu rhwystrau ymwithol o amgylch ardaloedd parcio i wneud mwy o le i gerddwyr a chyfle hefyd i greu bwrdd arafu neu newid wyneb croesfannau a phlannu
- Cyfle i ostegu traffig a blaenoriaethu cerddwyr yn y gyffordd â'r Stryd Fawr, drwy fwrdd arafu, newid wyneb y ffordd a lleihau'r ffordd er mwyn gwella cysylltiad cerddwyr â'r cei
- Ar Castle Street gellir rhesymoli'r parcio i wneud lle ar gyfer coed a system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law, a fyddai hefyd yn creu cyswllt gwyrdd rhwng Parc Bodlondeb a'r castell
- Cyfle i wella diogelwch lle ceir newid yn y lefel


9.4 Cyfleoedd a Heriau

2. Stryd Fawr


- *Rhesymoli'r parcio a chreu rhwystrau ymwithiol o amgylch mannau parcio i wneud mwy o le i gerddwyr ac i blannu planhigion*
- *Opsiwn ar gyfer gwella arwyddion llwybrau er mwyn i bobl wybod eu bod nhw yno*

3. Sgwâr Lancaster


- *Ceir cyfle i wella'r sgwâr drwy wella'r parth cyhoeddus a phlannu coed a gosod cynwysyddion blodau. Posib plannu coed mewn potiau*
- *Cydlynu'r celfi stryd i dacluso'r ardal a chael gwared ar y mannau parcio a symud y safle tacsis i wneud y parth cyhoeddus yn fwy*
- *Opsiwn i alinio'r ffordd a gwneud mwy o le i gerddwyr*



Bonn Square, Rhydychen
© Graeme Massie. Llun gan Landezine



9.4 Cyfleoedd a Heriau



Beicio ar y briffordd, ffordd gerbydau gul a llwybrau troed yn Efrog

4. Bangor Road a Rose Hill Street

- Cyfle i gulhau'r ffordd a lledu llwybrau troed i wneud mwy o le i gerddwyr, gwella manau croesi a mynediad cerddwyr o faes parcio Morfa Bach
- Llwybr teithio llesol gyda gwelliannau arfaethedig i gerddwyr a beicwyr. Cyfle hefyd i gulhau'r briffordd ar gyfer beicio ar y ffordd neu wneud llwybr beicio pwrpasol
- Os oes lle, culhau'r briffordd a phlannu coed a chreu system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law



Croesfan yng Nghaer

5. Upper Gate Street

- Cyfle i wella mynediad cerddwyr o Pool Lane, yn cynnwys y droedffordd a'r groesfan
- Potensial i wneud y ffordd yn ffordd unfordd a'i chulhau i greu llwybrau troed

6. Mount Pleasant a Town Ditch Road

- Cyfle i amrywio'r glaswellt amwynder o flaen muriau'r castell, yn cynnwys plannu bylbiau, dŵl blodau gwyllt a phlannu coed
- Cyfle i wella mynediad cerddwyr sy'n cerdded o'r maes parcio i ganol y dref



Plannu coed yng nghanol tref Llangollen

9.4 Cyfleoedd a Heriau

7. Lower Gate Street

- Plannu coed a blodau addurnol (o bosibl mewn cynwysyddion uchel mewn mannau) i feddalu'r cei. Rhesymoli'r man caled/ffordd i atal pobl rhag parcio yno a chreu isadeiledd gwyrdd yn lle
- Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybr Arfordir a Theithio Llesol (llwybr beicio arfaethedig), felly ystyried diffinio llwybr beicio ar hyd y cei
- Gwella'r parth cyhoeddus a'r celfi stryd yn ôl yr angen
- Cyfle i amrywio'r glaswellt amwynder wrth ymyl Conway Road, yn cynnwys plannu bylbiau, dŵl blodau gwyllt a phlannu coed



Promenâd glan afon IJsselkade yn Zutphen, yr Iseldiroedd
Llun gan Pieter Kers. Delwedd gan Landezine




Cyffordd Poynton Llun Peter Turner (cc-by-sa/2.0)



Nodwedd porth, Altrincham

8. Sgwâr y Castell

- Diffinio'r porth i ganol y dref drwy wella isadeiledd gwyrdd a blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr
- Lleihau llawr caled y gylchfan a chynyddu'r isadeiledd gwyrdd i greu mynedfa well i'r dref sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr. Ystyried creu cynllun gofod a rennir, fel yr un yn Poynton, i ddiffinio'r porth mynediad



9.4 Cyfleoedd a Heriau



9. Conwy Road

- Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybr yr Arfordir a Theithio Llesol (llwybr beicio arfaethedig), felly ystyried diffinio llwybr beicio ar hyd y promenâd wrth ymyl Conway Road. Potensial ar gyfer llwybr pwrpasol drwy'r ardal laswelltlog
- Cyfle i amrywio'r glaswellt amwynder at y groesfan, yn cynnwys plannu bylbiau, dŵl blodau gwyllt a phlannu coed. Gellir hefyd ystyried system ddraenio gynaliadwy a chreu gardd law

10. Gorsaf Drenau Conwy

- Opsiwn ar gyfer plannu neu waliau gwyrdd
- Opsiwn ar gyfer gwaith celf i hyrwyddo'r gofod cyrraedd
- Opsiwn i wella'r mynediad i bobl anabl




Gorsaf Reilffordd y Rhyl

9.5 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn astudiaeth gwaelodlin, gwerthuso safle a chanfod problemau a chyfleoedd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi'u nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau isadeiledd gwyrdd, teithio llesol, a pharth cyhoeddus pellach a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar dref Conwy. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Berry Street a Castle Street
- Bangor Road, Rose Hill Street, Sgwâr Lancaster ac Upper Gate Street



9.5 Meysydd Blaenoriaeth



Berry Street tua'r gogledd-orllewin



Castle Street tua'r de-ddwyrain

Berry Street a Castle Street

Ceir golygfeydd pwysig tua'r castell a muriau'r dref o bob ffordd ar Berry Street a Castle Street. Mae Castle Street yn stryd fasnachol allweddol ac mae gan y ddwy stryd gyfran uchel o adeiladau rhestredig.

Cyflwr Presennol:

- Patrwm stryd canoloesol gyda strydoedd cul. Credir bod cynllun llawer o'r strydoedd yng Nghonwy yn rhai gwreiddiol
- Mae'r ddwy stryd yn rhai un-ffordd
- Sawl mynediad i gerbydau
- Llwybr sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan fysiau
- Ni cheir mannau parcio ar y stryd ar Berry Street. Mae gan Castle Street lefydd parcio ar hyd un ochr
- Llwybrau cerdded cul mewn mannau (rhwng 1.52 metr a 4.55 metr)
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Diffyg darpariaeth dda ar gyfer beicwyr
- Ceir cyrbau a llwybrau troed o gerrig naturiol ar Castle Street
- Mae lefel y stryd yn newid ym mhen deheuol Castle Street
- Annibendod stryd

Cyfleoedd:

- Gwella'r cysylltiadau cerdded a beicio
- Gwyrddu'r stryd ac ail-bwrpasu baeau parcio er mwyn gwella isadeiledd gwyrdd
- Culhau'r ffordd gerbydau a gwneud mwy o le i feicwyr
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a gostegu traffig
- Gwella'r ddarpariaeth groesi ar gyfer cerddwyr
- Tacluso'r stryd

9.5 Meysydd Blaenoriaeth

Bangor Road, Upper Gate Street a Sgwâr Lancaster

Yma ar Sgwâr Lancaster yr oedd yr hen farchnad yn cael ei chynnal, ac mae gan yr ardal hon olygfa bwysig o furiau'r dref.

Cyflwr Presennol:

- Patrwm stryd canoloesol gyda strydoedd cul. Credir bod cynllun llawer o'r strydoedd yng Nghonwy yn rhai gwreiddiol
- Mae Bangor Road a Rose Hill Street yn strydoedd un-ffordd. Mae Upper Gate Street yn ffordd ddeuol
- Ceir mannau parcio ar hyd Bangor Road ac o gwmpas Sgwâr Lancaster
- Ceir baeau tacsis ar Sgwâr Lancaster
- Mae Sgwâr Lancaster yn fan cyhoeddus pwysig yn y dref. Mae ganddo wyneb caled a ellir ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau
- Llwybrau troed cul (tua 0.75 a 3.39 metr)
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Mynediad gwael i gerddwyr o'r lle parcio yn Mount Pleasant ar hyd Upper Gate Street
- Diffyg darpariaeth dda ar gyfer beicwyr

Cyfleoedd:

- Gwellu'r cysylltiadau cerdded a beicio
- Gwellu'r isadeiledd gwyrdd ar Sgwâr Lancaster
- Gwellu'r celfi stryd ar Sgwâr Lancaster
- Symud y baeau tacsis a pharcio ar y sgwâr i wneud mwy o le ar gyfer isadeiledd gwyrdd a'r cyhoedd
- Culhau'r ffordd gerbyddau a gwneud mwy o le i gerddwyr a beicwyr
- Lledu llwybrau troed i wneud mwy o le i gerddwyr
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a gostegu traffig
- Gwellu'r ddarpariaeth groesi ar gyfer cerddwyr
- Gwneud Upper Gate Street yn un-ffordd a chulhau'r ffordd ac aildrefnu'r gofod ar gyfer llwybrau troed a gwella'r llwybr cerdded i Pool Lane a'r lle parcio
- Opsiwn ar gyfer beicio ar y ffordd neu wneud llwybr beicio pwrpasol



Bangor Road tua'r gogledd-orllewin



Sgwâr Lancaster



Upper Gate Street tua'r de-orllewin

9.6 Dyluniadau Cysyniad



Dyluniadau Cysyniad

Mae dyluniadau cysyniad wedi'u cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer meysydd blaenoriaeth yn nhref Conwy.

Mae'r dyluniadau cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth isadeiledd gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella teithio llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio strydoedd a mannau agored Conwy.

Nodau allweddol y dyluniadau yw gwyrddu'r strydoedd o fewn yr ardaloedd blaenoriaeth a rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr drwy blannu blodau a mesurau gostegu traffig i arafu cerbydau, rhoi pwrpas newydd i faeau parcio a gwella'r amgylchedd i gerddwyr a beicwyr.

Mae dyluniadau yn gysyniadol ac wedi'u cynhyrchu heb wybodaeth dopograffigol, cyngor ar gludiant nac arolygon technegol fel gwasanaethau a chyfleustodau.

9.6 Dyluniadau Cysyniad

Berry Street

Mae Berry Street yn ffordd allweddol i dref Conwy, drwy agoriad ym mhen gogleddol ym muriau'r dref. Ar ben arall y ffordd fe geir ardal siopa'r dref a mynediad i'r cei.

Nod y cynigion yw gwella'r flaenoriaeth a roddir i gerddwyr a beicwyr. Mae'r lôn draffig wedi'i lleihau i isafswm o 2.5 metr o led, gyda lôn feicio 1.5 metr yn cael ei chyflwyno yn unol â chynghor DE304. Byddai stydiau ffordd ar y llinellau gwyn toredig (diagram 1004) neu debyg yn cael eu gosod i wella diogelwch ac atal traffig rhag mynd ar y lôn feiciau.


Gall cyffordd ar fwrdd arafu DE201 gyda chroesfannau i gerddwyr wella'r amgylchedd cerdded wrth ymyl y gyffordd â'r Stryd Fawr a Castle Street, gan roi mwy o flaenoriaeth i bobl sy'n croesi'r ffordd.

Oherwydd natur gul a chanoloesol y stryd ychydig iawn o gyfleoedd sydd yna i ledu'r droedffordd neu greu isadeiledd gwyrdd.



Dyluniadau Cysyniad Berry Street

9.6 Dyluniadau Cysyniad



Castle Street

Mae Castle Street hefyd yn un o'r prif strydoedd siopa yng Nghonwy ac fe geir golygfeydd o'r castell tua'r de. Nod y cynigion yw ychwanegu gwyrddni a gwella'r flaenoriaeth a roddir i gerddwyr a beicwyr.

Mae'r lôn draffig wedi'i chulhau i 2.5 metr o led gyda pharhad lôn feiciau gynghorol DE304 sy'n 1.5 metr o led o Berry Street.

Mae'r mannau parcio ar y stryd wedi'u haildrefnu er mwyn gwneud lle i bocedi bach o isadeiledd gwyrdd gyda systemau draenio cynaliadwy ar ffurf gerddi glaw ar y gyliau presennol er mwyn dal dŵr storm. Mae'r cyrbau a'r llwybrau troed cerrig naturiol wedi'u cadw gan nad oes llawer o le i'w ennill wrth eu lledu.

Mae'r newid yn lefel y droedffordd bresennol ar yr ochr ogleddol wrth ymyl Sgwâr y Castell wedi'i dynnu ac mae'r droedffordd wedi'i lledu drwy gyflwyno tybiau plannu cynnal, gan dynnu'r lloches a symud y safle bws.

Mae'r cynigion yn cynnwys croesfan DE201 syml heb ei rheoli ger mynedfa'r eglwys a bwrdd arafu DE201 gyda mannau croesi wrth ymyl y gyffordd â Rose Hill Street a Sgwâr y Castell i wella'r cysylltiad a'r flaenoriaeth i gerddwyr.

Dyluniadau Cysyniad Castle Street

9.6 Dyluniadau Cysyniad


Bangor Road, Upper Gate Street Street a Sgwâr Lancaster

Mae'r ardal hon yn cynnwys dynesfeydd allweddol i dref Conwy drwy'r muriau ar hyd Bangor Road, Upper Gate Street a Pool Lane a man agored Sgwâr Lancaster. Nod y cynigion yw gwella'r flaenoriaeth a roddir i gerddwyr a beicwyr ac ychwanegu mwy o wyrddni at y sgwâr.

Mae'r ffordd gerbydau wedi'i chulhau a'r mannau parcio wedi'u haildrefnu ar hyd Bangor Road a Rose Hill Street er mwyn lledu'r llwybrau troed i o leiaf 2 fetr a chyflwyno lôn feicio orfodol DE303 sy'n 1.5 metr o led.

Mae'r cynigion yn cynnwys cyffyrdd ar fwrdd arafu DE201 gyda mannau croesi ar y Stryd Fawr i wella'r cysylltiad i gerddwyr. Cynigir gosod gwelyau blodau uchel a phlannu coed ar Sgwâr Lancaster er mwyn gwyrrdu'r ardal.

Cynigir creu man croesi DE201 gyda bwrdd arafu wrth y gyffordd â Bangor Road/Upper Gate Street a chulhau Upper Gate Street a'i gwneud yn stryd un-ffordd er mwyn cyflwyno troedffordd 1.5 metr o led ar yr ochr ogleddol – ni cheir troedffordd ar hyn o bryd, a gwella'r cysylltiadau gerddwyr.



Dyluniadau Cysyniad Bangor Road, Rose Hill Street, Sgwâr Lancaster ac Upper Gate Street

10 Penmaenmawr



10.1 Ardal yr Astudiaeth

Trosolwg

Mae Penmaenmawr yn dref arfordirol yng ngogledd orllewin Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n rhedeg ar hyd glan y môr i'r gogledd o'r dref. Mae gwibffordd yr A55 a'r rheilffordd i'r gogledd yn hollti'r dref a'r glan môr. O ganol y dref ceir golygfeydd o'r brynau a'r mynyddoedd cyfagos a'r môr.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn nodi bod gan Benmaenmawr orchudd isadeiledd gwyrdd dda ar y cyfan, a gorchudd canopi coed o 22.6%.

Mae ardal yr astudiaeth yn canolbwyntio ar strydoedd a dynesfeydd allweddol yng nghanol y dref, y parth siopa, cyfleusterau cymunedol, yr orsaf reilffordd, y cysylltiad i'r traeth a meysydd parcio canol y dref.

Mae strydoedd ac ardaloedd ardal yr astudiaeth yn cynnwys:

1. Dynesfa Bangor Road
2. Parth Cyhoeddus Pant yr Afon
3. Maes Parcio Fernbrook Road a'r Llyfrgell
4. Cysylltiad Paradise Road
5. Gorsaf Penmaenmawr



10.1 Ardal yr Astudiaeth



Bangor Road tua'r dwyrain



Bangor Road tua'r gorllewin



Cyffordd Bangor Road/Brynmor Terrace/Pant-Yr-Afon/Fernbrook Road



Pant-Yr-Afon tua'r gorllewin



Fernbrook Road a'r Maes Parcio



Brynmor Terrace/Paradise Road



Paradise Road



Station Road East

10.2 Dadansoddiad Safle

KEY

- Study Boundary
- Allotments Or Community Growing Spaces
- Bowling Green
- Other Sports Facility
- Play Space
- Public Park Or Garden
- Religious Grounds

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Penmaenmawr

0 50 100 200 Metres

Copyright © 2022 Ordnance Survey and data providers. All rights reserved. 0190222200

Mae'r mannau agored yn ardal yr astudiaeth yn cynnwys y lawnt fowlio ar Station Road East a man agored y Dingle a'r llefydd chwarae ar Constitution Hill. Mae traeth Penmaenmawr, yn cynnwys yr ardal laswelltog a'r llefydd chwarae i'r gogledd o ardal yr astudiaeth.




Ar y cyfan ceir gorchudd canopi coed da ym Mhenmaenmawr. Fodd bynnag, ychydig iawn o goed a geir ar hyd Bangor Road, Pant-Yr-Afon a Paradise Road yng nghanol y dref.

10.2 Dadansoddiad Safle



Aml-swyddogaeth Isadeiledd Gwyrdd


Mae'r cynllun yn nodi lleoliad yr isadeiledd gwyrdd gyda nifer o swyddogaethau. Mae'n edrych ar agweddau megis hamdden, cysgod a chynefinoedd bywyd gwylt. Mae gan ardal yr astudiaeth lefelau rhesymol o isadeiledd gwyrdd amlswyddogaethol. Ond mae yna fylchau, yn enwedig ar hyd Bangor Road a Phant-Yr-Afon yng nghanol y dref.



Dynodiadau

Mae rhan fwyaf o ardal yr astudiaeth wedi'i chynnwys yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Penmaenmawr. Mae yna ychydig o adeiladau rhestredig yn ardal yr astudiaeth.

10.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad


Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 yn mynd ar hyd glan y môr i'r gogledd o ardal yr astudiaeth. Mae yna hefyd sawl llwybr teithio llesol cymeradwy yn yr ardal ar hyd Bangor Road, Pant-Y- Afon, Paradise Road a Station Road East. Ceir sawl maes parcio yn yr ardal, ar Fernbrook Road a chyferbyn â'r orsaf reilffordd.



Hierarchaeth Strydoedd

Mae gwibffordd yr A55 i'r gogledd yn gwahanu canol y dref a'r glan môr. Mae strydoedd allweddol yn ardal yr astudiaeth yn cynnwys Bangor Road a Pant-Yr-Afon sy'n mynd i'r dwyrain a'r gorllewin a Paradise Road sy'n mynd o ganol y dref i'r glan môr a'r orsaf reilffordd.

10.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae parth siopa'r dref i'w ganfod wrth ymyl cyffordd Bangor Road a Phant-yr-Afon.

Cyrchfannau Allweddol

Mae'r cyrchfannau yn ardal yr astudiaeth yn cynnwys Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, Amgueddfa Penmaenmawr, Llyfrgell Penmaenmawr a mannau gwyrdd allweddol.

Yng ngogledd ardal yr astudiaeth mae'r cyrchfannau allweddol yn cynnwys yr orsaf reilffordd a'r traeth, y promenâd a'r llefydd chwarae ar lan y môr.

10.3 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Canol tref deniadol gyda pharth siopa crynodedig
- Ardal Gadwraeth Canol Tref
- Mae'r cynnig i dwristiaid yn cynnwys cyfleoedd i gerdded a glan y môr
- Traeth Baner Las a phromenâd
- Llwybr yr Arfordir a Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 ar hyd y promenâd
- Gorchudd coed yng nghanol y dref yn dda mewn mannau
- Man agored hygyrch yn agos at ganol y dref
- Aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd da
- Enghreifftiau o bensaerniaeth a chanopiau siop o ansawdd uchel
- Maes parcio wrth ymyl y parth siopa

Gwendidau

- Pyrth aneglur i'r dref
- Canol y dref wedi'i ddominyddu gan gerbydau, gyda ffyrdd llydan a chyffordd gyda radiws mawr
- Cerbydau yn gyrru drwy ganol y dref
- Cysylltiad gwael i'r orsaf a'r glan môr
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Palmentydd cul
- Rheiliau gwarchod
- Diffyg darpariaeth i feicwyr


Cyfleoedd

- Diffinio'r mynedfeydd i ganol y dref drwy greu parth cyhoeddus o ansawdd uchel, isadeiledd gwyrdd a mesurau gostegu traffig
- Gwellu cysylltiadau teithio llesol i'r orsaf reilffordd a'r traeth
- Aildrefnu gofod y briffordd er mwyn gwneud mwy o le i gerddwyr, darpariaeth feicio well ac ymyraethau isadeiledd gwyrdd
- Creu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr yn y prif barth siopa ac arafu cyflymder cerbydau
- Rhesymoli'r mannau parcio ar y stryd a'r cilfaeau bysiau i wneud mwy o le i gerddwyr a phlanhigion
- Gwellu mynediad cerddwyr i faes parcio Fernbrook Road a darparu gwelliannau isadeiledd gwyrdd
- Gwellu'r celfi stryd fel eu bod yn gweddu ei gilydd a thaclo'r strydoedd

Bygythiadau

- Mae Bangor Road yn ffurfio ffordd drwodd
- Gofod cyfyngedig ar gyfer plannu coed a llwyni
- Colli llefydd parcio ar y stryd
- Ymyraethau ar y briffordd fabwysiedig
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau

10.3 Cyfleoedd a Heriau



10.3 Cyfleoedd a Heriau

1. Dynesfa Bangor Road

- Ceir cyfle i gulhau'r ffordd mewn mannau a gwneud lle i blannu coed a chreu system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law ar hyd y brif ddynesfa at y dref o gyfeiriad gorllewin
- Rhesymoli'r mannau parcio ar y stryd a thynnu'r cilfauau bysiau i wneud mwy o le i gerddwyr a phlannu ar y rhwystrau ymwithiol
- Cyfle i wella'r celfi stryd a sicrhau eu bod yn gweddu ei gilydd, yn cynnwys tybiau plannu, bolardiau a meinciau i leihau annibendod a gwella'r strydwedd



Plannu ar rwystrau ymwithiol, Copenhagen



10.3 Cyfleoedd a Heriau



Plannu ar rwystrau ymwithiol, Breda, yr Iseldiroedd
 Llun gan GreenBlue Urban



Plannu coed

2. Parth Cyhoeddus Pant-yr-Afon

- Yn y brif gyffordd â Fernbrook Road a Brynmor Terrace dylid ystyried creu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr drwy leihau radiws cyrbau, gwella manau croesi, creu rhwystrau ymwithiol posibl a bwrdd arafu i ddiffinio'r fynedfa i barth siopa'r dref
- Yna, ym mharth siopa'r dref gellir creu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar gerddwyr i ostegu traffig drwy gulhau'r ffordd, gwella croesfannau a diffinio baeau parcio drwy osod rhwystrau ymwithiol a newid wyneb y ffordd.
- Plannu coed ar rwystrau ymwithiol, os yn bosibl

10.3 Cyfleoedd a Heriau

3. Maes Parcio Fernbrook Road a'r Llyfrgell


- Cyfleoedd i blannu yn y maes parcio
- Cyfle i wella'r celfi stryd, yn cynnwys tybiau blodau a lle i gadw beiciau
- Creu troedffordd ar hyd Fernbrook Road i gysylltu'r maes parcio â chanol y dref. Culhau'r ffordd gerbydau a chyflwyno system draffig â blaenoriaeth
- Cyfle i blannu coed, llwyni ac amrywio'r glaswellt amwynder yn y Berllan
- Potensial i roi to gwyrdd ar adeilad y llyfrgell



Plannu ger mynediad maes parcio, y Rhyl



To gwyrdd



10.3 Cyfleoedd a Heriau



4. Cysylltiad Paradise Road

- Cyfle i wella'r llwybr cerdded i'r orsaf reilffordd a glan y môr ar gyfer pobl sy'n llai abl drwy ledu'r llwybrau troed ar hyd y llwybr serth yma
- Cyfle i wyrddu'r stryd drwy blannu mwy o goed a chreu system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law, gan greu rhwystrau ymwithiol a chulhau'r ffordd gerbydau
- Cyfle i ffurfioli'r parcio ar hyd Paradise Road
- Cyfle i greu darpariaeth feicio well ar hyd Paradise Road

5. Gorsaf Penmaenmawr

- Gwella blaen yr orsaf drwy blannu blodau a gwella'r parth cyhoeddus
- Cyfle hefyd i wella cysylltiad cerddwyr rhwng Paradise Road a glan y môr drwy wella'r rhodfa ar hyd Station Road East
- Opsiwn i greu rhwystrau ymwithiol o amgylch ardaloedd parcio
- Cyfle i greu darpariaeth feicio well ar hyd Station Road East





I ybiau blodau y tu allan i Orsaf Reilffordd Prestatyn

10.4 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn astudiaeth gwaelodlin, gwerthuso safle a chanfod problemau a chyfluoedd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi'u nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, teithio llesol, isadeiledd gwyrdd pellach a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar Benmaenmawr. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Bangor Road, Fernbrook Road a'r Parth Siopa
- Cysylltiad Paradise Road
- Gorsaf Penmaenmawr



10.4 Meysydd Blaenoriaeth



Gan edrych tua'r dwyrain ar hyd Bangor Road i gyfeiriad y gyffordd

Bangor Road, Fernbrook Road a'r Parth Siopa

Bangor Road yw un o'r prif ddynesyfeydd a ffyrdd trwodd ym Mhenmaenmawr. Mae'r gyffordd rhwng Bangor Road, Fernbrook Road, Pant-yr-Afon a Brynmor Terrace yng nghanol ardal siopa Penmaenmawr.

Cyflwr Presennol:

- Teimlir bod yr ardal yn cael ei dominyddu gan gerbydau
- Rhywfaint o lefydd parcio ar y stryd ar hyd Bangor Road a Phant-Yr-Afon
- Llwybrau troed cul mewn mannau Mae'r llwybrau troed yn oddeutu 1.46 metr i 5.15 metr o led ar hyd Bangor Road
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr
- Mae'r rheiliau gwarchod yn cyfyngu ar symudiad cerddwyr, yn annog cerbydau i yrru'n gyflymach ac yn gwneud i'r stryd edrych yn anniben
- Cysylltiad gwael i gerddwyr i faes parcio Fernbrook Road ar hyd Fernbrook Road
- Prinder isadeiledd gwyrdd yn yr ardal
- Pyrth aneglur i'r dref
- Annibendod stryd

Cyfleoedd:

- Rhesymoli'r parcio ar y stryd, safle bws a mannau llwytho ar Bangor Road i greu wy o le i gerddwyr ac isadeiledd gwyrdd
- Creu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a gostegu traffig wrth y gyffordd
- Gwellu'r cysylltiadau cerdded i faes parcio Fernbrook Road
- Gwellu is-adeiledd gwyrdd yr ardal
- Gwellu'r parth cyhoeddus a diffinio'r mynedfeydd i'r dref
- Gwellu a chydlynu celfi stryd, yn cynnwys tynnu'r rheiliau gwarchod ble bynnag y bo'n bosibl

10.4 Meysydd Blaenoriaeth

Cysylltiad Paradise Road

Mae Paradise Road yn llechweddu i lawr yr allt o'r parth siopa i lawr am yr orsaf reilffordd a'r mynediad at y traeth. Mae yna fynediad i gerddwyr i'r Dingle a'r lle chwarae o'r ffordd.

Cyflwr Presennol:

- Ffordd gerbydau lydan (tua 8.56 i 10.18 metr) a theimlir bod y ffordd wedi'i dominyddu gan geir.
- Sawl rhodfa preifat i gerbydau
- Dim llefydd parcio ffurfiol ar y stryd, ond mae pobl yn parcio bob ochr i'r ffordd
- Rhywfaint o goed
- Serth iawn mewn mannau
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Cysylltiad gwael ar droed i'r man agored

Cyfleoedd:

- Culhau'r ffordd gerbydau er mwyn aildrefnu'r gofod a gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr, beicwyr ac isadeiledd gwyrdd
- Ffurfioli parcio
- Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Lledu llwybrau troed os yn bosibl i wella hygyrchedd ar y stryd serth
- Creu croesfannau i gerddwyr
- Gwella darpariaeth isadeiledd gwyrdd ar hyd y ffordd



Edrych tua'r gogledd-orllewin ar hyd Paradise Road

10.4 Meysydd Blaenoriaeth



Edrych ar hyd Station Road East tuag at y mynediad at y traeth

Gorsaf Penmaenmawr

Mae'r ardal hon yn cynnwys maes parcio, mynediad at yr orsaf reilffordd a'r traeth a'r lawnt fowlio.

Cyflwr Presennol:

- Wedi'i dominyddu gan gerbydau
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr
- Dim troedffordd ar ochr ogleddol Station Road East rhwng yr orsaf reilffordd a'r mynediad at y traeth
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Mannau parcio i bobl anabl wrth ymyl y mynediad at y traeth a'r maes parcio presennol
- Dim lle ffurfiol i barcio ceir ond mae pobl yn parcio ar y stryd

Cyflleoedd:

- Gwella'r cysylltiadau i gerddwyr rhwng Paradise Road, yr orsaf reilffordd, y maes parcio a glan y môr
- Creu troedffordd ar ben gogleddol Station Road East
- Creu croesfannau i gerddwyr
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a gostegu traffig

10.5 Dyluniadau Cysyniad


Dyluniadau Cysyniad Penmaenmawr

Mae dyluniadau cysyniad wedi cael eu cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer y maes blaenoriaeth ym Mhenmaenmawr.

Mae'r dyluniad cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth isadeiledd gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella teithio llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio prif stryd a man agored cyhoeddus Penmaenmawr.

Nodau allweddol y dyluniadau yw gwyrddu'r strydoedd o fewn yr ardal flaenoriaeth a rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr drwy blannu blodau a mesurau gostegu traffig i arafu cerbydau, rhoi pwrpas newydd i ofodau ar y ffordd gerbydau a gwella'r amgylchedd i gerddwyr a beicwyr.

Mae dyluniadau yn gysyniadol ac wedi'u cynhyrchu heb wybodaeth dopograffigol, cyngor ar gludiant nac arolygon technegol fel gwasanaethau a chyfleustodau.





Mae'r ardal hon yn cynnwys dynesfeydd allweddol i Benmaenmawr ar hyd Bangor Road a Phant-yr-Afon a pharth siopa'r dref.

Nod y cynigion yw diffinio'r fynyddfa i Benmaenmawr a chreu canol tref sy'n canolbwyntio ar gerddwyr. Cyflwynir coed a gardd law ar hyd Bangor Road i greu porth gwyrdd i'r dref. Mannau croesi newydd a gwell, a llwybrau troed newydd ar hyd Brynmor Terrace a Fernbrook Road i wella'r cysylltiad i gerddwyr. Bydd bwrdd arafu DE201 wrth y gyffordd yn arafu cyflymder cerbydau ac yn rhoi blaenoriaeth anffurfiol i gerddwyr.

231


10.5 Dyluniadau Cysyniad

Cysylltiad Paradise Road

Mae Paradise Road yn cysylltu glan y môr a'r orsaf reilffordd â chanol y dref. Mae'r stryd yn un serth a cheir rhywfaint o goed arni.


Mae'r cynigion yn ceisio creu coridor gwyrdd i'r orsaf drenau a glan y môr sy'n blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr. Mae'r ffordd gerbyddau wedi'i chulhau i 6 metr o les gyda blaenoriaeth ar y ffordd i feicwyr ac mae'r mannau parcio wedi'u ffurfioli ar ochr ddwyreiniol y stryd gydag isadeiledd gwyrdd newydd rhwng bob lle parcio.

Mae'r llwybr troed ar yr ochr ddwyreiniol wedi'i ledu i 5 metr i wella hygyrchedd ar hyd y llwybr serth. Mae'r cynigion yn cynnwys dau le croesi syml heb eu rheoli DE606 i wella'r cysylltiad i gerddwyr. Mae hyn yn cynnwys un wrth ymyl mynediad i'r man agored lle mae'r droedffordd hefyd wedi'i hestyn i wella mynediad.



Paradise Road

10.5 Dyluniadau Cysyniad



Gorsaf Penmaenmawr


Mae'r cynigion yn yr ardal hon yn ceisio gwella'r cysylltiadau i'r rheilffordd a'r traeth ar droed. Mae Station Road East wedi'i chulhau i o leiaf 3.18 metr ac mae'r baeau parcio i bobl anabl wedi'u symud. Mae hyn wedyn yn ein galluogi i gyflwyno troedffordd 2 fetr o led newydd ar y pen gogleddol rhwng yr orsaf reilffordd a'r mynediad i'r traeth a lledu'r droedffordd mewn rhai rhannau ar hyd y pen deheuol.

Ger y gyffordd, mae'r ffordd gerbydau wedi'i chulhau i 6 metr o led a radiws y cwrbyn wedi'i leihau i 6 metr i roi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr. Mae'r cynigion yn cynnwys manau croesi newydd i gerddwyr.

Gorsaf Penmaenmawr a Station Road East

10.5 Dyluniadau Cysyniad

Paradise Road



11 Llanfairfechan



11.1 Ardal yr Astudiaeth

Trosolwg

Mae Llanfairfechan yn dref Fictoraidd arfordirol yng ngogledd orllewin Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae gwibffordd yr A55 a'r rheilffordd i'r gogledd yn hollti'r dref a'r glan môr. Mae'r arfordir yma yn cynnig amrywiaeth o atyniadau hamdden, yn cynnwys llyn cychod, promenâd a thraeth Baner Las. Mae Llwybr yr Arfordir yn rhedeg i'r gogledd o'r dref ar hyd glan y môr ac yn mynd ar draws canol y dref ar Station Road. Mae Afon Llanfairfechan yn llifo trwy'r dref i'r gorllewin o Station Road a Village Road O ganol y dref ceir golygfeydd o'r brynau a'r mynyddoedd cyfagos.

Mae Papur Cefndir Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033 BP 47: Asesiad Isadeiledd Gwyrdd yn nodi bod yna orchudd canopi coed o 23.7% yn Llanfairfechan ac yn disgrifio diffyg cyffredinol o isadeiledd gwyrdd yn y dref.

Mae ardal yr astudiaeth yn canolbwyntio ar strydoedd a dynesfeydd allweddol i ganol y dref, y parth siopa a'r cyfleusterau cymunedol.

Mae strydoedd ac ardaloedd yn ardal yr astudiaeth yn cynnwys:

1. Village Road
2. Parth Cyhoeddus Station Road
3. Aber Road (y ddynesfa o'r de)
4. Penmaenmawr Road (y ddynesfa o'r gogledd)



11.1 Ardal yr Astudiaeth



Village Road



Cyffordd Village Road, Station Road, Aber Road a Penmaenmawr Road



Cyffordd Village Road, Station Road, Aber Road a Penmaenmawr Road



Station Road



Cofeb Aber Road



Aber Road



Aber Road



Penmaenmawr Road

11.2 Dadansoddiad Safle

Cynlluniau Dadansoddi





Mannau Agored

Ni cheir manau agored yn ardal yr astudiaeth, ac eithrio tir yr eglwys. Mae traeth Baner Las Llanfairfechan, yn cynnwys y llyn cychod a'r llefydd chwarae, wedi'u lleoli i'r gogledd o ardal yr astudiaeth.




Gorchudd Canopi Coed

Ar y cyfan mae yna orchudd canopi coed da yn Llanfairfechan i'r de o ardal yr astudiaeth. Mae yna fylchau ar hyd Station Road, Penmaenmawr Road a Village Road yng nghanol y dref.



11.2 Dadansoddiad Safle



Cludiant a Mynediad

Mae Llwybr yr Arfordir yn rhedeg i'r gogledd o'r dref ar hyd y promenâd ac yn mynd drwy ganol y dref ar Station Road. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yn mynd drwy'r ardal ar Penmaenmawr Road ac Aber Road. Ceir hawliau tramwy cyhoeddus o amgylch yr eglwys a thu allan i ardal yr astudiaeth. Mae yna sawl llwybr teithio llesol yn ardal yr astudiaeth ar hyd strydoedd allweddol Station Road, Village Road, Aber Road a Penmaenmawr Road. Ceir maes parcio ar Station Road.



Hierarchaeth Strydoedd

Mae gwibffordd yr A55 i'r gogledd yn gwahanu canol y dref a'r glan môr. Mae strydoedd allweddol ardal yr astudiaeth yn cynnwys Station Road, Village Road, Penmaenmawr Road ac Aber Road.

11.2 Dadansoddiad Safle



Cyd-destun Trefol

Mae parth siopa'r dref ar Station Road a Village Road.

Mae Station Road yn stryd siopa gul a deniadol ac yn ganolbwynt i ganol y dref.

Cyrchfannau Allweddol

Mae'r cyrchfannau o fewn ardal yr astudiaeth yn cynnwys siopau ar hyd Station a Village Road, sawl ysgol gynradd a chanolfan gymunedol.

Yng ngogledd ardal yr astudiaeth mae'r cyrchfannau allweddol yn cynnwys yr orsaf reilffordd a'r traeth, y llyn cychod ac atyniadau glan y môr eraill.

11.3 Cyfleoedd a Heriau

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau

- Stryd siopa ddeniadol sy'n rhan o ardal gadwraeth
- Afon Llanfairfechan yn llifo drwy'r dref
- Gorchudd coed da mewn mannau a choetir hynafol wrth ymyl canol y dref
- Traeth Baner Las
- Man agored a chynnig hamdden ar lan y môr
- Mae'r cynnig i dwristiaid yn cynnwys cyfleoedd i gerdded a glan y môr
- Mae Gwarchodfa Natur Leol Nant y Coed yn hygyrch o'r dref
- Mae Llwybr yr Arfordir a Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yn mynd drwy'r dref
- Aml-swyddogaeth isadeiledd gwyrdd da
- Meysydd parcio yng nghanol y dref

Cyfleoedd

- Diffinio gofod cyrraedd canol y dref
- Gwellu cysylltiadau tua'r gogledd i'r maes parcio, y traeth, ardal hamdden a'r orsaf reilffordd
- Gwellu'r cysylltiadau â'r warchodfa natur leol
- Gwellu'r llwybr teithio llesol ar hyd Llwybr yr Arfordir a Llwybr Beicio Cenedlaethol 5
- Aildrefnu gofod y briffordd er mwyn gwneud mwy o le i gerddwyr, ymyraethau isadeiledd gwyrdd a darpariaeth feicio well.
- Creu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr a gostegu traffig gyda llwybrau a mannau croesi gwell
- Rhwymoli'r mannau parcio ar y stryd i wneud mwy o le i gerddwyr a phlanhigion
- Ystyried plannu coed, llwyni, gwrychoedd, system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law, prosiect tyfu cymunedol, toeau gwyrdd a waliau gwyrdd
- Amrywio'r lleiniau glaswellt ar Penmaenmawr Road
- Gwellu'r cysylltiadau beicio a'r ddarpariaeth ar draws canol y dref
- Gwellu arwyddion ar y prif ddynesyfeydd ac ar hyd Llwybr yr Arfordir a Llwybr Beicio Cenedlaethol 5
- Gwellu parth cyhoeddus y gofeb a phlannu


Gwendidau

- Diffyg synnwyr o gyrraedd
- Parth siopa hirgul yng nghanol y dref, wedi'i rhannu gan briffordd
- Mae'r dref yn cefnu ar yr afon
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr
- Darpariaeth wael i feicwyr
- Strydoedd wedi'u dominyddu gan geir
- Cysylltiad gwael i'r orsaf a'r glan môr
- Diffyg man agored yng nghanol y dref
- Bioamrywiaeth wael

Bygythiadau

- Mae Penmaenmawr Road/Aber Road yn ffyrdd trwodd
- Gofod cyfyngedig ar gyfer plannu coed a llwyni
- Colli llefydd parcio ar y stryd
- Ymyraethau ar y briffordd fabwysiedig
- Hawddfreintiau cyfleustodau a gwasanaethau

11.3 Cyfleoedd a Heriau



11.3 Cyfleoedd a Heriau

1. Village Road

- Cyfle i gulhau'r ffordd a lledu llwybrau troed os yn bosibl i greu rhwystrau ymwithiol o amgylch llefydd parcio ac i wneud lle ar gyfer plannu coed a system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law
- Ystyried rhesymoli'r baeau parcio i blannu coed a gardd law
- Cyfle y tu allan i'r ganolfan gymunedol i roi pwrpas newydd i'r llawr caled fel isadeiledd gwyrdd gyda choed a llwyni. Gellir ystyried prosiect tyfu cymuned / tybiau tyfu llysiau wrth ymyl yr ysgol
- Cyfle i greu to gwyrdd ar do gwastad yr ysgol neu wal werdd ar y toiledau cyhoeddus



Tybiau tyfu llysiau




To gwyrdd




Gardd law, coed a seddi ar White Hart Lane.
Ffynhonnell delwedd: Robert Bray Associates



Cei Syr John Rogerson, Dulyn. Ffynhonnell delwedd: Biotecture



11.3 Cyfleoedd a Heriau



Parth sy'n canolbwyntio ar gerddwyr yn Fishergate, Preston
 Ffynhonnell delwedd: www.lep.co.uk



Plannu ar Station Road, Ashington.
 Ffynhonnell delwedd: GreenBlue Urban

2. Parth Cyhoeddus Station Road

- Ceir cyfle i greu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr gyda llwybrau troed lletach, cysylltiad beicio gwella a manau croesi/mesurau gostegu traffig gwell
- Mae yna hefyd botensial i ddiffinio rhwystrau ymwithol o amgylch llefydd parcio, rhoi wyneb gwahanol ar faeau parcio a chreu lle i flodau a llwybrau troed
- Mae'r ffordd yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Llwybr yr Arfordir felly cyfle posibl i dynnu'r manau parcio a gwella'r ddarpariaeth i feicwyr
- Cyfleoedd i blannu yn y maes parcio


11.3 Cyfleoedd a Heriau

3. Y ddynesfa o'r de, Aber Road


- Cyfle ar gyfer darpariaeth feicio
- Cyfle i blannu coed a llwyni ar ochr ddwyreiniol y ffordd yn y man agored i atgyfnerthu'r fynedfa i'r dref a'r cysylltiad i safle arfaethedig yr ysgol
- Cyfle ar gyfer llwybrau troed bob ochr i'r ffordd yn hytrach nag un ochr
- Cyfle i wella'r ardal o amgylch y gofeb a phlannu mwy o flodau a gosod seti



Plannu Coed



11.3 Cyfleoedd a Heriau



Plannu blodau gwyllt

4. Penmaenmawr Road (y ddynesfa o'r gogledd)

- Prif ddynesfa i ganol y dref, sydd angen ei ddiffinio'n well ac arwyddion gwell
- Mae'r ffordd yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Llwybr yr Arfordir felly ceir cyfle i wella'r ddarpariaeth i feicwyr
- Amrywio'r lleiniau glaswellt drwy blannu coed, bylbiau a dŵl blodau gwyllt i wella a meddalu'r mynediad i'r dref
- Opsiwn i greu rhwystrau ymwithiol o amgylch manau parcio a defnyddio rhai presennol i greu lle i blannu coed a system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law
- Cyfle i wella croesfannau/llwybrau troed o amgylch y safle bws




Draenio cynaliadwy yn Grangetown Gwyrddach, Caerdydd
 Flynhonnell delwedd: Landscape Institute

11.4 Meysydd Blaenoriaeth

Meysydd Blaenoriaeth

Yn dilyn astudiaeth gwaelodlin, gwerthuso safle a chanfod problemau a chyfleodd, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi'u nodi. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda'r tîm prosiect CBSC er mwyn ystyried ymyraethau parth cyhoeddus, teithio llesol, isadeiledd gwyrdd pellach a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar Lanfairfechan. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Village Road
- Parth Siopa Station Road
- Penmaenmawr Road



11.4 Meysydd Blaenoriaeth



Edrych tua'r gogledd-ddwyrain ar Penmaenmawr Road

Penmaenmawr Road

Mae Penmaenmawr Road yn ffordd drwodd ac yn hen gefnffordd, gan gysylltu'r dref â gwibffordd yr A55.

Cyflwr Presennol:

- Ffordd wedi'i dominyddu gan gerbydau
- Llefydd parcio oddi ar y stryd
- Llwybrau troed cul mewn mannau Mae'r llwybrau troed yn amrywio rhwng 1.19 metr a 5.4 metr ar hyd Penmaenmawr Road
- Dim troedffordd ar ochr ddwyreiniol y ffordd
- Diffyg croesfannau i gerddwyr
- Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr
- Darpariaeth wael i feicwyr
- Prinder isadeiledd gwyrdd yn yr ardal
- Porth aneglur i'r dref

Cyfleoedd:

- Rhesymoli'r mannau parcio ar y stryd i wneud mwy o le i gerddwyr a phlanhigion
- Gwella parcio
- Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.
- Creu troedffordd a llwybr beicio ar ochr ddwyreiniol y ffordd
- Gwella'r ddarpariaeth groesi ar gyfer cerddwyr
- Gwella'r ddarpariaeth isadeiledd gwyrdd

11.4 Meysydd Blaenoriaeth

Cyffordd Station Road a Penmaenmawr Road

Mae'r ardal hon yn cynnwys hanner arall parth siopa Llanfairfechan sydd wedi'i gwahanu o'r ardal ar Village Road gan Penmaenmawr Road ac Aber Road. Mae Penmaenmawr Road ac Aber Road yn ffyrdd trwodd a rhain yw'r prif ddynesfeydd i Lanfairfechan o'r A55.

Cyflwr Presennol:

- *Ardal wedi'i dominyddu gan gerbydau*
- *Cyffordd lydan gyda signalau a rheiliau gwarchod, a lonydd i droi i'r chwith ar Aber Road/Penmaenmawr Road*
- *Mae Station Road yn ffordd gul gyda baeau parcio ar y stryd ar un ochr*
- *Llwybrau troed cul mewn mannau Mae'r llwybrau troed yn oddeutu 0.84-2.65 metr ar hyd Station Road*
- *Diffyg croesfannau i gerddwyr*
- *Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr*
- *Rheiliau gwarchod*
- *Darpariaeth wael i feicwyr*
- *Prinder isadeiledd gwyrdd yn yr ardal*

Cyfluoedd:

- *Gwella'r gyffordd i greu amgylchedd sy'n fwy cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr, a diffinio'r fynedfa i ganol y dref*
- *Rhesymoli'r mannau parcio ar y stryd i wneud mwy o le i gerddwyr a phlanhigion*
- *Gwella Teithio Llesol a chynyddu blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr.*
- *Gwella'r ddarpariaeth groesi i gerddwyr a thynnu'r rheiliau gwarchod*
- *Gwella'r ddarpariaeth isadeiledd gwyrdd*



Cyffordd Village Road, Station Road, Aber Road a Penmaenmawr Road gan edrych tua Station Road



Yr olygfa tua'r gogledd ar Station Road

11.4 Meysydd Blaenoriaeth



Tua'r gorllewin ar Village Road

Village Road

Mae'r ardal hon yn cynnwys rhan o barth siopa a chyrchfannau Llanfairfechan, fel y ganolfan gymunedol a'r ysgol gynradd.

Cyflwr Presennol:

- *Ardal wedi'i dominyddu gan gerbydau*
- *Lle parcio ar y stryd ar Village Road*
- *Dim croesfannau i gerddwyr*
- *Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr*
- *Prinder isadeiledd gwyrdd yn yr ardal*

Cyfleoedd:

- *Creu amgylchedd cyfeillgar i gerddwyr a chynyddu'r flaenoriaeth mewn mannau/cyrchfannau allweddol*
- *Rhesymoli'r mannau parcio ar y stryd i wneud mwy o le i gerddwyr a phlanhigion*
- *Creu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr*
- *Creu croesfannau i gerddwyr*
- *Gwella'r ddarpariaeth isadeiledd gwyrdd*

11.5 Dyluniadau Cysyniad


Dyluniadau Cysyniad Llanfairfechan

Mae dyluniadau cysyniad wedi'u cynhyrchu i Gam 2 RIBA ar gyfer meysydd blaenoriaeth yn Llanfairfechan. Cytunwyd ar y meysydd blaenoriaeth hyn gyda thîm prosiect CBSC ac maent yn canolbwyntio ar ymyraethau isadeiledd gwyrdd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar hyd Penmaenmawr Road, Station Road, Village Road ac wrth ymyl y gyffordd ag Aber Road.

Mae'r dyluniadau cysyniad yn nodi cyfleoedd strategol a thematig allweddol er mwyn gwella neu gynyddu darpariaeth isadeiledd gwyrdd gan gynnwys cyfleoedd i wella Teithio Llesol a'r parth cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol tuag at adfywio prif strydoedd Llanfairfechan.

Prif nod y dyluniadau cysyniad yw gwneud y prif goridor yn fwy gwyrdd a chreu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr drwy blannu nifer o goed a phlanhigion, cyflwyno mesurau tawelu traffig i arafu cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau croesi, gyda chyfleoedd gwell ar gyfer cerdded a beicio.

Mae dyluniadau yn gysyniadol ac wedi'u cynhyrchu heb wybodaeth dopograffigol, cyngor ar gludiant nac arolygon technegol fel gwasanaethau a chyfleustodau.



Trosolwg o Ddyluniadau Cysyniad Llanfairfechan

11.5 Dyluniadau Cysyniad



Penmaenmawr Road (Gogledd)

Penmaenmawr Road (Gogledd)

Penmaenmawr Road yw'r prif llwybr drwy Lanfairfechan, ac roedd yn arfer bod yn gefnffordd.

Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar leihau uchafiaeth cerbydau, cynyddu cysylltiadau i gerddwyr a gwella isadeiledd gwyrdd.

Mae'r cynigion yn dylunio'r ffordd sydd wedi'i hisraddio yn stryd feicio DE206 wrth ymyl y porth i'r dref ac wrth ymyl yr ysgol, gyda beicwyr ar y ffordd yn y safle blaenoriaeth. Mae'r ffordd gerbydau wedi'i chulhau, y llwybrau troed wedi'u lledu a DE613 newydd Adeiladu croesfan dwcan i wella cysylltiad cerddwyr wrth ymyl yr ysgol. Ffurfioli a rhesymoli'r baeau parcio wrth ymyl yr ysgol a'r ganolfan iechyd.

Llwybr DE401 3 metr o led a rennir gan gerddwyr a beicwyr ar hyd ochr y ffordd – ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyda strided 0.5 metr o led rhwng y llwybr ac ochr y ffordd Creu lôn feiciau gynghorol sy'n o leiaf 1.5 metr o led ar ochr orllewinol y ffordd i ddarparu llwybr pwrpasol i feicio i'r ddau gyfeiriad ar Llwybr Beicio Cenedlaethol 5.

Plannu coed a gardd law fel Systemau Draenio Cynaliadwy i ychwanegu gwyrddni i'r stryd a dal dŵr storm

11.5 Dyluniadau Cysyniad

Penmaenmawr Road (De)

Mae'r cynigion yn parhau i ran ddeheuol Penmaenmawr, gyda llwybr cerdded a beicio DE401 sy'n 3 metr o led ar ochr ddwyreiniol y ffordd; a lôn feiciau gynghorol DE304 sy'n o leiaf 1.5 metr o le ar yr ochr orllewinol i ddarparu lôn feicio bwrpasol i'r ddau gyfeiriad ar Lwybr Beicio Cenedlaethol 5. Caiff y ffordd gerbydau ei chulhau i 4.8 metr o led a'r llinellau canol eu tynnu (DE307) er mwyn atal gor-yrro.


Y tu allan i Ganolfan Iechyd Plas Menai – gwella'r croesfannau presennol i groesfannau syml DE606 ar dwmpath ffordd gwastad i amlygu'r groesfan i gerbydau ac i ostegu traffig. Tynnu'r encilfa bresennol i ledur droedffordd 1.2 metr bresennol i leihau parcio anghyfreithlon, cynigir creu 7 bae parcio 2 fetr o led ar ochr ddwyreiniol y ffordd, gyda'r baeau parcio presennol yn cael eu gwella i ddarparu mwy o fannau parcio i ymwelwyr.

Creu system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law a phlannu coed ar hyd y stryd i ddal dŵr storm o'r gylfau. Caiff hyn ei integreiddio yn y rhwystrau ymwithiol wrth y baeau parcio newydd a gwell Cyflwyno dŵl blodau gwyllt ar y llinellau glaswellt i wella bioamrywiaeth. Gwella safleoedd bws.



Penmaenmawr Road (De)

11.5 Dyluniadau Cysyniad



Cyffordd Penmaenmawr Road a Station Road

Cyffordd Penmaenmawr Road

Nod y cynigion yw creu synnwyr o gyrraedd canol y dref drwy wyrddu'r stryd a synnwyr o flaenoriaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Cynigir gwneud rhan ddeheuol Penmaenmawr Road ar ddechrau parth siopa canol y dref yn stryd feicio DE206 gyda beicwyr ar y ffordd yn y prif safle ar hyd Llwybr Beicio Cenedlaethol 5. Mae'r ffordd wedi'i chulhau i 6 metr o led gyda lonydd traffig 2.5 metr o led a sribed canol 1 metr o led i wneud i'r ffordd edrych yn fwy cul.

Cyflwyno llwybr cerdded a beicio DE401 3 metr o led ochr yn ochr â'r ffordd ar ochr ddwyreiniol y ffordd ar y llain bresennol.

System ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law a phlannu coed, a dŵl blodau gwyllt ar y llain laswellt bresennol ar ochr ddwyreiniol y ffordd gydag ardaloedd newydd o blannu ar yr ochr orllewinol. Bydd hyn yn gwyrddu'r stryd ger y fynedfa i'r dref, yn dal dŵr storm ac yn amrywio'r lleiniau glaswelltog.

Caiff y gyffordd â signalau ei disodli gan gyffordd ar fwrdd arafu DE201 a chroesfan sebra DE610 yn lle'r croesfannau twcan, gan greu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr a beicwyr. Mae hyn yn cynnwys tynnu'r lonydd i droi i'r dde a gwneud y gornel yn llai.

Ar hyd Station Road defnyddir manau croesi DE606 syml heb eu rheoli a rhwystrau ymwithiol i wella'r cysylltiad i gerddwyr a diffinio mynediad y pentref.


11.5 Dyluniadau Cysyniad

Aber Road

Mae'r cynigion ar gyfer Aber Road yn cynnwys creu stryd feicio DE206 ar yr ochr ogleddol wrth i chi ddynesu at ganol y dref ger Station Road a Village Road. Mae beicwyr yn y prif safle ar y ffordd, sy'n rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 5. Mae'r lôn droi ar y dde yn cael ei thynnu ac mae'r ffordd gerbyddau yn cael ei chulhau i 6 metr o led gyda lonydd traffig 2.5 metr o led a sribed ganol gwastad 1 metr o led i gulhau'r ffordd gerbyddau'n weledol ac i arafu cerbyddau.

Mae'r newid yma ger mynediad y dref yn ein caniatáu i greu troedffyrdd lletach y tu allan i'r siopau/caffis, gyda lle i fyrddau a chadeiriau yn ogystal â baeau parcio diffiniedig.

Tua'r de darperir lôn feiciau gynghorol DE304 2 fetr o led ar bob ochr i'r ffordd, i'r de o'r gyfeb ryfel, i wella'r ddarpariaeth i feicwyr ar hyd Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 ac i gyfeiriad safle'r ysgol newydd. I gyflawni hyn caiff y ffordd gerbyddau ei chulhau i oddeutu 4.6 metr o led a thynni'r llinellau canol (DE307) i arafu cerbyddau.



Aber Road

11.5 Dyluniadau Cysyniad



Village Road

Village Road

Mae'r cynigion ar hyd Village Road yn ceisio cynyddu isadeiledd gwyrdd a chreu amgylchedd sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr wrth ymyl y siopau a'r ysgol.


Cyflawnir hyn drwy dynnu'r manau parcio a chyflwyno system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law a phlannu coed i ddal dŵr storm, gan ddiffinio manau parcio a gwyrddu'r stryd.

Cynigir gosod tybiau plannu, yn cynnwys rhai gyda seti, y tu allan i siopau a Neuadd y Dref er mwyn gwyrddu'r stryd. Mae yna gyfle i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno wal werdd fyw ar y ffasâd wag yr annedd gyferbyn â Neuadd y Dref, a fyddai'n gofyn am ragor o ymgynghori gyda'r tir feddiannwr.


Cyflwyno croesfannau DE606 syml heb eu rheoli ar dwmpathau ffordd mewn lleoliadau allweddol a llwybrau answyddogol, y tu allan i Spar a Neuadd y Dref, gwella'r cysylltiadau i gerddwyr a gwella'r amgylchedd cerdded.

11.5 Dyluniadau Cysyniad

Rhan Ogleddol Penmaenmawr Road



Rhan Ddeheuol Penmaenmawr Road



12 Cynllun Cyflawni



12.1 Cynllun Cyflawni

Polisi Cynllunio

Gall polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol annog ac arwain datblygiadau sy'n darparu isadeiledd gwyrdd o'r safon uchaf ac yn sicrhau enillion net bioamrywiaeth.

Mae'n bwysig bod ystyriaethau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn cael eu hystyried ar gam cynnar wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth gynnig neu ystyried cynigion datblygu. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol fod yn rhagweithiol a chynnwys polisiâu priodol yn y cynllun datblygu lleol i ddiogelu rhag colli bioamrywiaeth ac i sicrhau gwelliant.

Mae'n bwysig nodi yn y polisi cynllunio bod yr isadeiledd gwyrdd a gynigir yng ngweledigaeth pob canol tref yn amcan hirdymor, ac felly'n anghymell datblygiadau sy'n mynd yn groes i'r weledigaeth hon. Bydd yn rhaid i bolisiâu cysylltiedig fod yn hyblyg i arwain a rheoli'r ddarpariaeth ar draws ystod eang o ddatblygiadau a sicrhau nad yw'r cynigion yn cael eu peryglu.

Gellir darparu isadeiledd gwyrdd fel cyd-gynnyrch buddsoddiad mewn isadeiledd newydd neu wedi'i ailwampio a gall helpu i wella teithio llesol. Mae datblygiadau yn gyfle i ddarparu asedau newydd neu wella rhai presennol ond maent hefyd yn gallu cynnwys bygythiadau o ran colli, difrodi neu newid nodweddion amgylcheddol. Mae hynny wedyn yn cyfiawnhau gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr i helpu i barhau i reoli asedau isadeiledd gwyrdd presennol a chreu asedau newydd, yn enwedig pan nodir gwendidau. Yn draddodiadol mae rhwymedigaethau cynllunio yn cael eu gwneud ar ffurf cytundebau Adran 106. Mae'r rhain yn gytundebau preifat sy'n cael eu trafod rhwng yr awdurdodau cynllunio lleol a'r unigolion â'r budd yn y darn o dir (fel rheol yng

nghyd-destun ceisiadau cynllunio), a'r bwriad yw gwneud y datblygiad yn dderbyniol, a fyddai fel arall yn annerbyniol yn nhermau cynllunio.

Fel ffordd i gefnogi isadeiledd gwyrdd, gall cytundebau A106 gynhyrchu'r cyllid sydd ei angen i weithredu ymyraethau isadeiledd gwyrdd a gwelliannau teithio llesol mewn canol trefi, a gwelliannau i asedau isadeiledd gwyrdd presennol ac i ddarparu gwaddol ar gyfer trefniadau rheoli hirdymor.

Teithio Llesol

Mae cerdded a beicio yn dda i'n hiechyd corfforol a meddyliol. Mae gwneud mwy o deithiau llesol yn gwella iechyd, ansawdd bywyd a'r amgylchedd.

Mae sawl ffordd y gall yr amgylchedd adeileddig a naturiol effeithio ar y dewisiadau a wnawn i fod yn fwy egniol. Mae datblygu llwybrau teithio llesol sy'n cynnwys ymyraethau isadeiledd gwyrdd a dylunio trefol meddylgar yn gallu helpu i greu systemau cludiant sy'n hyrwyddo cerdded a beicio, gan helpu i greu cymunedau sy'n egniol, iachach ac yn llefydd gwell i fyw ynddynt.

Mae CBSC wedi cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol arfaethedig ac wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar lwybrau presennol ac yn y dyfodol yn yr 8 tref astudiaeth. Dylid ystyried ymyraethau isadeiledd gwyrdd fel rhan o waith datblygu a chyflawni cynlluniau teithio llesol CBSC ar hyd y llwybrau hyn, gan ddarparu cyfle i greu amgylchedd deniadol a sicrhau cyd-fuddsoddiad drwy ffynonellau ariannu.



Gwelliannau teithio llesol ar Sauciehall Street, Glasgow gyda llwybr beicio, coed trefol a gwelliannau i'r parth cyhoeddus. Ffynhonnell delwedd: GreenBlue Urban.

12.1 Cynllun Cyflawni

Enillion Net Bioamrywiaeth

Mae Enillion Net Bioamrywiaeth yn ddull datblygu sy'n ceisio gadael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr gwell nag yr oedd cyn y datblygiad. Mae Enillion Net Bioamrywiaeth yn defnyddio dull safonol neu fetrig i fesur colledion ac enillion bioamrywiaeth o ganlyniad i brosiect datblygu, a fynegir mewn 'unedau bioamrywiaeth'.

Mae Enillion Net Bioamrywiaeth eisoes yn ofynnol dan bolisi cynllunio yng Nghymru, a gellir ei gyflawni ar safle, oddi ar safle neu drwy gyfuniad o fesurau ar ac oddi ar y safle.

Mae Enillion Net Bioamrywiaeth yn gysylltiedig ag amrywiaeth o raglenni, yn cynnwys:

- *Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd*
- *Creu lleoedd*
- *Isadeiledd gwyrdd*
- *Mynediad i fannau gwyrdd a natur*
- *Iechyd a lles corfforol a meddyliol*
- *Gwrthsefyll llifogydd*
- *Gwella ansawdd aer*

Gall yr ymyraethau isadeiledd gwyrdd a gynigir ymhob tref ffurfio lleoliadau derbyn dynodedig ar gyfer datblygwyr eraill sy'n ceisio prynu unedau Enillion Net Bioamrywiaeth ar gyfer darpariaeth oddi ar safle. Gellir defnyddio hyn fel ffordd i ariannu gwaith tirlunio'r canol trefi.



Gardd law o lwyd i wyrdd Sheffield, sy'n darparu system ddraenio gynaliadwy i ddal dŵr ffo ac i wella bioamrywiaeth canol y ddinas
Ffynhonnell delwedd: Nigel Dunnett

Rheoli Tir

Bydd sefydlu dull cyson a rhagweithiol ar gyfer rheoli tir yn sicrhau ein bod ni'n cyflawni amcanion tirwedd a bioamrywiaeth hirdymor. Bydd gwaith cynnal a chadw tirwedd yn yr ardaloedd tirlunio, cynefinoedd a'r mannau agored yn sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cael eu cynnal i ddarparu mannau gyda phriodoledd esthetig a bioamrywiaeth. Er mwyn cyflawni hyn argymhellir y dylid paratoi Cynllun Rheoli Tirwedd trosfwaol ar gyfer unrhyw isadeiledd gwyrdd a ddarperir.

Mae'r broses o baratoi a gweithredu cynllun rheoli tirwedd hirdymor yn addas iawn ar gyfer gwaith partneriaeth, gan alluogi trafodaethau rhwng budd-ddeiliaid cymunedol a hwyluso 'prynu i mewn' i gyflawni gweledigaeth gyffredin ar gyfer mannau o ansawdd uchel. Gellir monitro ac adolygu llwyddiant y prosiect yn rheolaidd drwy osod targedau i weld a yw'r tirlunio a'r cynefinoedd yn cwrdd ag anghenion a dyheadau'r safle. Bydd gwaith rheoli a chynnal a chadw priodol hefyd yn hanfodol i gyrraedd unrhyw darged enillion net bioamrywiaeth sy'n ofynnol.

12.1 Cynllun Cyflawni

Camau Nesaf

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r cynigion a geir yn y ddogfen hon mae yna nifer o gamau sydd angen eu cymryd ymhob ardal flaenoriaeth canol tref.

Ymgynghorwyr

Defnyddio tîm o ymgynghorwyr i gefnogi CBSC i ddatblygu'r cynigion i'r cam nesaf ar gyfer eu cyflawni. Bydd ar yr ymgynghorwyr arweiniol angen sgiliau arbenigol mewn pensaernïaeth tirlunio gyda chefnogaeth ymgynghorwyr cynllunio cludiant, peirianneg draenio, coeddyddiaeth, rheoli tirwedd a syrfeo meintiau.

Amcangyfrifo'r Gost

Amcangyfrifo cost y cynigion amlinellol ar gyfer pob maes blaenoriaeth – a fydd yn helpu i gynllunio costau a cheisiadau am gyllid nes ymlaen. Cynnal ymarferion rheoli gwerth a gwerthuso dewisiadau sydd eu hangen i gyrraedd y gost darged a'r rhaglen.

Meysydd Blaenoriaeth

Cytuno ar y camau nesaf i'w cymryd, y drefn flaenoriaeth a chymeradwyo'r dyluniadau i fwrw ymlaen i'r cam nesaf.

Astudiaethau Technegol

Cynnal yr astudiaethau technegol angenrheidiol i hysbysu'r cam nesaf o ddyluniadau manwl at gam 3 RIBA. Fe ddylai hyn gynnwys astudiaethau fel arolwg o wasanaethau, arolwg topograffigol ac archwiliad diogelwch ar y ffyrdd (os oes angen).

Priffyrdd a Theithio Llesol

Cytuno ar astudiaethau a dogfennau eraill sydd eu hangen gyda thimau Priffyrdd a Theithio Llesol CBSC, i hysbysu'r gwaith o ddatblygu'r dyluniadau ar gyfer y briffordd fabwysiedig, yn cynnwys sut y bydd cynigion yn helpu i ddarparu llwybrau teithio llesol o flaenoriaeth fel y nodir ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Fe all hyn gynnwys unrhyw waith sydd ei angen i asesu'r achos strategol dros newidiadau arfaethedig, fel y system un-ffordd arfaethedig ar Mostyn Street, Llandudno neu gynigion i leihau nifer y lleoedd parcio ar y stryd. Cytuno ar unrhyw orchymyn neu drwydded sydd eu hangen i wneud gwaith ar y briffordd.

Ymgysylltu

Ymgynghori ymhellach gyda budd-ddeiliaid ynghylch y cynigion. Bydd ymgynghori gyda budd-ddeiliaid yn bwysig i gynnal y momentwm a manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi. Mae nifer o weithdai wedi'u cynnal i fudd-ddeiliaid yn ystod yr astudiaeth hon ac maent wedi amlygu cefnogaeth i'r cynigion. Bydd yn bwysig harneisio hyn a chynnal y momentwm.

Trafodaethau gyda Thirfeddianwyr

Hwyluso trafodaethau gyda thirfeddianwyr a thenantiaid ynglŷn ag ardaloedd y tu allan i'r briffordd fabwysiedig.

Datblygu Dyluniadau Cam 3 RIBA

Bydd cynlluniau pob un o'r 10 canol tref yn cael eu datblygu hyd at gynllun dylunio Cam 3 RIBA, sy'n cynnwys cynlluniau manwl ac adroddiad Cam 3. Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau yn barod i fanteisio ar unrhyw gyfle ariannu a geir.

Cynllunio

Ymgynghori gyda'r awdurdod cynllunio lleol a chytuno ar y gwaith sydd angen cymeradwyaeth gynllunio. Yn dilyn cytuno ar y cynlluniau manwl, cynhyrchu cyfres o ddarluniadau i gefnogi unrhyw gais cynllunio sydd ei angen ar gyfer y gwaith. Cyflwyno ceisiadau cynllunio unigol ar gyfer pob ardal flaenoriaeth canol tref, yn ôl yr angen.

Amcangyfrif o'r Gost a'r Opsiynau Caffael

Paratoi amcangyfrif o gost y cynigion manwl (gan weithio gyda syrfêwr meintiau) a thrafod yr opsiynau caffael gyda thîm y prosiect.

Dyluniadau Technegol Cam 4 RIBA

Paratoi dyluniadau gwaith yn seiliedig ar gynigion Cam 3 RIBA. Bydd y rhain yn cynnwys gosodiadau, trychiadau a manylion adeiladu llawn ar gyfer tirlunio caled a thirlunio meddal. Nodi'r angen am unrhyw gwmni arbenigol i ddylunio a gweithredu agweddau ar y gwaith fel system ddraenio gynaliadwy ar ffurf gardd law neu byllau coed arbenigol. Cynhyrchu Manyleb Adeiladu Cenedlaethol ar gyfer y gwaith, rhestrau meintiau, amcangyfrif o gost y tendr a chynllun rheoli tirwedd.

Cam Tendro a Gwerthuso

Cysylltu gyda'r client i benderfynu ar y strategaeth gaffael ar gyfer ymgysylltu â chontractwr i wneud y gwaith. Cynhyrchu dogfennau'r contract ar gyfer y cam tendro (yn cynnwys yr amodau, rhagofynion, darluniau, manylebau a'r rhestrau meintiau). Gwerthuso'r cynigion a gwneud argymhellad ar gyfer cymeradwyaeth.

Amodau Cynllunio

Adolygu, mynd i'r afael a rheoli'r gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw amod cynllunio a chysylltu â'r swyddog achos cynllunio.

Cam 5 RIBA – Adeiladu

Paratoi'r contract, a gweinyddu a gorchwyllo'r contract hyd at ddiwedd y gwaith adeiladu, yn cynnwys archwilio'r safle yn rheolaidd.



Prif Swyddfa

Genesis Centre Birchwood
Science Park Warrington
WA3 7BH

01925 844004
tep@tep.uk.com

Gateshead

Office 26
Gateshead International
Business Centre
Mulgrave Terrace
Gateshead
NE8 1AN

0191 605 3340
gateshead@tep.uk.com

Llundain

8 Trinity Street London
SE1 1DB

020 3096 6050
london@tep.uk.com

Market Harborough

The Reynard Suite
Bowden Business Village
Market Harborough
Leicestershire
LE16 7SA

01858 383120
mh@tep.uk.com

Cernyw

4 Park Noweth
Churchtown
Cury
Helston
Cornwall
TR12 7BW

01326 240081
cornwall@tep.uk.com